

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

24/04/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)
[Questions to the Minister for Finance](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#)
[Questions to the Minister for Local Government and Government Business](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Cwestiwn Brys: Amseroedd Ymateb Ambiwllans](#)
[Urgent Question: Ambulance Response Times](#)

[Datganiad gan y Llywydd](#)
[Statement by the Presiding Officer](#)

[Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)
[Motions to Elect Members to Committees](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Effaith Tywydd Garw](#)
[Welsh Conservatives Debate: The Impact of Severe Weather Conditions](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ynni ar Ynys Môn](#)
[Welsh Conservatives Debate: Energy on Ynys Môn](#)

[Dadl Plaid Cymru: Anghydraddoldeb ar Sail Rhyw](#)
[Plaid Cymru Debate: Gender Inequality](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Cefnu ar ein Brodyr—Asesu Cefnogaeth i Anhwylder Straen wedi Trawma yng Nghymru](#)
[Short Debate: Abandoned Brothers—Assessing support for PTSD in Wales](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd
(Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer
(Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Questions to the Minister for Finance

Pwerau Benthycu

Borrowing Powers

13:30 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

1. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran trafodaethau gyda'r Trysorlys am drosglwyddo pwerau benthycu ar gyfer prosiectau seilwaith? OAQ(4)0244(FIN)

1. What progress has been made in negotiations with the Treasury about the transfer of borrowing powers for infrastructure projects? OAQ(4)0244(FIN)

13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance

Inter-governmental talks on the devolution of borrowing powers are progressing well with the UK Treasury, ahead of the UK Government's response to the report of the Silk commission that is due this spring. Borrowing powers are an important tool for improving infrastructure and supporting economic recovery.

Mae trafodaethau rhynglywodraethol ar ddatganoli pwerau benthycu yn mynd rhagddynt yn dda gyda Thrysorlys y DU, cyn ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad Comisiwn Silk y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn. Mae pwerau benthycu yn adnodd pwysig o ran gwella seilwaith a chefnogi adferiad economaidd.

- 13:31 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister for that response. Can she confirm, following Danny Alexander's speech to the Lib Dem conference on Saturday, that the coalition Government is not pulling back from promising that it will consider borrowing powers for infrastructure projects on a case-by-case basis before there is any decision about tax-raising powers?
- Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. A all gadarnhau, yn dilyn araith Danny Alexander i gynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol ddydd Sadwrn, nad yw'r Llywodraeth glymblaid yn cefnu ar yr addewid y bydd yn ystyried pwerau benthyca ar gyfer prosiectau seilwaith ar sail achosion unigol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch pwerau trethu?
- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Julie Morgan for that question. I very much welcomed the comments of the Chief Secretary to the Treasury over the weekend, in particular his pledge to implement an ambitious package of financial reform, as recommended by the Silk commission. In terms of inter-governmental talks, the Chief Secretary to the Treasury and I, following the joint statement by our Governments last October, are committed to exploring the options for financing specific infrastructure projects, including early access to borrowing powers.
- Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn yn falch iawn o glywed sylwadau Prif Ysgrifennydd y Trysorlys dros y penwythnos, yn enwedig ei addewid i roi pecyn uchelgeisiol o ddiwygiadau ariannol ar waith, fel yr argymhellwyd gan Gomisiwn Silk. O ran trafodaethau rhynglywodraethol, mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a minnau, yn dilyn datganiad ar y cyd gan ein Llywodraethau fis Hydref diwethaf, yn ymrwymedig i ystyried yr opsiynau ar gyfer ariannu prosiectau seilwaith penodol, gan gynnwys rhoi pwerau benthyca cynnar.
- 13:32 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, while future financing arrangements for infrastructure projects will have significant implications for the Welsh economy, businesses in my own constituency in particular are concerned about the infrastructure investment that your Government is making right now. Given that north Wales has received a significantly smaller proportion of your Government's infrastructure spending, and we have just seen a £52 million announcement in relation to Cardiff Airport, what proportion of the current financial year's infrastructure investment will be spent in north Wales?
- Weinidog, er y bydd i drefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer prosiectau seilwaith oblygiadau sylweddol o ran economi Cymru, mae busnesau yn fy etholaeth i'n arbennig yn pryderu am y buddsoddiad seilwaith y mae eich Llywodraeth yn ei wneud ar hyn o bryd. O ystyried bod cyfran sylweddol is o wariant seilwaith eich Llywodraeth wedi'i wario yn y gogledd, a'n bod newydd weld cyhoeddiad am £52 miliwn mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd, pa gyfran o fuddsoddiad seilwaith y fwyddyn ariannol gyfredol a gaiff ei gwario yn y gogledd?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The infrastructure priorities are in line with the Wales infrastructure investment plan. I have made allocations recently in terms of the A55, transport infrastructure and twenty-first century schools, as I saw when I visited Ysgol y Bont in Llangefni to see the impact of Welsh Government investment in north Wales.
- Mae'r blaenoriaethau seilwaith yn unol â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Gwneuthum ddyraniadau yn ddiweddar o ran yr A55, seilwaith trafnidiaeth ac ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, fel y gwelais pan ymwelais ag Ysgol y Bont yn Llangefni i weld effaith buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y gogledd.
- 13:33 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rydych wedi cyfeirio at gomisiwn Silk, Weinidog, ac un o'r pethau mae'r comisiwn wedi dweud yw y byddai pwerau benthyg y Cynulliad yn gallu cael eu rhyddhau trwy ddatganoli trethi llai i Gymru. Un o'r trethi llai hynny byddai'r doll ar deithwyr awyr. A ydych o blaid datganoli'r doll hwnnw i Gymru a chaniatáu i Lywodraeth Cymru i gefnogi Maes Awyr Caerdydd?
- You referred to the Silk commission, Minister, and one of the things that the commission has said is that the Assembly's borrowing powers could be released through the devolution of lesser taxes to Wales. One such tax would be air passenger duty. Are you in favour of devolving that duty to Wales and thereby allowing the Welsh Government to support Cardiff Airport?
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We made our position very clear in our response to the Silk commission last year. We fully accepted and welcomed all the recommendations of the Silk commission, including the call for long-haul air passenger duty. We now await the UK Government's response to that call.
- Nodwyd ein safbwynt yn glir iawn yn ein hymateb i Gomisiwn Silk y llynedd. Gwnaethom dderbyn a chroesawu holl argymhellion Comisiwn Silk yn llawn, gan gynnwys y cais am doll ar deithwyr awyr ar gyfer teithiau hir. Rydym yn aros yn awr am ymateb Llywodraeth y DU i'r cais hwnnw.

13:34	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, while discussions on borrowing powers are still ongoing, you will know that a number of English cities still retain significant advantages over Wales because they are able to utilise innovative forms of capital financing. What further work have you done in terms of building on the innovative capital finance that you have already announced to try to narrow that advantage?</p>	<p>Weinidog, er bod y trafodaethau ar bwerau benthyca yn mynd rhagddynt o hyd, byddwch yn ymwybodol bod nifer o ddinasoedd yn Lloegr mewn sefyllfa fanteisiol o hyd o gymharu â Chymru gan eu bod yn gallu defnyddio trefniadau ariannu cyfalaf arloesol. Pa waith pellach a wnaed gennych o ran ychwanegu at yr arian cyfalaf arloesol a gyhoeddwyd gennych eisoes i geisio lleihau'r fantais honno?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I am glad that you recognise, Peter Black, the innovative financing routes that we have taken, particularly through the local government borrowing initiative, which, of course, is delivering up to £170 million in terms of highway improvements. We are now applying that to twenty-first century schools. However, I also recognise the opportunities that we have in terms of looking at tax increment financing, for example. Of course, that was a recommendation from the Finance Committee that we responded to positively.</p>	<p>Rwy'n falch, Peter Black, eich bod yn cydnabod y llwybrau ariannu arloesol a ddilynwyd gennym, yn enwedig drwy'r fenter benthyca i lywodraeth leol, sydd, wrth gwrs, yn darparu hyd at £170 miliwn i wella priffyrdd. Rydym yn awr yn cymhwyso hynny i ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod y cyfleoedd sydd gennym o ran ystyried trefniadau ariannu cynyddrannol ym maes treth, er enghraifft. Wrth gwrs, roedd hwnnw'n un o argymhellion y Pwyllgor Cyllid a gafodd ymateb cadarnhaol gennym.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. You will know that it is almost a year now since English authorities were given access to tax increment financing, which enables local councils to leverage in private finance as well, in terms of these capital projects. What sort of timetable are we looking at before you reach conclusions on that issue?</p>	<p>Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod bron i flwyddyn bellach ers i awdurdodau Lloegr allu defnyddio trefniadau ariannu cynyddrannol ym maes treth, sy'n galluogi cynghorau lleol i ddefnyddio cyllid preifat hefyd, o ran y prosiectau cyfalaf hyn. Pryd y gallwn ddisgwyl ichi wneud penderfyniad ar y mater hwnnw?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I will certainly want to feed back to colleagues, and particularly to the Finance Committee, in terms of progress on those discussions. However, taking forward and implementing our local government borrowing initiative clearly puts Wales in the lead in terms of innovative finance routes.</p>	<p>Byddaf yn sicr yn awyddus i adrodd yn ôl i gyd-Aelodau, ac yn enwedig i'r Pwyllgor Cyllid, am gynnydd mewn perthynas â'r trafodaethau hynny. Fodd bynnag, mae'r ffaith ein bod wedi datblygu a gweithredu ein menter benthyca i lywodraeth leol yn amlwg yn golygu bod Cymru ar flaen y gad o ran llwybrau ariannu arloesol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cyllid i Gymru		Funding for Wales	
13:35	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion y Trysorlys ynglŷn â dyrannu cyllid i Gymru? OAQ(4)0242(FIN)</i></p>	<p><i>2. What recent discussions has the Minister had with the Treasury Ministers regarding the allocation of funding for Wales? OAQ(4)0242(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:36	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I have regular discussions with Treasury Ministers about the allocation of funding for Wales.</p>	<p>Caf drafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion y Trysorlys ynglŷn â dyrannu cyllid i Gymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:36 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The M4 relief road is vital if we are to tackle traffic congestion and bottlenecks in the Newport area, particularly at the Brynglas tunnels, and if we are to stimulate the south Wales economy. Will the Minister advise us on the discussions that she has had with UK Treasury Ministers to explore ways of financing and delivering this much-needed relief road, in view of the recent positive comments by the Chancellor of the Exchequer?
- Mae ffordd liniaru'r M4 yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd traffig yn ardal Casnewydd, yn enwedig yn nhwneli Brynglas, ac er mwyn rhoi hwb i economi'r de. A wnaiff y Gweinidog ein hysbysu am y trafodaethau a gafodd gyda Gweinidogion Trysorlys y DU i ystyried ffyrdd o ariannu a chyflawni'r ffordd liniaru hon y mae dirfawr ei hangen, o ystyried y sylwadau cadarnhaol a wnaeth Canghellor y Trysorlys yn ddiweddar?
- 13:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I welcome the Member's question on this point. Following my meetings with the Chief Secretary to the Treasury about the M4 in the last few months, I welcomed the Chancellor's recent supportive intervention over the Easter period, which promises an early resolution to the funding issue, including our ability to borrow.
- Croesawaf gwestiwn yr Aelod ar y pwynt hwn. Yn dilyn fy nghyfarfodydd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys am yr M4 yn ystod y misoedd diwethaf, roedd yn bleser gennyf glywed ymyriad cefnogol diweddar y Canghellor dros gyfnod y Pasg, sy'n addo penderfyniad cynnar mewn perthynas â'r broblem ariannu, gan gynnwys ein gallu i fenthycu.
- 13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Plaid Cymru spokesperson, Ieuan Wyn Jones.
- Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Ieuan Wyn Jones.
- 13:37 **Ieuan Wyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yr mis Mehefin eleni, bydd y Trysorlys yn cyhoeddi'r arian a fydd ar gael ar gyfer 2015-16. Pa gynlluniau sydd gennych chi fel Llywodraeth i ddelio â'r gostyngiad pellach a fydd bryd hynny mewn arian cyfalaf a refeniw?
- In June this year the Treasury will announce the funding available for 2015-16. What plans do you have as a Government to deal with the further reduction that there will be at that time in capital and revenue funding?
- 13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It was a challenging budget in March, which we now have to recognise in terms of our budgetary preparations. It is going to be difficult in terms of the expectations for our priorities in terms of the programme for Government. However, I will shortly be announcing the allocation, for example, of the capital that has been awarded as a result of the budget.
- Roedd yn gyllideb heriol ym mis Mawrth, a rhaid inni gydnabod hynny yn awr wrth baratoi ar gyfer y gyllideb. Bydd yn anodd o ran y disgwyliadau ar gyfer ein blaenoriaethau mewn perthynas â'r Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi'r dyraniad, er enghraifft, o ran y cyfalaf a ddyfarnwyd o ganlyniad i'r gyllideb.
- 13:37 **Ieuan Wyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yr hyn yr oeddwn yn ei awgrymu, Weinidog, oedd y bydd hyd yn oed yn waeth arnoch chi yn 2015-16 nag yw hi yn awr. I adael hynny am eiliad, onid yw'r sicrwydd o ostyngiad pellach yn y flwyddyn honno yn ei gwneud yn angenrheidiol, felly, eich bod yn cyhoeddi eich cynlluniau ar gyfer ffyrdd mwy arloesol ac amgen o godi arian cyfalaf? Er enghraifft, pryd fyddwch chi'n cyhoeddi eich cynlluniau manwl o ran gwella'r A465—yr ydych wedi dweud eich bod am wneud hynny—ac unrhyw brosiectau eraill sydd ar y gweill? Pryd fyddwn ni'n cael manylion am hynny, oherwydd bydd angen i bobl Cymru gael gwybod eich bod yn edrych ar y ffyrdd hyn yn sgîl y cwtogiad a ddaw o'r Trysorlys?
- What I was suggesting, Minister, was that things will be even worse for you in 2015-16 than they are now. Putting that to one side for the moment, does the certainty of a further reduction in that year not make it essential, therefore, that you announce your plans for more innovative and alternative ways of raising capital? For example, when will you publish detailed plans on improving the A465—you have stated that you want to do that—and any other projects that you have in the pipeline? When will we have the details on that, because the people of Wales will need to know that you are looking at these roads given the cuts imposed by the Treasury?

13:38

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ieuan Wyn Jones for that question. On his first point, we will not know our settlement for 2015-16 until late June, when the spending review is announced. However, last month's budget set the total spending envelope for that year. It is clear—and I agree with him—that the fiscal outlook will continue to be very difficult. Therefore, our innovative finance route is all the more important. I shall be coming back to the Assembly with a statement in May, in terms of consolidating our approach to innovative financing, particularly following through the A465 non-dividend model.

Trysorlys i Gymru

13:39

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynydd o ran creu Trysorlys i Gymru? OAQ(4)0237(FIN)

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefydlu swyddogaeth Trysorlys newydd i Gymru? OAQ(4)0247(FIN)

13:39

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that you have agreed to group questions 3 and 10, Presiding Officer. I am committed to ensuring that the Welsh Government has the capacity and the capability to make the best use of the new fiscal powers that we hope to acquire. Further detailed work on treasury functions must, however, await the UK Government's response to the Silk proposals, which are due this spring.

13:39

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. When will she be able to give a statement on what facilities she would expect if Silk part 1 is implemented and what work is being done now in order to get ready for Silk part 1, if it is implemented?

13:40

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, we are anticipating that the Silk recommendations will be implemented, in terms of the preparations that we are already undertaking. Clearly, functions that we are preparing for relate to tax policy; tax administration, including compliance and enforcement work; revenue forecasting; budgetary and investment strategy; cash management and in-year monitoring. We are already putting in place a number of roles in the department in order to make effective use of our resources, particularly at these times of budgetary reduction.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i Ieuan Wyn Jones am y cwestiwn hwnnw. O ran ei bwynt cyntaf, ni chawn wybod ein setliad ar gyfer 2015-16 tan ddiwedd mis Mehefin, pan gaiff yr adolygiad o wariant ei gyhoeddi. Fodd bynnag, pennodd cyllideb fis diwethaf gyfanswm y cwmpas gwariant ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'n amlwg—ac rwy'n cytuno ag ef—y bydd y rhagolygon ariannol yn parhau'n anodd iawn. Byddaf yn dychwelyd i'r Cynulliad gyda datganiad ym mis Mai, o ran atgyfnerthu ein hymagwedd at ariannu arloesol, yn enwedig rhoi model dim-difidendau'r A465 ar waith.

Welsh Treasury

3. Will the Minister provide a progress update on the creation of a Welsh Treasury? OAQ(4)0237(FIN)

10. Will the Minister make a statement on the establishment of a new Welsh Treasury function? OAQ(4)0247(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Deallaf eich bod wedi cytuno i grwpio cwestiynau 3 a 10, Lywydd. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau a'r gallu i wneud y defnydd gorau o'r pŵerau ariannol newydd rydym yn gobeithio eu cael. Fodd bynnag, rhaid aros am ymateb Llywodraeth y DU i gynigion Silk, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn, cyn cynnal gwaith manwl pellach ar swyddogaethau'r trysorlys.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Pryd y bydd yn gallu gwneud datganiad o ran pa gyfleusterau y byddai'n disgwyl eu gweld os caiff rhan 1 Silk ei rhoi ar waith a pha waith sy'n mynd rhagddo yn awr er mwyn paratoi ar gyfer rhan 1 Silk, os caiff ei rhoi ar waith?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth gwrs, rydym yn rhagweld y caiff argymhellion Silk eu rhoi ar waith, o ran y gwaith paratoi sy'n mynd rhagddo eisoes. Yn amlwg, mae'r swyddogaethau rydym yn paratoi ar eu cyfer yn ymwneud â pholisi treth; gweinyddu treth, gan gynnwys gwaith cydymffurfio a gorfodi; rhagfynegi refeniw; strategaeth gyllidebol a buddsoddi; rheoli arian parod a monitro yn ystod y flwyddyn. Rydym eisoes yn sefydlu nifer o rolau yn yr adran er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'n hadnoddau, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn lle caiff cyllidebau eu lleihau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
 Minister, when Silk part 1 is implemented, the Government will have responsibility for stamp duty. Could you outline the steps that your Government is taking in anticipation of the devolution of stamp duty to the National Assembly for Wales?
 Weinidog, pan gaiff rhan 1 Silk ei rhoi ar waith, bydd y Llywodraeth yn gyfrifol am y dreth stamp. A allech amlinellu'r camau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd er mwyn paratoi ar gyfer datganoli'r dreth stamp i Gynulliad Cenedlaethol Cymru?
- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I thank the leader of the Welsh Liberal Democrats for that question. I am absolutely clear that we have to apply our future devolved tax powers in a way that has sound economic rationale. This is in line with our top priority, as the Welsh Government, of supporting economic growth. I have arranged with the Confederation of British Industry Wales, for example, a meeting with housebuilders and associated organisations. We have our first meeting tomorrow, in Cardiff, and a number of housebuilders have responded. There will be a further meeting next week. It is about talking to them about aspirations and how we could develop land and property taxation in Wales in the future.
 Diolch i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am y cwestiwn hwnnw. Rwy'n gwbl glir bod yn rhaid inni ddefnyddio ein pwerau trethi datganoledig yn y dyfodol mewn ffordd sy'n seiliedig ar resymeg economaidd gadarn. Mae hyn yn unol â'n prif flaenoriaeth, fel Llywodraeth Cymru, sef cefnogi twf economaidd. Ar y cyd â Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru, er enghraifft, trefnais gyfarfod gydag adeiladwyr tai a chyrrff cysylltiedig. Cynhelir ein cyfarfod cyntaf yfory, yng Nghaerdydd, ac mae nifer o adeiladwyr tai wedi ymateb. Bydd cyfarfod arall wythnos nesaf. Rydym am drafod dyheadau gyda hwy a sut y gallem ddatblygu trethiant tir ac eiddo yng Nghymru yn y dyfodol.
- 13:41 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, as the role of a Welsh treasury would be complex and the functions that you refer to would arise through a new devolved competence, are you already speaking speculatively to the UK Government about how to best avoid an appearance in the Supreme Court in the future?
 Weinidog, gan y byddai rôl trysorlys Cymru yn gymhleth ac y byddai'r swyddogaethau rydych yn cyfeirio atynt yn deillio o gymhwysedd datganoledig newydd, a ydych eisoes yn achub y blaen ac yn trafod y ffordd orau i osgoi achos yn y Llys Goruchaf yn y dyfodol gyda Llywodraeth y DU?
- 13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Clearly, this is an issue where ongoing inter-governmental talks enable us to pave the way for these powers and responsibilities. I have also visited Scotland and met my colleague, John Swinney, the Minister for finance, to look at the ways in which they are implementing, under the Scotland Act 2012, powers that we would hope to acquire as a result of the Silk commission.
 Yn amlwg, mewn perthynas â'r mater hwn, mae trafodaethau rhynglywodraethol parhaus yn gyfle inni baratoi'r ffordd ar gyfer y pwerau a'r cyfrifoldebau hyn. Ymwelais hefyd â'r Alban a chyfarfûm â'm cyd-Weinidog, John Swinney, y Gweinidog cyllid, i weld sut y maent hwy, o dan Ddeddf yr Alban 2012, yn rhoi'r pwerau y byddem yn gobeithio eu caffael o ganlyniad i Gomisiwn Silk, ar waith.
- 13:42 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, this week we will get the gross domestic product figures for the UK, yet we will have to wait a year for a breakdown so that your Government and the Senedd can make an assessment of what is happening in Wales. This is a completely unsatisfactory arrangement if we are to try to assist the Welsh economy back to growth. In part 1 of the Silk commission, there is a call for more accurate forecasting of likely Welsh tax receipts as a consequence of any tax-varying powers in Wales, along with more up-to-date Welsh economic data. Has the Welsh Government made any progress in these areas?
 Weinidog, yr wythnos hon, cawn wybod y ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth ar gyfer y DU, ond bydd yn rhaid inni aros blwyddyn am ddadansoddiad fel y gall eich Llywodraeth a'r Senedd asesu'r sefyllfa yng Nghymru. Mae'r trefniant hwn yn gwbl anfodddhaol os ydym am geisio helpu economi Cymru i dyfu unwaith eto. Yn rhan 1 o Gomisiwn Silk, gelwir am ragfynegiadau mwy cywir o'r derbyniadau treth tebygol yng Nghymru, ynghyd â data economaidd mwy cyfredol ar Gymru. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw gynnydd yn y meysydd hyn?

- 13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, this is important. We will need more economic modelling and data to inform our policy if we have tax devolution. It is clear that we need to strengthen our information about certain aspects of the Welsh economy. We need to understand in detail the factors that impact on devolved tax revenues and be able to model the likely impact of changes to tax policy on resources and the wider economy. These, of course, are areas where we would be seeking more competence and power.
- Ydy, mae hyn yn bwysig. Bydd angen mwy o waith modelu economaidd a data i lywio ein polisi os caiff pwerau treth eu datganoli. Mae'n amlwg bod angen inni atgyfnerthu ein gwybodaeth am rai agweddau ar economi Cymru. Mae angen inni ddeall yn fanwl y ffactorau sy'n effeithio ar refeniw treth datganoledig a gallu modelu effaith debygol newidiadau i bolisi treth ar adnoddau a'r economi ehangach. Mae'r rhain, wrth gwrs, yn feysydd lle y byddem yn ceisio sicrhau mwy o gymhwysedd a phŵer.
- 13:43 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as you will know, the report of the Silk commission suggests that a new Welsh treasury should implement international best practice—something that I am sure that we would all agree with. To date, what analysis has the Government made of international treasuries and how has this research affected the implementation of a new Welsh treasury?
- Weinidog, fel y gwyddoch, mae adroddiad Comisiwn Silk yn awgrymu y dylai trysorlys newydd Cymru roi'r arferion rhyngwladol gorau ar waith—rhywbeth y byddai pob un ohonom yn cytuno ag ef rwy'n siŵr. Hyd yma, pa ddadansoddiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o drysorlysoedd rhyngwladol a sut y mae'r gwaith ymchwil hwn wedi effeithio ar y ffordd y caiff trysorlys newydd Cymru ei roi ar waith?
- 14:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, I am very pleased to have these positive questions on the Welsh treasury in terms of preparations for what we anticipate will be a positive response to the Silk commission from the UK Government. I have already mentioned work that is under way with colleagues in the Scottish Government, but I certainly want to go further than that in terms of international comparisons of best practice.
- Unwaith eto, rwy'n falch iawn clywed y cwestiynau cadarnhaol hyn ar drysorlys Cymru o ran y gwaith paratoi ar gyfer yr ymateb cadarnhaol a ragwelwn gan Lywodraeth y DU i Gomisiwn Silk. Rwyf eisoes wedi sôn am waith sy'n mynd rhagddo gyda chydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban, ond yn sicr, hoffwn ychwanegu at hynny o ran cymariaethau rhyngwladol o'r arferion gorau.
- 13:44 **Llyr Huws Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, there is cross-party support, of course, for the recommendations in the part 1 report of the Silk commission, at least here in the Assembly. A Welsh treasury function would obviously be a most welcome development. Silk also notes, of course, that the issue of fair funding has to be resolved. Could you explain whether the most recent agreement, reached last year between the Welsh and UK Governments, represents a resolution of the funding issue in your view or are you working towards a different or a better agreement on how the block grant is calculated?
- Weinidog, ceir cefnogaeth drawsbleidiol, wrth gwrs, i argymhellion adroddiad rhan 1 Comisiwn Silk, o leiaf yma yn y Cynulliad. Yn amlwg byddai penderfyniad i ddatblygu swyddogaeth trysorlys Cymru yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr. Noda Silk hefyd, wrth gwrs, fod yn rhaid datrys mater ariannu teg. A allech egluro pa un a yw'r cytundeb diweddaraf, y daeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU iddo'r llynedd, yn ateb i'r mater ariannu yn eich barn chi neu a ydych yn anelu at sicrhau cytundeb gwahanol neu well o ran sut y caiff y grant bloc ei gyfrifo?
- 13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to Llyr Huws Gruffydd for that question. We must not forget the agreement that we struck with the UK Government in October, when I, Danny Alexander, the Chief Secretary to the Treasury, and the Secretary of State for Wales welcomed the outcome of those inter-governmental talks, and particularly a commitment from the UK Government to a fair funding base and the need to look at it again at the start of each spending review in order to assess the impact of convergence and then take action accordingly. This is, again, something that I have discussed with the Chief Secretary to the Treasury and he has committed to this. The Silk commission also recognised that we need to ensure that we have that commitment on fair funding before progressing in terms of future tax devolution.
- Rwy'n ddiolchgar i Llyr Huws Gruffydd am y cwestiwn hwnnw. Rhaid inni gofio'r cytundeb y daethom iddo â Llywodraeth y DU ym mis Hydref, pan wnaeth Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a minnau groesawu canlyniad y trafodaethau rhynglywodraethol hynny, ac yn arbennig ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i sail ariannu teg a'r angen i'w ailystyried ar ddechrau pob adolygiad o wariant er mwyn asesu effaith cydgyfeiriant ac yna weithredu yn unol â hynny. Mae hyn, unwaith eto, yn rhywbeth rwyf wedi'i drafod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac mae wedi ymrwymo i hyn. Cydnabu Comisiwn Silk hefyd fod angen inni sicrhau'r ymrwymiad hwnnw ar ariannu teg cyn bwrw ati o ran datganoli treth yn y dyfodol.

13:45	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllideb cyffredinol i'r adran Diwylliant a Chwaraeon? OAQ(4)0238(FIN)</p>	<p>4. Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Culture and Sport department? OAQ(4)0238(FIN)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:46	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>In the final budget for 2013-14, £123.3 million relates to culture and sport.</p>	<p>Yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2013-14, mae £123.3 miliwn yn ymwneud â diwylliant a chwaraeon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:46	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I am grateful to the Minister for that answer. I have received representations from constituents of mine who are worried about the funding that cultural organisations, such as the Torch Theatre in my area, are currently receiving. You will be aware that such places are the cultural hub of an area and I cannot stress enough the importance and value of this theatre to the local community. Can you tell us, therefore, what you are doing, as Minister for Finance, to ensure that the Welsh Government is supporting smaller, artistic venues, such as the Torch Theatre in my constituency?</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Cefais sylwadau gan rai o'm hetholwyr sy'n pryderu am yr arian y mae sefydliadau diwylliannol, fel Theatr y Torch yn fy ardal i, yn ei gael ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol bod lleoedd o'r fath yn gweithredu fel canolbwynt diwylliannol ardal ac ni allaf bwysleisio pwysigrwydd a gwerth y theatr hon i'r gymuned leol ddigon. A allwch ddweud wrthym, felly, beth rydych yn ei wneud, fel y Gweinidog Cyllid, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi lleoliadau artistig llai, megis Theatr y Torch yn fy etholaeth i?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:46	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I welcome that question from Paul Davies; I know how valuable the Torch Theatre, which is in Milford Haven, I believe, is. The significance of the arts is clear in terms of priorities for the Welsh Government. I think that our budget for this year demonstrates our continued support, particularly for the Arts Council of Wales, which is itself a sponsor of venues of that kind.</p>	<p>Croesawaf y cwestiwn hwnnw gan Paul Davies; rwy'n ymwybodol o werth Theatr y Torch, sydd yn Aberdaugleddau, credaf. Mae arwyddocâd y celfyddydau yn amlwg o ran blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Credaf fod ein cyllideb eleni yn dangos ein cefnogaeth barhaus, yn enwedig i Gyngor Celfyddydau Cymru, sydd ynddo'i hun yn noddi lleoliadau o'r fath.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:47	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>National Museum Wales has had a stand-still budget imposed on it up to and including the year 2014-15. In reality, this is a cut, with job losses in future of very specialist individuals. How will you monitor the impact of this on our seven major museum sites?</p>	<p>Mae cyllideb Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi'i rhewi'n orfodol hyd at y flwyddyn 2014-15 a chan gynnwys y flwyddyn honno. Mewn gwirionedd, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad, gyda swyddi unigolion arbenigol iawn yn cael eu colli yn y dyfodol. Sut y byddwch yn monitro effaith hyn ar safleoedd ein saith prif amgueddfa?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:47	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I know that Lindsay Whittle acknowledges and welcomes our policy of free entry to museums, and we are committed to providing funding in this financial year of £24.6 million for National Museum Wales.</p>	<p>Gwn fod Lindsay Whittle yn cydnabod ac yn croesawu ein polisi o fynediad am ddim i amgueddfeydd, ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu cyllid o £24.6 miliwn i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Cyllid Cyfalaf</p>		<p>Capital Funding</p>	
13:48	<p>Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>5. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynglŷn â dyrannu cyllid cyfalaf? OAQ(4)0240(FIN)</p>	<p>5. Will the Minister outline what discussions she has had with the Minister for Economy, Science and Transport regarding the allocation of capital funding? OAQ(4)0240(FIN)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:48	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd gyda fy nghyd-aelodau o'r Cabinet er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi, a nodir yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.</p>	<p>I have regular discussions with Cabinet colleagues to support our investment priorities, set out in the Wales infrastructure investment plan.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>A fedrwch chi gadarnhau heddiw nad yw'n bolisi'r Llywodraeth hon i godi tollau pe câi arian gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wella'r M4?</p>	<p>Can you confirm today that it is not this Government's policy to charge tolls if UK Government money is provided to improve the M4?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I am very pleased to confirm that that is the case. There was a very unhelpful and erroneous press comment at Easter, unfortunately. The Chancellor agreed that it was erroneous. I want to be absolutely clear that the Welsh Government has no intention of putting an additional toll on the M4.</p>	<p>Mae'n bleser mawr gennyf gadarnhau bod hynny'n wir. Yn anffodus, gwnaed sylw anghywir, cwbl ddi-fudd yn y wasg adeg y Pasg. Cytunodd y Canghellor ei fod yn anghywir. Hoffwn fod yn gwbl glir nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwrriad codi toll ychwanegol ar yr M4.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call the opposition spokesperson, Paul Davies.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, as you know, the Welsh Government is receiving £161 million in capital allocations from the UK Government's budget, which is something that I acknowledge that you welcome. However, in your recent press release, you go on to say that the capital can only be used for loans or equity investment and that a proportion will have to be repaid. Can you tell us exactly how much will have to be repaid and what the detailed terms and conditions of these capital allocations are?</p>	<p>Weinidog, fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru yn cael £161 miliwn o ddyraniadau cyfalaf o gyllideb Llywodraeth y DU, sy'n rhywbeth rwy'n cydnabod a groesewir gennyh. Fodd bynnag, yn eich datganiad diweddar i'r wasg, dywedwch mai dim ond ar gyfer benthyciadau neu fuddsoddiad ecwiti y gellir defnyddio'r cyfalaf ac y bydd yn rhaid ad-dalu cyfran ohono. A allwch ddweud wrthym yn union faint y bydd yn rhaid ei ad-dalu a thelerau ac amodau manwl y dyraniadau cyfalaf hyn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes. Paul Davies will know that these are financial transaction consequentials and I believe that, in a response to him, I explained that, with the Minister for Housing and Regeneration, I am working through the impact of those financial transaction consequentials. Of course, that aligns with some of the normal capital consequentials that we are receiving. That will be clear in the statement on capital allocations that I will be making in the next couple of weeks.</p>	<p>Gallaf. Bydd Paul Davies yn ymwybodol mai symiau canlyniadol trafodion ariannol yw'r dyraniadau hyn a chredaf fy mod wedi egluro, mewn ymateb iddo, fy mod wrthi, gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio, yn ystyried effaith y symiau canlyniadol hynny. Wrth gwrs, mae hynny'n cydfynd â rhai o'r symiau canlyniadol cyfalaf arferol rydym yn eu cael. Nodir hynny'n glir yn y datganiad ar ddyraniadau cyfalaf y byddaf yn ei wneud yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:50	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>I am grateful to the Minister for that answer. You mentioned that you will be announcing the projects that will benefit from the £161 million in capital allocations in the next few weeks. Can you tell us exactly when will you be making that statement? Can you also give us an indication of what criteria will be used to determine what projects will benefit from the £161 million in capital allocations?</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Soniasoch y byddwch yn cyhoeddi'r prosiectau a fydd yn elwa ar y £161 miliwn mewn dyraniadau cyfalaf yn ystod ychydig wythnosau nesaf. A allwch ddweud wrthym yn union pryd y byddwch yn gwneud y datganiad hwnnw? A allwch hefyd roi syniad o pa feini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa brosiectau fydd yn elwa ar y £161 miliwn mewn dyraniadau cyfalaf?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:50	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I will be making an oral statement on Tuesday 7 May and I believe that is already—or will be—in the business statement. I will be allocating that finance and, in terms of the priorities, it is extremely difficult, because of the cut to our capital programme by the UK Government. However, I will be allocating that funding in relation to our investment priorities—and I think that this is what Paul Davies wants to hear—in the Wales infrastructure investment plan.</p>	<p>Byddaf yn gwneud datganiad llafar ddydd Mawrth 7 Mai a chredaf fod hynny eisoes—neu fe fydd—yn y datganiad busnes. Byddaf yn dyrannu'r arian hwnnw ac, o ran y blaenoriaethau, mae'n anodd iawn, gan fod Llywodraeth y DU wedi lleihau ein rhaglen cyfalaf. Fodd bynnag, byddaf yn dyrannu'r arian hwnnw mewn perthynas â'n blaenoriaethau buddsoddi—a chredaf mai dyna y mae Paul Davies am ei glywed—yng nghynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, the new Wales and Borders franchise is fast approaching and, with the news of electrification, there is a real opportunity—for south Wales in particular, but for Wales in general—to achieve major improvements in our rail travel. Will the Welsh Government consider acting as a financial guarantor to purchase new rolling stock for the new network so that we do not have to rely on leasing older rolling stock in future, which may not have the capacity to carry people and their bicycles around our railway network?</p>	<p>Weinidog, mae masnachfaint newydd Cymru a'r Gororau yn prysur agosáu a, chyda'r sôn am drydaneiddio, mae cyfle go iawn—i dde Cymru yn arbennig, ond i Gymru yn gyffredinol—i sicrhau gwelliannau sylweddol i'n rheilffyrdd. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu fel gwarantwr ariannol i brynu cerbydau newydd ar gyfer y rhwydwaith newydd fel na fydd yn rhaid inni ddibynnu ar brydlesu cerbydau hŷn yn y dyfodol, na fydd ganddynt o bosibl y gallu i gludo pobl a'u beiciau o amgylch ein rhwydwaith rheilffyrdd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>That is a question for the Minister for Economy, Science and Transport.</p>	<p>Cwestiwn i'r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Maes Awyr Caerdydd</p>		<p>Cardiff Airport</p>	
13:51	<p>Angela Burns Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith ar reoli adnoddau Llywodraeth Cymru ar ôl i Lywodraeth Cymru brynu Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)0243(FIN)</i></p>	<p><i>6. What assessment has the Minister made of the impact on the management of Welsh Government resources resulting from the Welsh Government's purchase of Cardiff Airport? OAQ(4)0243(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>We determined that, for the airport to be successful in a highly competitive industry, it would be managed at arm's length from Government on a commercial basis. That is why we established a holding company to facilitate the purchase and manage our interests.</p>	<p>Gwnaethom benderfynu, er mwyn i'r maes awyr fod yn llwyddiannus mewn diwydiant hynod gystadleuol, y câi ei reoli hyd braich oddi wrth y Llywodraeth ar sail fasnachol. Dyna pam rydym wedi sefydlu cwmni dal i hwyluso'r broses brynu a rheoli ein buddiannau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Angela Burns Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister, because I am very curious: you said earlier in reply to Ieuan Wyn Jones, I believe, that the fiscal outlook is very difficult. Given that you have spent £52 million on an airport—almost double the price that aviation experts appear to think that it was worth—what assumptions have you made for the protection of your capital streams over the coming years? In order to reverse the declining number of people coming in and out of Cardiff Airport, you are obviously going to have to improve road and rail links to Cardiff Airport. Even to do something simple, such as allowing the runway to be expanded to accommodate all these American jets that apparently going to come in, will cost something in the order of £220 million with a new terminal building. Where are you going to find that money, or what assumptions have you made as to where you will be able to find that money in the future?</p>	<p>Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, gan fy mod yn chwilfrydig iawn: dywedasoch yn gynharach wrth ymateb i Ieuan Wyn Jones, credaf, fod y rhagolygon ariannol yn anodd iawn. Gan eich bod wedi gwario £52 miliwn ar faes awyr—bron ddwywaith y pris y mae arbenigwyr hedfan o'r farn ei fod werth—pa ragdybiaethau a wnaed gennych ar gyfer diogelu eich ffrydiau cyfalaf dros y blynyddoedd i ddod? Er mwyn gwrthdroi'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n defnyddio Maes Awyr Caerdydd, mae'n amlwg y bydd yn rhaid ichi wella cysylltiadau ffordd a rheilffordd i Faes Awyr Caerdydd. Bydd hyd yn oed gwneud rhywbeth syml, fel caniatáu i'r rhedfa gael ei hehangu er mwyn sicrhau bod digon o le i'r holl jetiau Americanaidd hyn a fydd, yn ôl pob tebyg, yn glanio, yn costio tua £220 miliwn gydag adeilad terminws newydd. O ble y daw'r arian hwnnw, neu pa ragdybiaethau a wnaed gennych o ran o ble y dewch o hyd i'r arian hwnnw yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:53

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that the Member has read the important report that the Minister for the economy made available—the report from York Aviation, Arup and M&G Barry Consulting. If you read that report, you will see how justified we were in making that investment—and it is an investment—in purchasing Cardiff Airport. That is about developing a dynamic piece of economic infrastructure for Wales and it gives us an opportunity to develop a vital facility, recognising that purchasing the airport provides the opportunity to safeguard and generate over 3,000 jobs within the Welsh economy. We now await the arm’s-length company with its commercial expertise to take this forward, as the Minister for the economy has already described in answer to questions on her statement.

Rwy'n siŵr bod yr Aelod wedi darllen yr adroddiad pwysig a gyflwynwyd gan Weinidog yr economi—sef yr adroddiad gan York Aviation, Arup ac M&G Barry Consulting. Os darllenwch yr adroddiad hwnnw, fe welwch yn sicr bod cyfiawnhad dros y buddsoddiad hwnnw—a buddsoddiad ydyw—i brynu Maes Awyr Caerdydd. Mae'n ymwneud â datblygu darn o seilwaith economaidd dynamig i Gymru ac mae'n rhoi cyfle inni ddatblygu cyfleuster hanfodol, gan gydnabod bod prynu'r maes awyr yn rhoi cyfle inni ddiogelu a chreu dros 3,000 o swyddi o fewn economi Cymru. Rydym yn awr yn aros i'r cwmni hyd braich â'i arbenigedd masnachol fwrw ati â'r gwaith, fel y disgrifiodd Gweinidog yr economi eisoes wrth ymateb i gwestiynau ar ei datganiad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

O ble ddaeth yr arian cyfalaf i brynu'r maes awyr—o adnoddau canolog y Llywodraeth neu adran yr economi? Os bydd buddsoddi pellach yn y maes awyr o adnoddau cyfalaf, a fydd y cwmni hyd braich hwn yn gyfrifol am godi'r arian neu a fydd y Llywodraeth yn ariannu'r math hwnnw o ddatblygiad?

From where did that capital funding come to acquire the airport? Was it from the Government's central fund or was it from the economic development department? If there is further capital investment in the airport, will this arm's-length company be responsible for raising those funds, or will the Government fund it?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is important to recognise that the £50 million that remained in our capital reserves, as I detailed in the second supplementary budget for 2012-13, enabled us to make that purchase. In fact, Welsh Ministers authorised the use of these resources last year, 2012-13, under section 128 of the Government of Wales Act 2006, and a report setting out the detail of this was laid on 3 April. It came out of our reserves for 2012-13, and this was used as a result of the flexibility that we have in terms of our capital departmental expenditure line. It is important now that the Minister for economy is able to receive reports on the impact of that in terms of the operations of this arm's-length body managing the airport.

Mae'n bwysig cydnabod mai'r £50 miliwn a oedd yn weddill yn ein cronfeydd cyfalaf wrth gefn, fel y nodwyd gennyf yn yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2012-13, a'n galluogodd i brynu'r maes awyr. Yn wir, cafwyd awdurdod gan Weinidogion Cymru i ddefnyddio'r adnoddau hyn y llynedd, sef 2012-13, o dan adran 128 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a chyflwynwyd adroddiad yn nodi manylion hyn ar 3 Ebrill. Daeth allan o'n cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2012-13, ac fe'i defnyddiwyd o ganlyniad i'r hyblygrwydd sydd gennym o ran ein llinell gwariant cyfalaf adrannol. Mae'n bwysig yn awr y gall Gweinidog yr economi gael adroddiadau ar effaith hynny o ran gweithrediadau'r corff hyd braich hwn sy'n rheoli'r maes awyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Dyraniad Cyffredinol i'w Bortffolio

Overall Allocation to his Portfolio

13:55

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ynghylch y dyraniad cyffredinol i'w bortffolio? OAQ(4)0249(FIN)

7. What recent discussions has the Minister had with the Minister for Natural Resources and Food regarding the overall allocation to his portfolio? OAQ(4)0249(FIN)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllideb cyffredinol i'r portffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd? OAQ(4)0251(FIN)

11. Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Natural Resources and Food portfolio? OAQ(4)0251(FIN)

13:56

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I met the Minister for Natural Resources and Food recently to discuss financial matters relating to his portfolio. A budget of £327 million for the environment and sustainable development portfolio is set out in the budget, and I will publish information about the budget for natural resources and food in supplementary budgets.

Cyfarfûm â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn ddiweddar i drafod materion ariannol yn ymwneud â'i bortffolio. Nodir cyllideb o £327 miliwn ar gyfer portffolio'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn y gyllideb, a byddaf yn cyhoeddi gwybodaeth am y gyllideb ar gyfer cyfoeth naturiol a bwyd mewn cyllidebau atodol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:56 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to hear that, Minister. One of the concerns that was raised in the marine report that was presented by the Environment and Sustainability Committee to the Assembly last week concerned budget allocations to the marine environment—in particular because there is so much that remains to be done in relation to the marine environment that the existing budget allocation is unable to meet those demands. I wondered whether you had had specific discussions with the Minister on the marine environment in particular.
- Rwy'n ddiolchgar clywed hynny, Weinidog. Roedd un o'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad morol a gyflwynwyd gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r Cynulliad yr wythnos diwethaf yn ymwneud â dyraniadau cyllideb i'r amgylchedd morol—yn arbennig gan fod cymaint i'w wneud o hyd o ran yr amgylchedd morol na all y dyraniad cyllidebol presennol fodloni'r gofynion hynny. Tybed a ydych wedi cael trafodaethau penodol gyda'r Gweinidog ar yr amgylchedd morol yn arbennig.
- 13:57 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have not had specific discussions on the marine environment. Of course, I understand and I have heard discussions in this Chamber and questions raised, but the Minister is taking the opportunity to bring together work on marine policy and fisheries, and that will improve delivery. It will make sure that we make best sustainable use of our marine resources.
- Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol ar yr amgylchedd morol. Wrth gwrs, rwy'n deall ac rwyf wedi clywed trafodaethau yn y Siambr hon a chwestiynau'n cael eu codi, ond mae'r Gweinidog yn manteisio ar y cyfle i ddod â gwaith ar bolisi morol a physgodfeydd ynghyd, a bydd hynny'n gwella'r broses gyflenwi. Bydd yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd cynaliadwy gorau o'n hadnoddau morol.
- 13:57 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, concerns are still being highlighted regarding the enforcement of the equine passport scheme in Wales. Our findings show that many local authorities simply do not have the reserves in place to be able to fulfil their obligations. Given the recent and continuing horsemeat scandal, how have you stepped up your procedures, and what additional funding have you provided to local authorities in order for them to carry out their duties?
- Weinidog, mae pryderon yn cael eu hamlygu o hyd o ran gorfodi'r cynllun pasbortau ceffylau yng Nghymru. Dengys ein canfyddiadau nad oes gan lawer o awdurdodau lleol ddigon o arian i allu cyflawni eu rhwymedigaethau. O ystyried y sgandal diweddar a pharhaus am gig ceffylau, sut rydych wedi gwella eich gweithdrefnau, a pha arian ychwanegol rydych wedi'i roi i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau?
- 13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, this is the responsibility of local authorities, but the Minister has taken this matter extremely seriously, and of course has come to this Chamber with a statement on this matter. I know that he will be keeping it under close scrutiny and monitoring.
- Yn amlwg, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw hyn, ond mae'r Gweinidog wir wedi cymryd y mater hwn o ddifrif, ac wrth gwrs wedi gwneud datganiad ar y mater hwn i'r Siambr hon. Gwn y bydd yn parhau i graffu ar y mater a'i fonitro'n ofalus.
- 13:58 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio yn barod at sylwadau'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn y ddatl a gawsom ar yr adroddiad ar yr ymchwil i bolisi morol, sef ei fwrriad o gyfuno pysgodfeydd a pholisi morol. Mae hwn wedi cael ei groesawu ar draws y Siambr ac, wrth gwrs, tu fas gan y rhanddeiliaid. Ond rwyf yn gofyn iddi a oes digon o gyllid i sicrhau bod cryfhau gweithgaredd polisi. Bydd hynny'n angenrheidiol os yw'r isadran newydd hon i weithio yn effeithiol.
- The Minister has already referred to the comments made by the Minister for Natural Resources and Food in the debate that we had on marine policy, that is, that it is his intention to combine fisheries policy and marine policy. That has been welcomed across this Chamber and outwith it by the stakeholders. I would, however, ask her whether there is adequate funding to ensure that policy activity can be made more robust. That is essential if this new subdivision is to work effectively.
- 13:59 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I know, from listening to the debate on 17 April, that the Minister was very clear in his reply. He recognised and acknowledged the fundamental point that your committee has made about the relative prioritisation of marine policy under successive Welsh Governments. He also expressed the wish to take marine policy forward in that serious way to acknowledge its importance, not only to the people and communities of the coast, but to the whole country, and also recognised domestic and international responsibilities.
- Gwn, o wrando ar y ddatl ar 17 Ebrill, fod y Gweinidog wedi rhoi ymateb clir iawn. Cydnabu'r pwynt sylfaenol a wnaeth eich pwyllgor am y flaenoriaeth gymharol a roddwyd i bolisi morol o dan Lywodraethau Cymru olynol. Mynegodd hefyd ei ddymuniad i ddatblygu polisi morol yn y ffordd ddifrifol honno er mwyn cydnabod ei bwysigrwydd, nid yn unig i bobl a chymunedau'r arfordir, ond i'r wlad gyfan, a chydabu hefyd gyfrifoldebau domestig a rhyngwladol.

13:59

William Powell [Bywgraffiad Biography](#)

The recent severe weather and heavy snowfalls have once again highlighted the threat posed by invasive species, such as rhododendron, across Wales. Given the depth of snow cover, livestock have often turned to that plant in lieu of grass, and, thus, facing the danger of being poisoned. In response, Snowdonia National Park Authority has adopted a strategy, working with Natural Resources Wales, the National Trust and Gwynedd County Council to help to eradicate the plant, covering a cost of some £10 million in the next three years. Given this admirable initiative, would you please outline what level of financial support, and other practical support, the Welsh Government would be willing to commit to sustain this project and the valuable benefits it could bring for the farming community?

Mae'r tywydd garw a'r eira trwm a gawsom yn ddiweddar wedi amlygu unwaith eto y bygythiad gan rywogaethau ymledol, fel rhododendron, ledled Cymru. O ystyried dyfnder y gorchudd eira, mae da byw yn aml wedi troi at y planhigyn hwnnw yn hytrach na glaswellt, a thrwy hynny, wynebu'r perygl o gael eu gwenwyno. Mewn ymateb, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi mabwysiadu strategaeth, gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Sir Gwynedd er mwyn helpu i gael gwared ar y planhigyn, ar gost o tua £10 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Gan ystyried y fenter glodwiw hon, a fyddech cystal ag amlinellu pa lefel o gymorth ariannol, a chymorth ymarferol arall, y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon ei roi i ymrwymo i gynnal y prosiect hwn a'r buddiannau gwerthfawr cysylltiedig i'r gymuned ffermio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:00

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

The Minister issued a written statement yesterday, giving an update on his response to the severe weather. You have identified one point as a result of that, and I am sure that he will welcome the action taken by Snowdonia National Park Authority and Gwynedd County Council, in terms of rhododendron and the future of that beautiful, but, perhaps, difficult, species. However, we should await the outcome of that initiative.

Cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ddoe, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei ymateb i'r tywydd garw. Nodwyd un pwynt gennych o ganlyniad i hynny, ac rwy'n siŵr y bydd yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Sir Gwynedd, o ran rhododendron a dyfodol y rhywogaeth hardd, ond, efallai, anodd, honno. Fodd bynnag, dylem aros i gael gweld canlyniad y fenter honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

National Procurement Service

14:01

Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y cynnydd o ran Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i Gymru? OAQ(4)0250(FIN)

8. Will the Minister update Members on the progress of the National Procurement Service for Wales? OAQ(4)0250(FIN)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:01

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

On 12 March, I announced that the Welsh Government will fund and host the national procurement service for Wales. Implementation plans are progressing well, and I will provide more information in my oral statement on 7 May.

Ar 12 Mawrth, cyhoeddais y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu ac yn cynnal y gwasanaeth caffael cenedlaethol i Gymru. Mae'r cynlluniau gweithredu yn mynd rhagddynt yn dda, a rhoddaf ragor o wybodaeth yn fy natganiad llafar ar 7 Mai.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:01

Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. Obviously, the more organisations we have signing up, the greater the potential savings. I understand that the response initially has been good. Given what you have just said, I suppose that you are not able to give indications of how many public bodies will be participating in November. However, are you happy that all areas of the public sector are engaging, or will be engaged, with the new service?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weiniidog. Yn amlwg, po fwyaf o sefydliadau fydd yn cofrestru, y mwyaf fydd yr arbedion posibl. Deallaf fod yr ymateb cychwynnol yn galonogol. O ystyried yr hyn rydych newydd ei ddweud, mae'n debyg na allwch roi syniad o faint o gyrff cyhoeddus fydd yn cymryd rhan ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, a ydych yn fodlon bod pob maes o'r sector cyhoeddus yn ymgysylltu â'r gwasanaeth newydd, neu y byddant yn gwneud hynny?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Joyce Watson for that question. I am happy to give the information that 75 public bodies have signed up to commit to use the national procurement service, and that includes the Welsh Government, all local authorities and all health boards in Wales, universities, colleges and fire authorities. Three of the four police authorities, Welsh Government sponsored bodies, a number of housing associations and national parks have also asked to join.
- Diolch i Joyce Watson am y cwestiwn hwnnw. Mae'n bleser gennyf ddatgan bod 75 o gyrff cyhoeddus wedi cofrestru i ymrwymo i ddefnyddio'r gwasanaeth caffael cenedlaethol, ac mae hynny'n cynnwys Llywodraeth Cymru, pob awdurdod lleol a phob bwrdd iechyd yng Nghymru, prifysgolion, colegau ac awdurdodau tân. Mae tri o'r pedwar awdurdod heddlu, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, nifer o gymdeithasau tai a pharciau cenedlaethol hefyd wedi gofyn am gael ymuno.
- 14:02 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The McClelland report has shown differing results for procurement contracts awarded to local and small businesses across local authorities in Wales. Indeed, in my local authority, avoiding technical expertise at the tendering stage has seen massive overspends and delayed projects. Across north Wales, there is only one procurement officer for £17 million of procurement spend. In light of the UK Government's provision of £227 million for capital spend, how confident are you that the guidance that you have provided is adhered to and that our local authorities have the relevant technical expertise and sufficient procurement officers in place in order to avoid costly waste of taxpayers' money, but at the same time allowing smaller and local companies the opportunity to bid for this work?
- Mae adroddiad McClelland wedi dangos canlyniadau gwahanol ar gyfer contractau caffael a ddyfarnwyd i fusnesau lleol a bach ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn wir, yn fy awdurdod lleol, mae osgoi arbenigedd technegol yn ystod y cam tendro wedi arwain at achosion o orwariant enfawr a phrosiectau yn cael eu hoedi. Ledled y gogledd, dim ond un swyddog caffael sydd ar gyfer £17 miliwn o wariant caffael. O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi rhoi £227 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf, pa mor hyderus ydych chi bod y canllawiau a roddwyd gennych yn cael eu dilyn a bod ein hawdurdodau lleol yn meddu ar yr arbenigedd technegol perthnasol a bod digon o swyddogion caffael mewn swyddi i osgoi enghreifftiau costus o wastraffu arian trethdalwyr, ond gan roi cyfle i gwmnïau llai a chwmnïau lleol gynnig am y gwaith hwn ar yr un pryd?
- 14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I was pleased to spend time in north Wales before Easter, meeting north Wales suppliers. Progress is clearly being made. I met Chris Wynne, of Wynne Construction, on site. In fact, I went to two of his schemes, which are, of course, funded by different local authorities in north Wales. I saw how having won the contract he is also working with the local supply chain, and giving apprentice employment opportunities. I met the apprentices on site. It is clear that the McClelland report has given a steer and, as a result, my policy procurement statement includes the Home-grown Talent training scheme for procurement professionals, not just in local authorities, but in the health service, further education and higher education as well.
- Roedd yn bleser gennyf dreulio amser yn y gogledd cyn y Pasg yn cyfarfod â chyflenwyr o'r ardal. Mae'n amlwg bod cynnydd yn cael ei wneud. Cyfarfûm â Chris Wynne, o Wynne Construction, ar un o'i safleoedd. Yn wir, euthum i ddau o'i gynlluniau a gaiff, wrth gwrs, eu hariannu gan wahanol awdurdodau lleol yn y gogledd. Gwelais, ar ôl ennill y contract, sut y mae hefyd yn gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi leol, ac yn cynnig swyddi i brentisiaid. Cyfarfûm â'r prentisiaid ar y safle. Mae'n amlwg bod adroddiad McClelland wedi rhoi arweiniad ac, o ganlyniad, mae fy natganiad caffael polisi yn cynnwys y cynllun hyfforddi Defnyddio Doniau Cymru i weithwyr caffael proffesiynol, nid dim ond mewn awdurdodau lleol, ond yn y gwasanaeth iechyd, addysg bellach ac addysg uwch hefyd.
- 14:04 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Bearing in mind the answers that you have just given, has your Government reconsidered its position on setting aspirational targets for the number and value of contracts awarded to Welsh businesses by our public sector?
- Gan gofio'r atebion rydych newydd eu rhoi, a yw eich Llywodraeth wedi ailystyried ei safbwynt ar bennu targedau uchelgeisiol o ran nifer a gwerth y contractau a ddyfarnir gan ein sector cyhoeddus i fusnesau yng Nghymru?

14:04	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>It is clear that our expectation is that local authorities should comply with our Wales procurement policy statement. Indeed, you have seen the good response that we have had to the national procurement policy scheme, which I will say more about on 7 May. We cannot set targets, but we want to improve the spend with Wales-based companies. However, we have a local government compact, which all local authorities have signed up to in terms of delivering community benefits on any contracts of £2 million or more. That does deliver in terms of local supply chain opportunities, local apprenticeships and training opportunities for disadvantaged people.</p>	<p>Mae'n amlwg ein bod yn disgwyl i awdurdodau lleol gydymffurfio â datganiad polisi caffael Cymru. Yn wir, gwelsoch yr ymateb da a gawsom i'r cynllun polisi caffael cenedlaethol, y byddaf yn sôn mwy amdano ar 7 Mai. Ni allwn bennu targedau, ond rydym am wella lefelau gwariant gyda chwmnïau wedi'u lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gennym gompact llywodraeth leol, y mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo iddo o ran sicrhau buddiannau cymunedol ar unrhyw gontractau gwerth £2 filiwn neu fwy. Mae hynny'n llwyddiant o ran sicrhau cyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi leol, prentisiaethau lleol a chyfleoedd hyfforddi i bobl ddifreintiedig.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Y Sefyllfa Gyllidebol				
14:05	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	<p><i>9. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chyd-Weinidogion yn y Cabinet ynghylch y sefyllfa gyllidebol ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer eu hadrannau? OAQ(4)0246(FIN)</i></p>	<p><i>9. What discussions has the Minister had with her Cabinet colleagues regarding end-year budgetary positions for their departments? OAQ(4)0246(FIN)</i></p>	Senedd.tv Fideo Video
14:06	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>I have regular discussions with Cabinet colleagues throughout the year to discuss general budget matters.</p>	<p>Caf drafodaethau rheolaidd gyda'm cyd-Weinidogion yn y Cabinet drwy gydol y flwyddyn i drafod materion cyffredinol sy'n ymwneud â'r gyllideb.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:06	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	<p>As far as the end-of-year position is concerned, we have been assured on more than one occasion regarding the outturn on the local health boards. As the Minister for Finance, do you have any oversight regarding any internal brokerage arrangements between health boards at the year end?</p>	<p>O ran y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, rydym wedi cael sicrwydd fwy nag unwaith o ran yr alldro ar y byrddau iechyd lleol. Fel y Gweinidog Cyllid, a oes gennych unrhyw oruchwyliaeth mewn perthynas ag unrhyw drefniadau broceru mewnol rhwng byrddau iechyd lleol ar ddiwedd y flwyddyn?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:06	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	<p>Within the current NHS finance regime, there is scope, as you acknowledge, to manage brokerage between local health boards after the end of the financial year. These adjustments are now being finalised for the last financial year. They will be reported as appropriate during the process for completion of the 2012-13 NHS financial accounts.</p>	<p>O fewn cyfundrefn ariannol bresennol y GIG, mae cyfleoedd, fel y cydnabyddir gennych, i reoli trefniadau broceru rhwng byrddau iechyd lleol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r addasiadau hyn bellach yn cael eu cwblhau ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Cyflwynir adroddiad arnynt fel y bo'n briodol yn ystod y broses o gwblhau cyfrifon ariannol y GIG ar gyfer 2012-13.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:06	Darren Millar Bywgraffiad Biography	<p>On 27 March, Minister, the Welsh Government announced that it had found £52 million in unplanned expenditure to purchase Cardiff Airport. Two days later, you were complaining and whingeing that there was insufficient resource for you to fund public services in the current financial year. Given that you are able to find £52 million in your back pocket, will you now look to see whether there is any more cash in there for our national health service?</p>	<p>Ar 27 Mawrth, Weinidog, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi dod o hyd i £52 miliwn mewn gwariant heb ei gynllunio i brynu Maes Awyr Caerdydd. Ddeuddydd yn ddiweddarach, roeddech yn cwyno ac yn griddfan nad oedd digon o adnoddau ichi ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. O gofio eich bod wedi gallu dod o hyd i £52 miliwn yn eich poced gefn, a fydddechystal ag edrych yn awr i weld a oes rhagor o arian yno i'w fuddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd gwladol?</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:07

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have faced a 40% cut to our capital budget as a result of your UK Government's failing economic policy. It is very interesting now, is it not, Darren Millar, that the chief economist to the International Monetary Fund, Olivier Blanchard, said only two weeks ago that the Chancellor should consider an adjustment to his deficit-reduction plan? He said that it was playing with fire to squeeze the economy further. This Welsh Government believes in taking responsibility for boosting the economy and for protecting vulnerable people against your welfare reform cuts. The people out there whom I meet, including business and local people, believe that purchasing the airport to enable us to have an international airport that can boost the economy was a good decision of the Welsh Labour Government.

Rydym wedi wynebu gostyngiad o 40% yn ein cyllideb gyfalaf o ganlyniad i bolisi economaidd diffygiol eich cyd-Aelodau yn Llywodraeth y DU. Mae'n ddi-ddorol iawn yn awr, onid yw, Darren Millar, bod prif economegydd y Gronfa Ariannol Ryngwladol, Olivier Blanchard, wedi datgan ddim ond pythefnos yn ôl y dylai'r Canghellor ystyried addasu ei gynllun ar gyfer lleihau diffygion? Dywedodd mai chwarae â tân fyddai rhoi mwy o bwysau ar yr economi. Cred Llywodraeth Cymru y dylai gymryd cyfrifoldeb dros hybu'r economi a diogelu pobl sy'n agored i niwed rhag eich toriadau diwygio lles. Cred y bobl ar lawr gwlad y dof ar eu traws, gan gynnwys busnesau a phobl leol, fod Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwneud penderfyniad da wrth brynu'r maes awyr er mwyn sicrhau bod gennym faes awyr rhyngwladol a all roi hwb i'r economi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ychydig wythnosau yn ôl, a oeddech chi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodlon bod y gyllideb ar gyfer y GIG yn ddigonol i gynnal GIG diogel a chynaliadwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Yn yr un modd, a ydych yn hyderus bod y gyllideb ar gyfer y GIG eleni, yn y flwyddyn ariannol hon, yn ddigonol?

Minister, at the end of the financial year a few weeks ago, were you and the Minister for Health and Social Services content that the budget for the NHS was adequate to maintain a safe and sustainable NHS over the last year? Likewise, are you confident that the budget for the NHS this year, in this financial year, is adequate?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I worked closely with the former Minister for health as I am now working closely with the current Minister for health in recognition that the priority of the Welsh Government is to safeguard, protect and improve the health of the people of Wales. Therefore, that mid-term review was important in terms of the allocation of that additional £82 million in December. Indeed, that helped organisations to meet their financial targets. I would also like to say how much I welcome—and I know that the Minister for health also welcomes it—the report from the Public Accounts Committee, which was very constructive. Once again, I would like to thank the Chair of the Public Accounts Committee for a very constructive report on the challenges in terms of managing the health budgets for the health boards.

Gweithiais yn agos â'r cyn Weinidog iechyd fel yr wyf bellach yn gweithio'n agos â'r Gweinidog Iechyd presennol gan gydnabod mai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw diogelu, gwarchod a gwella iechyd pobl Cymru. Felly, roedd yr adolygiad canol tymor hwnnw yn bwysig o ran dyrannu'r £82 miliwn ychwanegol hwnnw ym mis Rhagfyr. Yn wir, helpodd hynny sefydliadau i gyrraedd eu targedau ariannol. Hoffwn hefyd ddatgan fy mod yn croesawu—a gwn fod y Gweinidog iechyd yn ei groesawu hefyd—adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a oedd yn adeiladol iawn. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am adroddiad adeiladol iawn ar yr heriau sy'n gysylltiedig â rheoli'r cyllidebau iechyd ar gyfer y byrddau iechyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyllid Ychwanegol

Additional Funding

14:10

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei hystyriaethau o ran darparu cyllid ychwanegol i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0245(FIN)

12. Will the Minister outline her considerations for providing additional funding for the Health and Social Services portfolio? OAQ(4)0245(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have regular conversations with the Minister for Health and Social Services when we cover a range of issues relating to health and social services.

Caf sgysrsiau rheolaidd gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am most grateful to the Minister for her answer. Will the Minister be able to demonstrate that social care criteria and not budget considerations will be reflected in any announcements of measures to cut waiting times and to tackle bedblocking?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ei hateb. A all y Gweinidog ddangos mai meini prawf gofal cymdeithasol yn hytrach nag ystyriaethau cyllidebol a gaiff eu hadlewyrchu mewn unrhyw gyhoeddiadau o fesurau i leihau amseroedd aros a mynd i'r afael ag achosion o flocio gwelyau?

14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister's statement yesterday was very clear on the action that he expects local health boards to take and that he expects them to work in partnership with local authorities in terms of their responsibilities. Working bilaterally and closely with the Minister for Local Government and Government Business will ensure that those important issues of tackling delayed transfers of care will be addressed.

Roedd datganiad y Gweinidog ddoe yn glir iawn ar y camau y mae'n disgwyl i fyrdau iechyd lleol eu cymryd a'r ffaith ei fod yn disgwyl iddynt weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol o ran eu cyfrifoldebau. Bydd gweithio mewn ffordd ddwyochrog ac agos gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn sicrhau yr ymddrinnir â'r materion pwysig hynny o ran mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal.

14:10 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the leader of Carmarthenshire County Council told councillors last week that the Welsh ambulance service was not fit for purpose. Do you agree with statement? Do you believe that we should look critically at the budget for the Welsh ambulance service?

Weinidog, dywedodd arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin wrth gynghorwyr yr wythnos diwethaf nad oedd gwasanaeth ambiwlans Cymru yn addas at y diben. A ydych yn cytuno â'r datganiad? A ydych o'r farn y dylem edrych ar gyllideb gwasanaeth ambiwlans Cymru fel mater o frys?

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The review by Siobhan McClelland will come before the Assembly in due course, and the Minister for Health and Social Services will also be answering a question on this.

Caiff yr adolygiad gan Siobhan McClelland ei gyflwyno gerbron y Cynulliad maes o law, a bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn ateb cwestiwn ar hyn.

Cytundeb Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso

Research and Evaluation Framework Agreement

14:11 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnydd Llywodraeth Cymru o'r Cytundeb Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso? OAQ(4)0241(FIN)

13. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's use of the Research and Evaluation Framework Agreement? OAQ(4)0241(FIN)

14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I understand that this question relates to Welsh Government use of research and consultancy contracts. Welsh Government expenditure on research and consultancy is subject to director general approval. Spend on management consultancy has reduced by 19% over the past four years.

Deallaf fod a wnelo'r cwestiwn hwn â defnydd Llywodraeth Cymru o gontractau ymchwil ac ymgynghori. Rhaid i wariant Llywodraeth Cymru ar ymchwil ac ymgynghori gael ei gymeradwyo gan gyfarwyddwyr cyffredinol. Mae gwariant ar ymgynghori ym maes rheoli wedi gostwng 19% dros y pedair blynedd diwethaf.

14:11 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. Your procurement policy launched last December sets out the expectation for public procurement to maximise the opportunities for Welsh-based suppliers. Does the practice of your directors-general of using the UK Government department framework agreement not work directly against your own policy?

Diolch, Weinidog. Mae eich polisi caffael a lanswyd fis Rhagfyr diwethaf yn nodi'r disgwyliad i drefniadau caffael cyhoeddus sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl i gyflenwyr wedi'u lleoli yng Nghymru. Onid yw'r ffaith bod eich cyfarwyddwyr cyffredinol yn defnyddio cytundeb fframwaith adrannau Llywodraeth y DU yn mynd yn gwbl groes i'ch polisi?

14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

No, not at all. It is consistent. We are working within the confines and we acknowledge that, at times, it is important to use UK Government policy frameworks. So, I do not believe that this is inconsistent.

Na, dim o gwbl. Mae'n gyson. Rydym yn gweithio o fewn y ffiniau ac rydym yn cydnabod, ar adegau, ei bod yn bwysig defnyddio fframweithiau polisi Llywodraeth y DU. Felly, ni chredaf fod hyn yn anghyson.

14:12 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

I am not quite sure whether I or anyone else understood that answer, Minister. Perhaps you could expand on how your policies dovetail with the UK Government's framework. With regard to support and procurement, how are your policies better than what the UK Government is currently offering in its framework?

Nid wyf yn hollol siŵr a ddeallais i nac unrhyw un arall yr ateb hwnnw, Weinidog. Efallai y gallech ymhelaethu ar sut y mae eich polisiau yn cydblethu â fframwaith Llywodraeth y DU. O ran cymorth a chaffael, sut y mae eich polisiau yn well na'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig ar hyn o bryd yn ei fframwaith?

14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

What is interesting about the cross-Government framework agreement for social and economic research is that we are able to feed into it. It is important that we are part of that framework agreement because of the opportunities that the Government procurement service provides in commissioning that work. In terms of our wider Welsh procurement policy statement, I think that it was Francis Maude who was encouraged by Radio 4's 'File on 4' programme when it came to Wales and acknowledged that the community benefits offered by the Welsh Government was far in advance of anything offered in England. Value Wales has also won an UK award against all civil service competitors for our community benefits policy.

Yr hyn sy'n ddiddorol am y cytundeb fframwaith traws-Llywodraeth ar gyfer gwaith ymchwil cymdeithasol ac economaidd yw y gallwn gyfrannu ato. Mae'n bwysig ein bod yn rhan o'r cytundeb fframwaith hwnnw oherwydd y cyfleoedd a gyflwynir gan wasanaeth caffael y Llywodraeth wrth gomisiynu'r gwaith hwnnw. O ran ein datganiad polisi caffael ehangach yng Nghymru, credaf i Francis Maude gael ei annog gan raglen 'File on 4' Radio 4 pan ddaeth i Gymru gan gydnabod bod y buddiannau cymunedol a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn llawer gwell nag unrhyw beth a gynigiwyd yn Lloegr. Mae Gwerth Cymru hefyd wedi ennill gwobr y DU yn erbyn yr holl gystadleuwyr o'r gwasanaeth sifil am ein polisi buddiannau cymunedol.

Portffolio Iechyd a Gwasaneth Cymdeithasol

Health and Social Services Portfolio

14:14 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adnoddau y mae wedi'u dyrannu i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0239(FIN)

14. Will the Minister make a statement on the resources she has allocated to the Health and Social Services portfolio? OAQ(4)0239(FIN)

14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In the 2013-14 final budget, the total departmental expenditure limit budget for health and social services is £6.335 billion. I will publish details of the restructured budgets in line with the new ministerial portfolios in the first supplementary budget.

Yng nghyllideb derfynol 2013-14, cyfanswm y gyllideb terfyn gwariant adrannol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw £6.335 biliwn. Byddaf yn cyhoeddi manylion y cyllidebau wedi'u hailstrwythuro yn unol â'r portffolios gweinidogol newydd fel rhan o'r gyllideb atodol gyntaf.

14:14 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for clarifying that. We know, Minister, that your indicative budget for 2014-15 will effectively wipe out £800 million from the NHS over a five-year period in real terms. We know that shortfalls are being predicted by health boards, not least in my health board area in north Wales, where Betsi Cadwaladr University Local Health Board is expected to find savings of £1.5 million every single week of the current financial year. What plans have you received from health boards to allow you to have confidence that they will meet their obligations to patients without having an impact on front-line services in the face of your record-breaking cuts? If you have been advised that services will be cut, which services are you endorsing to be cut?

Diolch am egluro hynny. Gwyddom, Weinidog, y bydd eich cyllideb ddangosol ar gyfer 2014-15 i bob pwrpas yn dileu £800 miliwn o'r GIG dros gyfnod o bum mlynedd mewn termau real. Gwyddom fod byrddau iechyd yn rhagfynegi diffygion, yn arbennig yn ardal fy mwrdd iechyd yn y gogledd, lle y disgwylir i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ddod o hyd i arbedion o £1.5 miliwn bob un wythnos o'r flwyddyn ariannol gyfredol. Pa gynlluniau a gawsoch gan fyrdau iechyd i roi'r hyder ichi y gallant gyflawni eu rhwymedigaethau i gleifion heb gael effaith ar wasanaethau rheng flaen o ystyried y toriadau a wnaed gennych, sy'n uwch nag a welwyd erioed o'r blaen? Os cawsoch wybod y caiff gwasanaethau eu diddymu, pa wasanaethau a gymeradwywyd gennych i'w diddymu?

14:15

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am afraid that there are record-breaking cuts from your UK coalition Government of £1.8 billion in terms of revenue. We have also experienced a 40% cut to our capital budget. I know, Darren Millar, about the great concern that you genuinely have for vulnerable people in Wales and for their health and wellbeing. However, the Sheffield Hallam University report on the impact of welfare reform shows that Wales and Welsh people are going to be hardest hit in the UK by those ill-advised welfare reforms. Also, in terms of talking about the cuts that we face, this year, as you know, as a result of the autumn statement and the budget, we have to find another £32 million out of the budget, which some Members agreed last year. [Interruption.] You did not agree, Darren. Also, we have to take over £80 million out of next year's budget. You tell me where we are going to find the cuts that have come down to Wales as a result of the record-breaking cuts of the UK Government.

Yn anffodus, mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi gwneud toriadau o £1.8 biliwn, sy'n uwch nag a welwyd erioed o'r blaen, o ran refeniw. Gostyngwyd ein cyllideb gyfalaf 40% hefyd. Gwn, Darren Millar, am y pryder mawr a gwirioneddol sydd gennych mewn perthynas â phobl agored i niwed yng Nghymru a'u hiechyd a'u lles. Fodd bynnag, dengys adroddiad Prifysgol Sheffield Hallam mai ar Gymru ac ar bobl Cymru o gymharu â gweddill y DU y bydd effaith y diwygiadau lles annoeth hynny waethaf. Hefyd, wrth drafod y toriadau rydym yn eu hwynebu, eleni, fel y gwyddoch, o ganlyniad i ddatganiad yr hydref a'r gyllideb, rhaid inni ddod o hyd i £32 miliwn arall allan o'r gyllideb, y cytunodd rhai Aelodau arni y llynedd. [Torri ar draws.] Ni wnaethoch gytuno, Darren. Hefyd, rhaid inni ddefnyddio dros £80 miliwn o gyllideb y flwyddyn nesaf. Dywedwch wrthyf ble y gallwn ddod o hyd i'r arian i wneud iawn am y toriadau y mae Cymru yn eu hwynebu o ganlyniad i doriadau eithafol Llywodraeth y DU.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Chwythu'r Chwiban

Whistleblowing Practice

14:16

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

15. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad yw arfer da o ran chwythu'r chwiban yn cael ei gamddefnyddio gan awdurdodau sy'n honni problemau ynghylch cyfrinachedd? OAQ(4)0248(FIN)

15. What steps will the Welsh Government take to ensure that good whistleblowing practice is not abused by authorities who claim confidentiality issues? OAQ(4)0248(FIN)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I released a written statement on 17 April setting out the steps being taken by the Welsh Government to provide leadership on whistleblowing in Wales.

Ar 17 Ebrill, rhyddheais ddatganiad ysgrifenedig yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddarparu arweiniad ar chwythu'r chwiban yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in the statement to AMs last week on this matter, you specifically referred to lessons learned from the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust public inquiry. However, by far the largest complaint regarding whistleblowing is made against hospital trusts—or LHBs in Wales—that are accused of using patient confidentiality to cover up bad practice. How will you specifically tackle this issue in Wales?

Weinidog, yn y datganiad i ACau yr wythnos diwethaf ar y mater hwn, cyfeiriasoch yn benodol at y gwersi a ddysgwyd o ymchwiliad cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Canol Swydd Stafford. Fodd bynnag, daw'r cwynion mwyaf o lawer mewn perthynas â chwythu'r chwiban yn erbyn ymddiriedolaethau ysbyty—neu BILau yng Nghymru—y'u cyhuddir o ddefnyddio cyfrinachedd cleifion i gelu arfer gwael. Sut yr ewch i'r afael yn benodol â'r mater hwn yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is committed to a culture of openness and transparency in all of its undertakings. I was grateful to Angela Burns for raising this issue and for my being able to provide an update on this in terms of the policy position of the Welsh Government. It is quite clear that NHS organisations are expected to cultivate that culture of openness and they must encourage staff to raise concerns reasonably and responsibly. I understand that the NHS whistleblowing policy is currently being reviewed by employers, trade unions and staff associations to ensure that they reflect best practice.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw yn ei holl ymgymeriadau. Roeddwn yn ddiolchgar i Angela Burns am godi'r mater hwn ac am gael cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater o ran safbwynt polisi Llywodraeth Cymru. Mae'n gwbl amlwg bod disgwyl i sefydliadau'r GIG feithrin y diwylliant hwnnw o fod yn agored a rhaid iddynt annog aelodau o staff i godi pryderon mewn ffordd resymol a chyfrifol. Deallaf fod cyflogwyr, undebau llafur a chymdeithasau staff wrthi ar hyn o bryd yn adolygu polisi chwythu'r chwiban y GIG er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r arfer gorau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:17	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>After your written statement on whistleblowing was published earlier this month, the whistleblowers support group established in north Wales e-mailed to tell me that it was a statement without any action behind it or reassurance that people would be protected if they speak out, regardless of the Public Interest Disclosure Act 1998, because every public sector whistleblower the group knows who has not returned to work has been blocked from seeking employment and discredited. That is why the group was formed. Will you therefore consider working with the UK whistleblowers group, established with Professor Gavin MacFadyen, which says that it is now looking to set up a support arm of Whistleblowers UK in Wales to protect these very people?</p>	<p>Ar ôl cyhoeddi eich datganiad ysgrifenedig ar chwythu'r chwiban yn gynharach yn ystod y mis, cefais neges e-bost gan y grŵp cymorth chwythwyr chwiban a sefydlwyd yn y gogledd yn datgan nad oedd unrhyw gamau gweithredu yn sail i'r datganiad ac nad oedd unrhyw dawelwch meddwl y câi pobl eu diogelu pe baent yn dweud eu dweud, oherwydd, er gwaethaf Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, mae pob unigolyn sydd wedi chwythu'r chwiban ar y sector cyhoeddus sy'n hysbys i'r grŵp na ddychwelodd i'r gwaith wedi cael ei atal rhag dod o hyd i swydd ac wedi dioddef anfri. Dyna pam y sefydlwyd y grŵp. A wnewch, felly, ystyried gweithio gyda grŵp chwythu'r chwiban y DU, a sefydlwyd gyda'r Athro Gavin MacFadyen, sy'n datgan ei fod bellach yn awyddus i sefydlu cangen gymorth o Whistleblowers UK yng Nghymru i amdiffyn yr union bobl hyn?</p>
14:18	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am writing to the UK Minister for employment relations to ensure that Wales is consulted as part of a recently announced review of whistleblowing legislation, to ensure that it protects those who speak out.</p>	<p>Rwy'n ysgrifennu at Weinidog Cysylltiadau Cyflogaeth y DU er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â Chymru fel rhan o adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban, er mwyn sicrhau ei bod yn diogelu'r rheini sy'n dweud eu dweud.</p>
14:19	Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Questions to the Minister for Local Y Government and Government Business Senedd.tv Fideo Video
	<p>Question 1, OAQ(4)0264(LG), has been withdrawn.</p>	<p>Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(4)0264(LG), yn ôl.</p>
	Grant Cynnal Refeniw	Revenue Support Grant
14:19	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Grant Cynnal Refeniw? OAQ(4)0256(LG)</p>	<p>2. Will the Minister make a statement on the Revenue Support Grant? OAQ(4)0256(LG)</p>
14:19	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business</i></p> <p>The final settlement announced in December 2012 set out that the overall revenue support grant funding for 2013-14 would increase by 1.5% compared with 2012-13 after adjusting for transfers and new responsibilities, and including the regional collaboration fund.</p>	<p>Mae'r setliad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012 yn nodi y byddai'r cyllid grant cynnal refeniw cyffredinol ar gyfer 2013-14 yn cynyddu 1.5% o gymharu â 2012-13 ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau a chyfrifoldebau newydd, ac yn cynnwys y gronfa cydweithredu ranbarthol.</p>
14:19	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer, Minister. A number of local authorities in Wales, particularly in rural areas, have expressed concern that the revenue support grant formula does not adequately reflect the challenges of providing rural public services. What consideration have you given, with the Welsh Local Government Association, to revising the revenue support grant, so that local authorities like Conwy and Denbighshire in my constituency will be able to receive additional support, recognising the challenges that they face?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, wedi mynegi pryder nad yw fformiwla'r grant cynnal refeniw yn adlewyrchu'n ddigonol yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig. Pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i adolygu'r grant cynnal refeniw, er mwyn sicrhau y bydd awdurdodau lleol fel Conwy a Sir Ddinbych yn fy etholaeth yn gallu cael cymorth ychwanegol, gan gydnabod yr heriau a wynebir ganddynt?</p>

14:20	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>The funding formula is negotiated with local authorities. They have a collective viewpoint on it, so if they want to have a look at revising it, that is up to them.</p>	<p>Caiff y fformiwla ariannu ei drafod ag awdurdodau lleol. Mae ganddynt safbwynt ar y cyd yn ei gylch, felly os ydynt yn awyddus i'w adolygu, mater iddynt hwy yw hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae'r grant cefnogi refeniw yn ymwneud â gwariant mewn blwyddyn gyfredol ac nid yw'n gallu ystyried unrhyw drychinebau sydd yn digwydd. Roedd cynllun yn flaenorol, cynllun Bellwin, a oedd yn caniatáu i'r Llywodraeth roi cefnogaeth mewn amgylchiadau arbennig. Mae amryw o siroedd Cymru, yn arbennig yn y gogledd, wedi gweld difrod mawr oherwydd y llifogydd mawr a'r eira sydd wedi cael effaith andwyol ar ffyrdd, pontydd a phob math o bethau. A yw'r Gweinidog yn bwriadu cefnogi'r siroedd hynny sydd wedi dioddef waethaf oherwydd y difrod mawr sydd wedi digwydd?</p>	<p>The revenue support grant relates to expenditure in the current year and it cannot take into account any disasters or crises that take place. There was a previous scheme in place, the Bellwin scheme, which allowed the Government to provide support in special circumstances. Many Welsh counties, particularly in north Wales, have seen significant damage as a result of major flooding and snowfall, which has had a detrimental effect on roads, bridges and all sorts of other things. Does the Minister have any intention of supporting those counties that have suffered most in light of the major damage that has taken place?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:20	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that question. There is a small pot of money that can be used for such emergencies and if local authorities want to bid for money from that fund they can bid directly to me.</p>	<p>Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae cronfa fach o arian y gellir ei defnyddio ar gyfer argyfyngau o'r fath ac os bydd awdurdodau lleol am wneud cais am arian o'r gronfa honno, gallant wneud cais yn uniongyrchol i mi.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, when special grants are transferred into revenue support grant, this can cause particular problems for some local authorities, especially in rural areas, when the revenue support grant does not adequately reflect the costs of delivering services over a large geographic area to relatively small populations. What steps will you look at to ensure that, as grants transfer into RSG, individual local authorities and the people whom they serve and who are in receipt of local services are not disadvantaged?</p>	<p>Weinidog, pan gaiff grantiau arbennig eu trosglwyddo i'r grant cynnal refeniw, gall hyn achosi problemau penodol i rai awdurdodau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle nad yw'r grant cynnal refeniw yn adlewyrchu'n ddigonol gostau darparu gwasanaethau dros ardal ddaearyddol fawr i boblogaethau cymharol fach. Pa gamau y byddwch yn eu hystyried i sicrhau na chaiff awdurdodau lleol unigol a'r bobl a wasanaethir ganddynt ac sy'n derbyn gwasanaethau lleol eu rhoi dan anfantis wrth i grantiau gael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I am going around currently and meeting representatives of the 22 local authorities—I am about halfway around, at the moment. I have not met representatives of Powys and the other rural authorities yet, but I am sure that they will raise that with me and we can look for a way forward.</p>	<p>Rwyf wrthi'n teithio o amgylch ac yn cyfarfod â chynrychiolwyr o'r 22 awdurdod lleol — rwyf tua hanner ffordd, ar hyn o bryd. Nid wyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o awdurdod lleol Powys na'r awdurdodau gwledig eraill eto, ond rwy'n siŵr y byddant yn codi'r mater hwnnw gyda mi ac y gallwn chwilio am ffordd ymlaen.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Trais Domestig yng Nghymru		Domestic Violence in Wales	
14:22	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd yn ystod 2013 i fynd i'r afael â thrais domestig yng Nghymru? OAQ(4)0259(LG)</i></p>	<p><i>3. What action will the Minister take during 2013 to tackle domestic violence in Wales? OAQ(4)0259(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Lynne Neagle Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais domestig? OAQ(4)0265(LG)</i></p>	<p><i>4. Will the Minister make a statement on the Welsh Government efforts to tackle domestic violence? OAQ(4)0265(LG)</i></p>	

- 14:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- I am committed to reducing rates of violence against women and domestic abuse affecting men and women through the implementation of 'The Right to be Safe' strategy and progressing our programme for government commitments to develop legislation and implement the 10,000 Safer Lives project.
- Rwy'n ymrwymedig i ostwng cyfraddau trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig sy'n effeithio ar ddynion a menywod drwy weithredu strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' a datblygu ein rhaglen ar gyfer ymrwymadau'r llywodraeth i ddatblygu deddfwriaeth a gweithredu prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach.
- 14:22 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. The 10,000 Safer Lives domestic abuse project identified the effective implementation of a workplace policy to tackle domestic abuse as one of the set of minimum standards for public services in Wales. Will the Minister provide an update on progress in implementing workplace policies on violence against women to identify and assist female employees who are the victims of violence?
- Diolch, Weinidog. Nododd y prosiect cam-drin domestig 10,000 o Fywydau Diogelach y dylid gweithredu polisi effeithiol yn y gweithle i fynd i'r afael â cham-drin domestig fel un o'r gyfres o safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran gweithredu polisiau yn y gweithle ar drais yn erbyn menywod er mwyn nodi cyflogaion benywaidd sy'n dioddef trais a'u cefnogi?
- 14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Workplace policies are part of that scheme, as you mentioned, and it is important that public service employers have such a policy in place, and that it is regularly reviewed and supported by training. This is an important priority for me as I take up this portfolio, and it is something that I will review regularly.
- Fel y soniasoch, mae polisiau yn y gweithle yn rhan o'r cynllun hwnnw, ac mae'n bwysig bod gan gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus bolisi o'r fath ar waith, a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gefnogi gan hyfforddiant. Mae hon yn flaenoriaeth bwysig imi wrth imi ymgymryd â'r portffolio hwn, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn ei adolygu'n rheolaidd.
- 14:23 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am sure that you are well aware of the concerns expressed by Women's Aid over the potential impact of welfare reform on the support for victims of domestic abuse in Wales. It still remains unclear whether all refuges and supported accommodation are exempt from the bedroom tax and other changes. There are also fears about the per-household basis of universal credit, despite some recent concessions to split payments in cases of abuse. What assessment have you made of the impact of these changes and how, working with the Minister for Communities and Tackling Poverty, you will ensure that they do not undermine Welsh Government policy in this area?
- Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol iawn o'r pryderon a fynegwyd gan Cymorth i Fenywod ynghylch effaith bosibl diwygio lles ar y cymorth a roddir i ddiodefwyr cam-drin domestig yng Nghymru. Mae'n dal i fod yn aneglur a gaiff yr holl lochesi a llety â chymorth eu heithrio o'r dreth ystafell wely a newidiadau eraill. Mae ofnau hefyd ynghylch sylfaen fesul cartref credyd cynhwysol, er gwaethaf rhai consesiynau diweddar i rannu taliadau mewn achosion o gam-drin. Pa asesiad a wnaed gennych o effaith y newidiadau hyn a sut, gan weithio gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, y byddwch yn sicrhau nad ydynt yn tanseilio polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn?
- 14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- We continue to be concerned as a Government about a number of the design features of the UK Government's welfare reforms. I am working not only with my colleague Huw Lewis, but with my colleague Carl Sargeant, who leads on some of the areas that you have referred to in relation to housing. I know that Carl Sargeant has raised a number of concerns about the impact of reforms on housing-related matters and he recently gave evidence to the Welsh Affairs Committee. It is something that we will have to review regularly as we go through the year.
- Parhawn i fod yn bryderus fel Llywodraeth ynghylch nifer o nodweddion cynllunio diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Rwy'n gweithio, nid yn unig gyda'm cyd-Aelod, Huw Lewis, ond gyda'm cyd-Aelod Carl Sargeant, sy'n arwain ar rai o'r meysydd y gwnaethoch gyfeirio atynt mewn perthynas â thai. Gwn fod Carl Sargeant wedi codi nifer o bryderon ynghylch effaith y diwygiadau ar faterion sy'n ymwneud â thai a rhoddodd dystiolaeth yn ddiweddar i'r Pwyllgor Materion Cymreig. Mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid inni ei adolygu'n rheolaidd wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

- 14:24 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As Mohammad Asghar said in his earlier question, Minister, the scale of underreporting of domestic abuse is potentially staggering. On average, a woman will be attacked up to 33 times before coming forward. Can you tell us what discussions you have had with the Welsh police and crime commissioners since they came into post regarding how we can get women to come forward at a much earlier stage and save a lot of grief?
- Fel y dywedodd Mohammad Asghar yn ei gwestiwn yn gynharach, Weinidog, mae nifer yr achosion o gam-drin domestig na chânt eu cofnodi o bosibl yn syfrdanol. Ar gyfartaledd, ymosodir ar ferch hyd at 33 gwaith cyn iddi ddatgelu ei bod yn cael ei cham-drin. A allwch ddweud wrthym pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda chomisïynwyr heddlu a throseddau Cymru ers iddynt ddechrau yn y swydd ynghylch sut y gallwn annog menywod i ddatgelu'n llawer cynharach ac arbed llawer o ofid?
- 14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have not met them yet; you will appreciate that I am only a month into post. I am due to meet the police and crime commissioners around 18 May, I think. Obviously, that is something that I will be discussing with them. It is an important area. Unfortunately, I was in an accident and emergency department at the weekend, but I was pleased to see that, on the desk, there was something asking people whether they felt that they were victims of abuse. It is important that such workplaces have that information, where people—and, for example, women would go to the general practitioner on their own—can give that information. It is important that all public bodies pull together around this very important agenda.
- Nid wyf wedi cyfarfod â hwy eto; byddwch yn gwerthfawrogi mai dim ond mis sydd ers imi ddechrau yn fy swydd. Byddaf yn cyfarfod â'r comisïynwyr heddlu a throseddau tua 18 Mai, rwy'n credu. Yn amlwg, mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod â hwy. Mae'n faes pwysig. Yn anffodus, bûm mewn adran damweiniau ac achosion brys dros y penwythnos, ond roeddwn yn falch o weld rhywbeth, ar y ddesg, oedd yn gofyn i bobl a oeddent yn teimlo eu bod yn dioddef cam-drin. Mae'n bwysig bod gweithleoedd o'r fath yn cael y wybodaeth honno, lle y gall pobl—ac, er enghraifft, byddai menywod yn mynd at y meddyg ar eu pen eu hunain—roi'r wybodaeth honno. Mae'n bwysig bod pob corff cyhoeddus yn cyd-dynnu o ran yr agenda hynod bwysig hon.
- 14:25 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Obviously, I applaud all of the good work that Women's Aid refuges do throughout Wales. I would prefer to focus on preventing all forms of violence against women, which includes trafficking, harassment, sexual violence, forced marriage and female genital mutilation. Do you agree that the Welsh Government needs to work with the third sector organisations to try to prevent violence in all its different forms, and that that should be part of the Welsh Government's funded review of violence against women?
- Yn amlwg, rwy'n cymeradwyo'r holl waith da y mae llochesau Cymorth i Fenywod yn ei wneud ledled Cymru. Byddai'n well gennyf ganolbwyntio ar atal pob math o drais yn erbyn menywod, sy'n cynnwys masnachu, aflonyddu, trais rhywiol, priodas dan orfod ac enwaedu benywaidd. A ydych yn cytuno bod angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau trydydd sector er mwyn ceisio atal trais o bob math, ac y dylai hynny fod yn rhan o'r adolygiad a ariennir gan Lywodraeth Cymru o drais yn erbyn menywod?
- 14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, absolutely. It is vital that we pull together. As I said, various public bodies pull together on this. We have just appointed the first anti-human trafficking co-ordinator. We are the first country in the UK to do so. I have met with him. The schemes that he wants to implement will, I think, be successful in this area.
- Ydw, yn sicr. Mae'n hanfodol ein bod yn cyd-dynnu. Fel y dywedais, mae amrywiol gyrrff cyhoeddus yn cyd-dynnu mewn perthynas â hyn. Rydym newydd benodi'r cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl cyntaf. Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i wneud hynny. Rwyf wedi cwrdd ag ef. Credaf y bydd y cynlluniau y mae'n awyddus i'w gweithredu yn llwyddiannus yn y maes hwn.
- 14:26 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Substantial cuts to legal aid and to the funding for independent domestic violence advisers from the UK Government means that many women who suffer domestic violence—and as we have heard from Nick Ramsay, women are more likely to be abused around 30 times before they come forward—are going to be less likely to come forward if they will not have the support and help from legal aid and from IDVAs. What can we do, as the Welsh Government, to ensure that women feel confident enough to come forward and to not go through that horrendous system without help and support?
- Mae toriadau sylweddol i gymorth cyfreithiol ac i'r cyllid ar gyfer cynghorwyr annibynnol ar drais domestig gan Lywodraeth y DU yn golygu bod llawer o fenywod sy'n dioddef trais domestig—ac fel y clywsom gan Nick Ramsay, mae menywod yn fwy tebygol o gael eu cam-drin tua 30 gwaith cyn iddynt ddatgelu hynny—yn llai tebygol o ddatgelu eu bod yn cael eu cam-drin os na fyddant yn cael y gefnogaeth a'r help drwy gymorth cyfreithiol a chan gynghorwyr annibynnol ar drais domestig. Beth gallwn ni ei wneud, fel Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod menywod yn teimlo'n ddigon hyderus i ddatgelu hyn ac i beidio â mynd drwy'r system erchyll honno heb help a chymorth?

14:27

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In respect of legal aid, the Ministry of Justice confirmed earlier this month that victims of domestic violence who are divorcing or separating from an abusive partner are still eligible for legal aid support. However, I am aware that Home Office funding to the community safety partnerships has been subject to cuts. Not all areas in Wales were successful in applying for IDVA funding direct from the Home Office. We recognise that IDVAs provide an absolutely vital service. The Welsh Government has given a £10,000 contribution via the community safety partnerships to the IDVA service in each local authority area since 2010-11. My predecessor recently agreed the continuation of this funding for this financial year, and community safety partnerships were notified of this at the end of February.

O ran cymorth cyfreithiol, cadarnhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gynharach y mis hwn fod dioddefwyr trais domestig sy'n ysgaru neu'n gwahanu oddi wrth bartner sy'n cam-drin yn dal yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod cyllid y Swyddfa Gartref i'r partneriaethau diogelwch cymunedol wedi bod yn destun toriadau. Ni fu pob ardal yng Nghymru yn llwyddiannus wrth wneud cais am gyllid ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn uniongyrchol gan y Swyddfa Gartref. Cydnabyddwn fod Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn darparu gwasanaeth cwbl hanfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfraniad o £ 10,000 drwy'r partneriaethau diogelwch cymunedol i'r gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ym mhob ardal awdurdod lleol ers 2010-11. Cytunodd fy rhagflaenydd yn ddiweddar barhau i ddarparu'r cyllid hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a hysbyswyd partneriaethau diogelwch cymunedol o hyn ddiwedd mis Chwefror.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gweithredu Cyflog Byw

Implementing a Living Wage

14:28

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa gyngor y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i awdurdodau lleol yng Nghymru ar weithredu cyflog byw? OAQ(4)0255(LG)

5. What advice has the Welsh Government given to local authorities in Wales on implementing a living wage? OAQ(4)0255(LG)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government encourages employers to consider becoming a living wage employer, but recognises that this is a matter for each employer.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyflogwyr i ystyried dod yn gyflogwr cyflog byw, ond mae'n cydnabod mai mater i bob cyflogwr ydyw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. I am sure that the Minister is well aware of the difficult times for local authorities at the moment in terms of the money that they have had, due to the substantial cut in the budget of the Welsh Government. I am pleased to say that Swansea council has made a commitment to bring in a living wage in Swansea. Will the Minister join me in urging all other authorities to make a commitment to bring in a living wage, whether they can bring it in now or not?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r cyfnod anodd a wynebwr gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd o ran yr arian y maent wedi'i gael, yn sgil y toriadau sylweddol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Rwy'n falch o ddweud bod cyngor Abertawe wedi ymrwymo i gyflwyno cyflog byw yn Abertawe. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i annog pob awdurdod arall i ymrwymo i wneud hynny, p'un a allant ei gyflwyno nawr ai peidio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are certainly happy to encourage employers, including local authorities, to become living-wage employers. I am pleased to see that some local authorities are considering this approach. Obviously, the living wage, while welcome, is a non-statutory voluntary arrangement, which each employer can consider. I would seek to encourage employers to make sure that, while they are moving towards a living wage, it must be with a sustainable approach.

Rydym yn sicr yn barod i annog cyflogwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ddod yn gyflogwyr cyflog byw. Rwy'n falch o weld bod rhai awdurdodau lleol yn ystyried y dull hwn. Yn amlwg, er ein bod yn ei groesawu, trefniant gwirfoddol anstatudol yw'r cyflog byw, y gall pob cyflogwr ei ystyried. Byddwn yn ceisio annog cyflogwyr i sicrhau, wrth iddynt symud tuag at gyflog byw, ei fod yn drefniant cynaliadwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:29	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography London mayor, Boris Johnson, has described the living wage as bringing wider social benefits, tackling poverty, making work pay and improving the quality of life for families. Some two thirds of London employers who are using this have reported a significant positive impact on recruitment and retention. Given that the organisation Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities in Wrexham successfully campaigned to have the living wage introduced in its assembly some seven years ago, and given that its public assembly last Friday highlighted that a large number of people earn less than the living wage in Flintshire, Wrexham and Denbighshire, what action could you take to encourage local authorities to consider how a living wage might be introduced with their single status or equal pay policies?	Dyweddod Maer Llundain, Boris Johnson, fod cyflog byw yn cynnig manteision cymdeithasol ehangach, yn mynd i'r afael â thlodi, yn gwneud i waith dalu ac yn gwella ansawdd bywyd i deuluoedd. Mae tua dwy ran o dair o gyflogwyr yn Llundain, sy'n defnyddio'r trefniant hwn, wedi nodi effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfraddau recriwtio a chadw staff. O gofio bod sefydliad Trefnu Cymunedol Cymru yn Wrecsam wedi ymgyrchu'n llwyddiannus dros gyflwyno'r cyflog byw yn ei gynulliad tua saith mlynedd yn ôl, ac o ystyried bod ei gynulliad cyhoeddus ddydd Gwener diwethaf wedi nodi bod nifer fawr o bobl yn ennill llai na'r cyflog byw yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych, pa gamau y gallech eu cymryd i annog awdurdodau lleol i ystyried sut y gellid cyflwyno cyflog byw gyda'u polisiau ar statws sengl neu gyflog cyfartal?	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I reiterate my answer to Mike Hedges. As a Government, we are very happy to encourage employers to become living wage employers, but it is a voluntary arrangement and it has to be done on that sustainable footing.	Ailadroddaf fy ateb i Mike Hedges. Fel Llywodraeth, rydym yn fwy na pharod i annog cyflogwyr i ddod yn gyflogwyr cyflog byw, ond trefniant gwirfoddol ydyw a rhaid iddo gael ei wneud mewn modd cynaliadwy.	Senedd.tv Fideo Video
14:30	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Weinidog, beth oedd eich ymateb i'r ffaith bod aelod o fwrdd gweithredol Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi dweud yn ddiweddar nad oes unrhyw fwriad gan y cyngor i gyflwyno cyflog byw, a hynny yng nghyd-destun y ffaith bod nifer helaeth o'r tîm rheoli hŷn yn derbyn mwy na £100,000, a hyd at £200,000, y flwyddyn? A ydych yn derbyn bod hynny'n sefyllfa cwbl annerbyniol?	Minister, what was your response to the fact that a member of Carmarthenshire County Council said recently that the council has no intention of introducing a living wage, in the context of that fact that a significant number of the senior management team are paid more than £100,000, and up to £200,000, per annum? Do you accept that that is completely unacceptable?	Senedd.tv Fideo Video
14:31	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography It is a matter for Carmarthenshire. All that I can do is reiterate my previous answers. I encourage employers to become living wage employers, but I realise the pressures on local authorities and I would only urge them to do so if they felt that it was sustainable.	Mater i Sir Gaerfyrddin yw hynny. Y cyfan y gallaf ei wneud yw ailadrodd fy atebion blaenorol. Annogaf gyflogwyr i ddod yn gyflogwyr cyflog byw, ond sylweddolaf y pwysau sydd ar awdurdodau lleol a byddwn ond yn eu hannog i wneud hynny pe byddent yn teimlo ei fod yn gynaliadwy.	Senedd.tv Fideo Video
14:31	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Gan fy mod wedi cyfeirio at gyflogau'r tîm rheoli hŷn, mae'n amlwg nad oes diffyg arian yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin i dalu ei weithwyr. A wnech gysylltu ag arweinydd y cyngor, sy'n cael ei arwain gan y Blaid Lafur, wrth reswm, i'w annog i edrych ar sut y gall sicrhau bod gweithwyr yn cael tâl cyfiawn am y gwaith maent yn ei wneud, yn ogystal â'r tîm rheoli hŷn?	Given that I referred to the wages paid to the senior management team, it is clear that Carmarthenshire County Council has no shortage of funds to pay its workers. Will you contact the leader of the council, which is, of course, led by the Labour Party, to urge him to look at how he can ensure that workers, as well as the senior management team, are paid a just wage for the work that they do?	Senedd.tv Fideo Video
14:31	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography You will have heard me mention in my earlier answer to Kirsty Williams that I am currently going around Wales meeting the leaders and chief executives of each local authority, and I will certainly raise this issue when I meet with the leader and chief executive of Carmarthenshire.	Byddwch wedi fy nghlywed yn sôn yn fy ateb cynharach i Kirsty Williams fy mod wrthi'n teithio o amgylch Cymru yn cyfarfod ag arweinwyr a phrif weithredwyr pob awdurdod lleol, a byddaf yn sicrhau yn codi'r mater hwn pan fyddaf yn cyfarfod ag arweinydd a phrif weithredwr Sir Gaerfyrddin.	Senedd.tv Fideo Video
14:32	Keith Davies Bywgraffiad Biography Beth bynnag mae Rhodri Glyn yn ei ddweud, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin, o dan arweiniad Llafur, yn ddiweddar wedi cyhoeddi datblygiadau sylweddol at weithredu cyflog trwy gynnydd o 5% yng nghyflwoga'u'r gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf—[Interruption.]	Whatever Rhodri Glyn may say, Carmarthenshire County Council, led by Labour, has recently announced significant developments towards implementing wages by providing an increase of 5% in the salaries of the lowest paid workers — [Interruption.]	Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Carry on, Keith Davies; ignore what is being said. Ewch yn eich blaen, Keith Davies; anwybyddwch yr hyn sy'n cael ei ddweud.

14:32 **Keith Davies** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Diolch yn fawr. Mae'n ceisio creu cydbwysedd rhwng cynaliadwyedd, cyflog byw a cholli swyddi, ac yn rhoi'r cynnydd mwyaf i'r rhai sy'n cael y cyflogau lleiaf. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod hyn yn esiampl dda o gyngor, dan arweiniad Llafur, yn darparu ffordd arall i amddiffyn y gweithwyr hynny sy'n derbyn y tâl isaf yn erbyn darlun ehangach o galedi gan San Steffan? Thank you. It is trying to strike a balance between sustainability, a living wage and job losses, and giving the greatest increase to the lowest paid. Does the Minister agree that this is a good example of a Labour-led council providing an alternative way of defending the lowest paid workers against a bigger picture of austerity imposed by Westminster?

14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Yes, I am very pleased to hear that Carmarthenshire County Council is taking those steps, and, as you say, in a sustainable way, which is the really important elements of this, and in a very fair way. Ydw, rwy'n falch iawn o glywed bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cymryd y camau hynny, ac, fel y dywedwch, mewn ffordd gynaliadwy, sef y peth pwysig iawn yn hyn o beth, ac mewn modd teg iawn.

Hyrwyddo bod yn fwy Agored a Thyloyw

Promote Greater Openness and Transparency

14:33 **Julie Morgan** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
6. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo bod yn fwy agored a thyloyw mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0260(LG) *6. What plans does the Welsh Government have to promote greater openness and transparency within local government? OAQ(4)0260(LG)*

14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Strengthening local democracy is one of the Welsh Government's programme for government commitments. There are many actions under way, such as the scrutiny development programme, the provision of funding for the broadcasting of council meetings and the publication of local authority pay policies. Mae atgyfnerthu democratiaeth leol yn un o ymrwymadau rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae llawer o gamau yn mynd rhaddyt, megis y rhaglen datblygu craffu, darparu cyllid ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor a chyhoeddi polisiau cyflog awdurdodau lleol.

14:33 **Julie Morgan** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I thank the Minister for that reply. Both the Welsh Government and the National Assembly for Wales publish a disclosure log on their websites, where details of responses to public requests for information are published, although, among local authorities, public access to their responses varies considerably across Wales. Will the Minister consider placing a requirement on all local authorities to improve access to their own disclosure logs? Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi cofnod datgeliadau ar eu gwefannau, lle caiff manylion ymatebion i geisiadau gan y cyhoedd am wybodaeth eu cyhoeddi, ond, mae gallu'r cyhoedd i weld eu hymatebion yn amrywio'n sylweddol ymysg awdurdodau lleol ledled Cymru. A wnaiff y Gweinidog ystyried ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol wella mynediad at eu cofnodion datgeliadau eu hunain?

14:33

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Local authorities, like the Welsh Government, are subject to freedom of information requests. Section 19 of the Act makes it a legal requirement for local authorities to have a publication scheme, although there is no legal requirement for them to have a disclosure log, as you say. The Information Commissioner's Office recommends that it is good practice to include disclosure logs as part of publication schemes, but it is a matter for local authorities to decide what is included on those disclosure logs. As FOI requests for public bodies are not a devolved matter, I am not able to intervene, but I would encourage all local authorities to be open and transparent when dealing with such requests for information.

Mae awdurdodau lleol, fel Llywodraeth Cymru, yn ddarostyngedig i geisiadau rhyddid gwybodaeth. Mae Adran 19 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol feddu ar gynllun cyhoeddi, er nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol iddynt gael cofnod datgeliadau. Argymhella Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ei bod yn arfer da cynnwys cofnodion datgeliadau fel rhan o gynlluniau cyhoeddi, ond mater i awdurdodau lleol yw penderfynu beth a gaiff ei gynnwys yn y cofnodion datgeliadau hyn. Gan nad yw ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer cyrff cyhoeddus yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ni allaf ymyrryd, ond byddwn yn annog pob awdurdod lleol i fod yn agored ac yn dryloyw wrth ddelio â cheisiadau o'r fath am wybodaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In a recent survey, the Electoral Reform Society found that only four local authorities actively encouraged councillors to use social media during council business. Five local authorities bar councillors from doing this and some 16 authorities do not carry out any form of broadcasting of due process. In January, your predecessor, in response to our repeated calls for improved transparency, announced a sum of £1.25 million for this initiative. However, in Aberconwy, I understand that our authority has been provided with £56,000 but will only facilitate live streaming during licensing and planning meetings. What steps are you taking, Minister, to ensure that authorities that draw down this funding use it to fulfil the overall transparency aims in all council proceedings?

Mewn arolwg diweddar, canfu'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol mai dim ond pedwar awdurdod lleol oedd yn annog cynghorwyr i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod busnes y cyngor. Mae pum awdurdod lleol yn gwahardd cynghorwyr rhag gwneud hyn ac mae tua 16 awdurdod nad ydynt yn darparu unrhyw fath o wasanaeth darlledu. Ym mis Ionawr, cyhoeddodd eich rhagflaenydd, mewn ymateb i'n galwadau mynych am fwy o dryloywder, swm o £1.25 miliwn ar gyfer y fenter hon. Fodd bynnag, yn Aberconwy, deallaf fod ein hawdurdod wedi cael £56,000 ond y bydd ond yn darparu gwasanaeth ffrydio byw yn ystod cyfarfodydd trwyddedu a chynllunio. Pa gamau rydych yn eu cymryd, Weinidog, i sicrhau bod awdurdodau sy'n manteisio ar yr arian hwn yn ei ddefnyddio i gyflawni'r nodau cyffredinol o ran tryloywder mewn perthynas â holl drafodion y cyngor?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am keen to pursue the agenda that Carl Sargeant started, in encouraging local authorities to be much more open and transparent. I do not have a problem with councillors using social media during meetings. You are right to say that my predecessor announced £1.25 million for councils across Wales, to ensure that local democracy is as open and transparent as possible. When I visit representatives of Conwy County Borough Council I will discuss that with them.

Rwy'n awyddus i fynd ar drywydd yr agenda a gychwynwyd gan Carl Sargeant, i annog awdurdodau lleol i fod yn llawer mwy agored a thryloyw. Nid oes gennyf broblem gyda chynghorwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd. Rydych yn gywir i ddweud bod fy rhagflaenydd wedi cyhoeddi £1.25 miliwn ar gyfer cynghorau ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod democratiaeth leol mor agored a thryloyw â phosibl. Pan fyddaf yn ymweld â chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, byddaf yn trafod hynny gyda hwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I am delighted to hear that. However, to quote your predecessor:

'The funding will be used to take forward measures such as broadcasting county council meetings, and improving the range of information that is available to the public about their town or community council, or principal council.'

He goes on to say:

'I want to give as many people as possible access to the proceedings of local government.'

Diolch, Weinidog. Rwy'n falch iawn o glywed hynny. Fodd bynnag, i ddyfynnu eich rhagflaenydd:

'Defnyddir y cyllid i ddatblygu mesurau fel darlledu cyfarfodydd y cyngor sir a gwella'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am eu cyngor tref neu cyngor cymuned, neu brif cyngor.'

Dyweddodd hefyd:

'Rwyf am weld cynifer â phosibl o bobl yn cael mynediad i weithrediadau llywodraeth leol.'

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, can we have your assurance that you will ensure that these moneys effectively open up the democratic process once and for all in our local authorities?

Weinidog, a allwch roi sicrwydd inni y byddwch yn sicrhau bod yr arian hwn yn gwneud y broses ddemocrataidd yn fwy agored unwaith ac am byth yn ein hawdurdodau lleol?

14:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am keen to take democracy as far forward as we can. I will be discussing this issue with local government representatives. As I said, I have already held discussions with 11 local authorities, and I will certainly discuss it with the rest. Good scrutiny requires the public to know as much as it can about its councils, so I am very keen to take this forward.

Rwy'n awyddus i ddatblygu democratiaeth cymaint â phosibl. Byddaf yn trafod y mater hwn gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol. Fel y dywedais, rwyf eisoes wedi cynnal trafodaethau ag 11 o awdurdodau lleol, a byddaf yn sicrhau ei drafod gyda'r gweddill. Mae craffu da yn golygu bod angen i'r cyhoedd wybod cymaint â phosibl am ei gynghorau, felly rwy'n awyddus iawn i fwrw ati â hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you would agree that there is no better illustration of a lack of transparency than the recent events at Labour-led Caerphilly County Borough Council. What steps will you take to ensure that decisions on pay are not hidden from the public?

Weinidog, byddech yn cytuno, mae'n siŵr gennyf, nad oes enghraifft well o ddiffyg tryloywder na'r hyn a ddigwyddodd yn ddiweddar yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o dan arweiniad Llafur. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau na chaiff penderfyniadau ynghylch cyflog eu celu rhag y cyhoedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The only way to have proper scrutiny is for that information to be out there in the public domain. I have not visited Caerphilly council yet, but I will be discussing this issue with its representatives. However, I expect all public bodies to justify and account for any decisions that they take.

Yr unig ffordd o sicrhau proses graffu briodol yw sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd. Nid wyf wedi ymweld â chyngor Caerffili eto, ond byddaf yn trafod y mater hwn gyda'i gynrychiolwyr. Fodd bynnag, disgwyliaf i bob corff cyhoeddus gyfiawnhau unrhyw benderfyniadau a wneir ganddynt a rhoi cyfrif amdanynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, only eight of the 22 principal local authorities currently publish their register of interests on the internet; with the other 14, you have to go to the darkest recesses of town halls to find out what their councillors' interests are. Given that eight authorities are promoting best practice, will you consider using the opportunity of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill to legislate to ensure that this is common practice for all 22?

Weinidog, dim ond wyth o'r 22 o brif awdurdodau lleol sy'n cyhoeddi eu cofrestr buddiannau ar y rhyngwrwyd ar hyn o bryd; o ran y 14 arall, rhaid ichi fynd i gorneli tywyllaf neuaddau tref i ganfod buddiannau eu cynghorwyr. O ystyried bod wyth awdurdod yn hyrwyddo arfer gorau, a wnewch chi ystyried manteisio ar Fesur Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) i ddeddfu er mwyn sicrhau bod hyn yn arfer cyffredin i bob un o'r 22 awdurdod lleol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will certainly look at this issue. We are just about to enter Stage 2 of the Bill, as you know, and I will certainly look at that.

Byddaf yn sicrhau yn ystyried y mater hwn. Rydym ar fin dechrau ar Gam 2 o'r Bil, fel y gwyrddoch, a byddaf yn sicrhau yn ystyried hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. On another issue, in terms of transparency and openness, as you know, the best way of achieving transparency is by accountability. Given that proportional representation is the best way to get an accountable and representative council, thus promoting transparency and openness, will you support your predecessor's policy, in seeking through the Silk commission the powers for the Welsh Government to carry out this important reform?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Gan droi at fater arall, sef bod yn dryloyw ac yn agored, fel y gwyrddoch, y ffordd orau o sicrhau tryloywder yw drwy atebolrwydd. O ystyried mai cynrychiolaeth gyfrannol yw'r ffordd orau o gael cyngor atebol a chynrychioladol, a thrwy hynny hyrwyddo bod yn dryloyw ac yn agored, a fyddwch yn cefnogi polisi eich rhagflaenydd, wrth geisio drwy gomisiwn Silk y pwerau i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r newid pwysig hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not agree with proportional representation for local government.

Nid wyf yn cytuno â chynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer llywodraeth leol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Asesiad o Wariant Safonol

Standard Spending Assessment (SSA)

14:38 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fformiwla gyllido'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru? OAQ(4)0266(LG)

7. Will the Minister make a statement on the Standard Spending Assessment (SSA) funding formula for Welsh local authorities? OAQ(4)0266(LG)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The standard spending assessment funding formula for Welsh local authorities is developed and maintained in consultation with local government. The formula is designed to reflect relative need using information that reflects the demographic, physical, economic and social characteristics of each local authority.

Caiff fformiwla ariannu asesiad o wariant sylfaenol awdurdodau lleol yng Nghymru ei ddatblygu a'i gynnal mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol. Mae'r fformiwla wedi'i gynllunio i adlewyrchu angen cymharol gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol pob awdurdod lleol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:39 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I wrote to your predecessor about this issue on 5 March, and I finally got a response late this morning. There has been some confusion as to who sets the formula, despite the former Minister being adamant that it is a process that is owned by all Welsh local authorities. I know that Powys County Council has questioned the future of the formula, having again received the lowest settlement in Wales. What I am not clear about with regard to your correspondence today is that, while there is a consultative mechanism between the Welsh Local Government Association and the distribution sub-group, are you still ultimately responsible for making that final decision?

Ysgrifennais at eich rhagflaenydd ynghylch y mater hwn ar 5 Mawrth, a chefais ymateb o'r diwedd y bore yma. Bu rhywfaint o ddryswch ynghylch pwy sy'n pennu'r fformiwla, er gwaethaf y ffaith bod y cyn Weinidog yn benderfynol mai cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yng Nghymru yw hynny. Gwn fod Cyngor Sir Powys wedi cwestiynu dyfodol y fformiwla, ar ôl derbyn y setliad isaf yng Nghymru unwaith eto. Yr hyn nad wyf yn glir amdano o ran eich gohebiaeth heddiw yw, er bod mecanwaith ymgynghorol ar waith rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r is-grŵp dosbarthu, a ydych yn dal yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Ultimately, I have responsibility for the formula, but it is based on the joint approach with local government representatives, to ensure that there is a broad consensus within the local authorities, and to ensure that they have that collective viewpoint.

Yn y pen draw, fi sy'n gyfrifol am y fformiwla, ond mae'n seiliedig ar ddull gweithredu ar y cyd â chynrychiolwyr llywodraeth leol, er mwyn sicrhau bod consensws eang o fewn yr awdurdodau lleol, a sicrhau eu bod yn rhannu'r safbwynt hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Gwasanaethau Llywodraeth Lleol yn Cydweithio

Local Government Services Collaboration

14:40 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
8. A wnaiff y Gweinidog amlinellu enghreifftiau o arfer gorau o ran gwasanaethau llywodraeth leol yn cydweithio? OAQ(4)0262(LG)

8. Will the Minister outline examples of best practice in local government services collaboration? OAQ(4)0262(LG)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:40 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Examples of good collaborations in local government services, and across public services more widely, include the national procurement service and proposals to be delivered with support from our regional collaboration fund. Collaboration is a critical part of our reform agenda, led through the partnership council and the public service leadership group.

Mae enghreifftiau o gydweithio da mewn gwasanaethau llywodraeth leol, ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach, yn cynnwys darparu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol a chynigion drwy gymorth gan ein cronfa cydweithredu rhanbarthol. Mae cydweithio'n rhan allweddol o'n hagenda diwygio, a arweinir drwy bartneriaeth y cyngor a grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:40

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your answer. I agree that procurement is vital. However, you will know of the example this month of a plan to merge the social services departments of Blaenau Gwent and Caerphilly councils, which fell through because of a deficit in the social services budget of Blaenau Gwent County Borough Council and some possible issues surrounding equitable charges. It was an excellent plan, because I started it when I was the leader of Caerphilly council a few years ago. I understand that a review was recently announced, but, in the meantime, Minister, what practical steps are you going to take, and what assistance are you going to give, to help councils overcome these sorts of problems?

Weinidog, diolch ichi am eich ateb. Cytunaf fod caffael yn hanfodol. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol o'r enghraifft y mis hwn o gynllun i uno adrannau gwasanaethau cymdeithasol cynghorau Blaenau Gwent a Chaerffili, na fu'n llwyddiannus oherwydd diffyg yng nghyllideb gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a rhai materion posibl yn ymwneud â thaliadau teg. Roedd yn gynllun gwych, am imi ei ddechrau pan oeddwn yn arweinydd ar gyngor Caerffili ychydig flynyddoedd yn ôl. Deallaf fod adolygiad wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, ond, yn y cyfamser, Weinidog, pa gamau ymarferol y byddwch yn eu cymryd, a pha gymorth y byddwch yn ei roi, er mwyn helpu cynghorau i oresgyn y mathau hyn o broblemau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Deputy Minister for Social Services has asked her senior officials to meet to try to find out what the problems were. It is very important that we learn lessons from this. We are telling local authorities that there must be more collaboration. It was unfortunate that this got so far down the road, as you said—it was about two years in the making—only to fall. It is very important that we have these discussions. I have asked my officials to review this situation. If we are going to take the transformation and collaboration agendas forward, we need to learn lessons from this.

Gwn fod y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i'w huwch swyddogion gyfarfod i geisio nodi'r problemau. Mae'n bwysig iawn ein bod yn dysgu gwersi o hyn. Rydym yn dweud wrth awdurdodau lleol bod angen mwy o gydweithio. Mae'n drueni bod y cynllun hwn wedi mynd cyn belled, fel y dywedaso—roedd tua dwy flynedd ers ei sefydlu—dim ond i fethu. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cynnal y trafodaethau hyn. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion adolygu'r sefyllfa hon. Er mwyn inni ddatblygu'r agendâu trawsnewid a chydweithredu, mae angen inni ddysgu gwersi o hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in response to my questions on the ability to measure the success or otherwise of the collaboration agenda across Wales and to include efficiencies achieved, your predecessor said that the Welsh Government does not collate this information. In light of this oversight, how will you be measuring the success, or otherwise, of this much-hailed collaboration agenda in Wales?

Weinidog, mewn ymateb i'm cwestiynau ar y gallu i fesur llwyddiant, neu fel arall, yr agenda cydweithredu ledled Cymru ac i gynnwys effeithlonrwydd a gyflawnwyd, dywedodd eich rhagflaenydd nad yw Llywodraeth Cymru yn casglu'r wybodaeth hon. Yng ngoleuni'r amryfusedd hwn, sut y byddwch yn mesur llwyddiant, neu fel arall, yr agenda cydweithredu yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is very important that local authorities own that information. In my previous portfolio, I visited a collaborative scheme in north Wales, where all six local authorities had collaborated to buy in services for looked-after children. They were certainly able to give me the figures straight away as to what had been saved from about November to February. Local authorities will have those data, but it is certainly something that I will want to see evidence of as we go forward.

Mae'n bwysig iawn bod awdurdodau lleol yn meddu ar y wybodaeth honno. Yn fy mhortffolio blaenorol, ymwelais â chynllun cydweithredol yn y gogledd, lle roedd pob un o'r chwe awdurdod lleol wedi cydweithio i fuddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roeddent yn sicr yn gallu rhoi'r ffigurau imi ar unwaith ynghylch yr hyn a arbedwyd rhwng tua mis Tachwedd a mis Chwefror. Bydd gan awdurdodau lleol y data hynny, ond mae'n sicr yn rhywbeth y byddaf am weld tystiolaeth ohono wrth inni symud ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you will have heard that Flintshire's cabinet yesterday rejected a suggestion regarding a collaborative project over closed-circuit television funding. Much of the preparatory work was based on payments from the regional collaboration fund. Has your department undertaken any analysis of the amount of money given to local authorities for these collaborative projects, which ultimately fail at the last hurdle?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch wedi clywed bod cabinet Sir y Fflint ddoe wedi gwrthod awgrym ynglŷn â phrosiect cydweithredol i ariannu teledu cylch cyfyng. Roedd llawer o'r gwaith paratoi yn seiliedig ar daliadau o'r gronfa cydweithredu rhanbarthol. A yw eich adran wedi cynnal unrhyw ddatdamsoddiad o'r swm o arian a roddir i awdurdodau lleol ar gyfer y prosiectau cydweithredol hyn, sydd yn y pen draw yn methu ar y cam olaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I have asked my officials to look into this. What I have been saying to local authorities as I have been going around is that it is obviously very important that we do not waste any public money. However, I also do not want officials to think that they have to be safe all of the time. If we are going to have innovative collaborative schemes coming forward, we have to make sure that officials have the confidence to bring them forward. However, we have to learn lessons if something goes wrong. It is important that no money is wasted, so I have asked officials to look into this and will be happy to write to the Member in due course.</p>	<p>Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried hyn. Yr hyn rwyf wedi bod yn ei ddweud wrth awdurdodau lleol wrth ymweld â hwy yw ei bod yn amlwg yn bwysig iawn nad ydym yn gwastraffu unrhyw arian cyhoeddus. Fodd bynnag, nid wyf ychwaith am i swyddogion feddwl bod yn rhaid iddynt fod yn ddiogel drwy'r amser. Er mwyn i ni allu datblygu cynlluniau cydweithredol arloesol, rhaid inni wneud yn siŵr bod gan swyddogion yr hyder i'w datblygu. Fodd bynnag, rhaid inni ddysgu gwersi os aiff rhwbeth o'i le. Mae'n bwysig na chaiff unrhyw arian ei wastraffu, felly rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried hyn a byddaf yn fwy na pharod i ysgrifennu at yr Aelod maes o law.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cynrychiolwyr Etholedig		Elected Representatives	
14:43	<p>Christine Chapman Bywgraffiad Biography</p> <p><i>9. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu amrywiaeth cynrychiolwyr etholedig mewn llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0258(LG)</i></p>	<p><i>9. What is the Welsh Government doing to increase the diversity of elected representatives in local government in Wales? OAQ(4)0258(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:44	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>The Local Government (Wales) Measure 2011 introduced a range of provisions, which are unique to Wales, to make it easier for people to fulfil active roles as councillors.</p>	<p>Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyflwyno amrywiaeth o ddarpariaethau, sy'n unigryw i Gymru, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gyflawni rolau gweithredol fel cynghorwyr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:44	<p>Christine Chapman Bywgraffiad Biography</p> <p>You will be aware that, currently, only 26% of councillors in Wales are women. Despite an 8% increase since 1999, the rate of progress at last year's local government elections was just 1.5%. At this rate, women will not have an equal voice in Welsh local authorities until 2076. The Measure that you mentioned obviously commits to help broaden and increase participation in local government, but, in practice, Minister, what action is being taken to ensure that this is being taken forward in respect of gender equality? Will the Welsh Government be monitoring progress?</p>	<p>Byddwch yn ymwybodol mai dim ond 26% o gynghorwyr yng Nghymru sy'n fenywod ar hyn o bryd. Er gwaethaf cynnydd o 8% ers 1999, dim ond cynnydd o 1.5% a welwyd yn etholiadau llywodraeth leol y llynedd. Ar sail hynny, ni fydd gan fenywod lais cyfartal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru tan 2076. Mae'r Mesur a grybwyllwyd gennych yn amlwg yn ymrwymo i helpu i ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol, ond, yn ymarferol, Weinidog, pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod hyn yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â chydaddoldeb rhwng y rhywiau? A fydd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:44	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I certainly share your concerns about the gender inequality of elected members in local government. I want to see all elected bodies, and certainly local government, representing a very modern Wales.</p> <p>I will be making a statement on promoting local democracy, including the results from our first-ever survey of candidates and councillors in mid-May, following the local elections in Anglesey. The survey, which was introduced in the 2011 Measure, will be repeated at the next set of local government elections, and the Welsh Government will then review and monitor progress. I am very committed to promoting wider participation in local democracy and, within the Measure, steps were taken—for instance, on the timing of meetings and family leave—to ensure that we have much more diverse council members across Wales.</p>	<p>Yn sicr, rhannaf eich pryderon ynghylch anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn perthynas ag aelodau etholedig mewn llywodraeth leol. Rwyf am weld pob corff etholedig, ac yn sicr llywodraeth leol, yn cynrychioli Cymru fodern iawn.</p> <p>Byddaf yn gwneud datganiad ar hyrwyddo democratiaeth leol, gan gynnwys canlyniadau ein harolwg cyntaf erioed o ymgeiswyr a chynghorwyr ganol mis Mai, yn dilyn yr etholiadau lleol ar Ynys Môn. Caiff yr arolwg, a gyflwynwyd ym Mesur 2011, ei gynnal eto yn ystod y gyfres nesaf o etholiadau llywodraeth leol, a bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn adolygu ac yn monitro cynnydd. Rwy'n ymroddedig iawn i hyrwyddo cyfranogiad ehangach mewn democratiaeth leol ac, o fewn y Mesur, cymerwyd camau—er enghraifft, o ran amseru cyfarfodydd a gwyliau teuluol—i sicrhau bod gennym aelodau cyngor mwy amrywiol ledled Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:45 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, according to the Equality and Human Rights Commission, less than 1% of councillors had an ethnic minority background in 2004. One reason for this is a lack of understanding and awareness of how local government works, which acts as a disincentive to those who might otherwise wish to serve as councillors. What is the Welsh Government doing in conjunction with local authorities to promote greater numbers of councillors from ethnic minority backgrounds?
- Weinidog, yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, roedd llai nag 1% o gynghorwyr yn perthyn i gefndir lleiafrifol ethnig yn 2004. Un rheswm dros hyn yw diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithio, sy'n atal y rheini a allai fel arall fod am wasanaethu fel cynghorwyr. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar y cyd ag awdurdodau lleol i ddenu mwy o gynghorwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig?
- 14:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I share your concerns about that, and I will look at the results in the survey of candidates and councillors over the next month. Certainly, we need to look at promoting wider participation among the ethnic minority groups.
- Rhannaf eich pryderon ynghylch hynny, a byddaf yn ystyried canlyniadau'r arolwg o ymgeiswyr a chynghorwyr yn ystod y mis nesaf. Yn sicr, mae angen inni geisio hyrwyddo cyfranogiad ehangach ymysg grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- 14:46 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae diddordeb gennyf mewn deall beth y medrai Llywodraeth Cymru ei wneud i newid agweddau'r rheiny sydd wedi cael eu hethol yn barod. Rwy'n meddwl yn benodol am gynghorydd Plaid Cymru yn fy ardal i nad yw eto'n 30 oed sy'n cael ei galw yn 'That little girl' gan gydweithwyr o bleidiau eraill sy'n llawer yn hŷn na hi—nid oes syrpreis yn hynny. A ydych yn cytuno â mi fod nifer o gynghorwyr yn trin awdurdodau lleol fel clybiau preifat i ddynion o oedran penodol? Sut y medrwn felly newid yr hinsawdd er mwyn i fwy o fenywod deimlo'n gyffyrddus am gael eu hethol a theimlo bod eu barn yr un mor bwysig â barn pawb arall yn y siambr?
- I would be interested to learn what the Welsh Government could do to change attitudes of those already elected. I am thinking specifically of a Plaid Cymru councillor in my own area who is not yet 30 years of age and who is called 'That little girl' by colleagues from other parties who are much older than her—there is no surprise there. Do you agree with me that many councillors treat local authorities as private clubs for me of a particular age? How can we therefore change the climate in order for more women to feel comfortable in being elected and feel that their opinions are just as valued as those of everyone else in the chamber?
- 14:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very sorry to hear of that experience: it is completely intolerable. I have to say that, as I have been going round, I have met the cabinet members of Cardiff, and I was very pleased to see that it has several young members. Certainly, if we are going to encourage more young members and more female councillors to come forward, we have to make sure that we have much more flexible arrangements to accommodate them. I mentioned the timings of meetings; if people have young families, it is important that those meetings are timed to suit them, and the same is true for people in full-time employment, because councillors can often be retired people, as they are the people who feel that they have the time for it. You are right, though; it is something that has to be changed from within, and I do see that change coming, but it is something that I would want to encourage at a much faster pace.
- Mae'n ddrwg iawn gennyf glywed am y profiad hwnnw: mae'n gwbl annerbyniol. Rhaid imi ddweud, wrth imi deithio o amgylch yr awdurdodau lleol, rwyf wedi cyfarfod ag aelodau cabinet Caerdydd, ac roeddwn yn falch iawn o weld nifer o aelodau ifanc yno. Yn sicr, er mwyn annog mwy o aelodau ifanc a mwy o gynghorwyr benywaidd, rhaid inni sicrhau bod gennym drefniadau llawer mwy hyblyg ar eu cyfer. Soniais am amseru cyfarfodydd; os oes gan bobl deuluoedd ifanc, mae'n bwysig bod y cyfarfodydd hynny yn cael eu cynnal ar adegau sy'n addas iddynt, ac mae'r un peth yn wir am bobl mewn cyflogaeth llawn amser, oherwydd gall cynghorwyr yn aml fod yn bobl sydd wedi ymddeol, gan mai nhw yw'r bobl sy'n teimlo bod ganddynt yr amser ar gyfer hynny. Ond rydych yn iawn; mae'n rhywbeth y mae'n rhaid ei newid yn fewnol, a gallaf ragweld y newid hwnnw, ond mae'n rhywbeth y byddwn am ei annog yn llawer cynt.
- Gwerth am Arian** **Value for Money**
- 14:48 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwerth am arian a gyflawnir gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0268(LG)*
- 10. Will the Minister make a statement on the delivery of value for money by local authorities in North Wales? OAQ(4)0268(LG)*

14:48	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>There are clear duties on local authorities to achieve best value for money in delivering and improving the services that they are responsible for. To support this, I have provided a fair and realistic settlement in difficult financial circumstances.</p>	<p>Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau clir i gyflawni gwerth gorau am arian wrth ddarparu a gwella'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Er mwyn cefnogi hyn, rwyf wedi darparu setliad teg a realistig o dan amgylchiadau ariannol anodd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:48	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. One of the most important ways that local authorities can deliver value for money in their spending will be through local procurement and the multiplier effect that this spending has in the local economy. Do you share my concern that no local authority in north Wales has adopted your Government's procurement policy, and that none is currently doing so? What steps will you take, with your Cabinet colleagues, to ensure that local businesses in north Wales are fully able to compete for local authority contracts?</p>	<p>Diolch, Weinidog. Un o'r ffyrdd pwysicaf y gall awdurdodau lleol sicrhau gwerth am arian o ran eu gwariant fydd drwy gaffael yn lleol ac effaith lluosydd y gwariant hwn ar yr economi leol. A ydych yn rhannu fy mhryder nad oes unrhyw awdurdod lleol yn y gogledd wedi mabwysiadu polisi caffael eich Llywodraeth, ac nad oes unrhyw un ohonynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd, gyda'ch cyd-aelodau yn y Cabinet, i sicrhau bod busnesau lleol yn y gogledd yn gallu cystadlu am gontractau awdurdod lleol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>My understanding is that all local authorities have signed up to our procurement policy. In fact, I have just heard the Minister for Finance answer that question in her question session.</p>	<p>Deallaf fod pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i'n polisi caffael. Yn wir, rwyf newydd glywed y Gweinidog Cyllid yn ateb y cwestiwn hwnnw yn ei sesiwn gwestiynau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Llyr Huws Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Byddwn yn ategu'r sylw bod cael polisi caffael cyhoeddus yn iawn yn un ffordd bwysig o sicrhau'r gwerth gorau posibl o bob punt sy'n cael ei gwario yn y modd hwnnw. Pa drafodaethau a ydych chi, fel Gweinidog llywodraeth leol, sy'n allweddol yn y cyd-destun hwn, wedi eu cael gyda'r Gweinidog Cyllid ynglŷn â dod â Bil caffael cyhoeddus gerbron y Senedd?</p>	<p>I would endorse the comment that getting public procurement right is one important way of ensuring best value for every pound spent in that way. As the Minister for local government, which is crucial in this context, what discussions have you had with the Minister for Finance on bringing a public procurement Bill before the Senedd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I have met with the Minister for Finance on two or three occasions since I have been in this post, and that is not an issue that we have discussed, although I think that it will probably be on the next agenda.</p>	<p>Cyfarfûm â'r Gweinidog Cyllid ar ddau neu dri achlysur ers imi fod yn y swydd hon, ac nid yw hynny'n fater yr ydym wedi'i drafod, ond mae'n debyg y bydd ar yr agenda nesaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Tâl Uwch-swyddogion		Senior Officer Remuneration	
14:50	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am tâl uwch-swyddogion mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0261(LG)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on senior officer remuneration in local government? OAQ(4)0261(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:50	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Local authority pay is a matter for each authority and they are accountable to their local electorates for the decisions that they take.</p>	<p>Mae tâl awdurdodau lleol yn fater i bob awdurdod ac maent yn atebol i'w hetholwyr lleol am y penderfyniadau a wnânt.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:50	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Mae rhai uwch-swyddogion yng Nghymru yn derbyn tâl ychwanegol ar ben y cyflogau hael iawn y maen nhw'n eu derbyn i fod yn gyfrifol am etholiadau. A fydddech yn cymeradwyo'r system sy'n bodoli yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe lle mae'r prif weithredwr yn cynnwys y cyfrifoldebau am arolygu etholiadau o fewn ei ddisgrifiad gwaith? Ai dyna'r model ar gyfer Cymru gyfan yn eich barn chi?</p>	<p>Some senior officers in Wales are in receipt of additional payments, on top of the generous salaries that they receive, as recompense for being responsible for elections. Would you commend the system that exists in the City and County of Swansea Council where the chief executive includes the responsibilities for overseeing elections within his job description? Is that the model for the rest of Wales in your view?</p>
14:50	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I know that this something that Members have raised during the passage of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill and it is certainly something that we can look at as we go into Stage 2.</p>	<p>Gwn fod hyn yn rhywbeth a godwyd gan Aelodau wrth basio Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) ac mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn ei ystyried wrth inni fynd ymlaen i Gyfnod 2.</p>
14:50	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, the Local Government (Wales) Measure 2011 and the Local Government (Democracy) (Wales) Bill do not go far enough in many people's opinion to foster openness, transparency and, above all, accountability to the electorate, in particular as regards what has been mentioned previously, that is, the remuneration of chief executive officers across the piste in local authorities in Wales. In research carried out, some of the highest remunerations that I have seen are in Carmarthenshire, where the chief executive officer received £185,000 and six further authorities have paid their chief executives over £140,000 in 2012-13. Minister, when other councils, such as Monmouthshire, are keeping chief executive pay more realistic, will you acknowledge that excessively high remuneration for senior officers is simply unsustainable for tax payers in Wales?</p>	<p>Weinidog, nid yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) yn mynd yn ddigon pell ym marn llawer o bobl i feithrin didwylledd a thryloywder ac, yn anad dim, atebolrwydd i'r etholwyr, yn enwedig o ran yr hyn a grybwyllwyd yn flaenorol, hynny yw, tâl prif swyddogion gweithredol yn gyffredinol mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mewn ymchwil a wnaed, mae rhai o'r taliadau uchaf yr wyf wedi eu gweld yn Sir Gaerfyrddin, lle roedd y prif swyddog gweithredol yn cael £185,000 ac mae chwe awdurdod arall wedi talu dros £140,000 i'w prif weithredwyr yn ystod 2012-13. Weinidog, pan fo cyngorau eraill, fel Sir Fynwy, yn talu swm mwy realistig i brif weithredwyr, a fyddwch yn cydnabod bod talu gormod i uwch swyddogion, yn syml, yn anghynaliadwy i drethdalwyr yng Nghymru?</p>
14:52	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I believe that local authorities should be accountable to their local people for the decisions that they make. That includes decisions about the remuneration of their most senior staff. Authorities need to be able to justify these decisions in terms of value for money, but they also have to be mindful of the financial climate within which they are working.</p>	<p>Credaf y dylai awdurdodau lleol fod yn atebol i'w pobl leol am y penderfyniadau a wnânt. Mae hynny'n cynnwys penderfyniadau am dâl eu haelodau uchaf o staff. Mae angen i awdurdodau allu cyfiawnhau'r penderfyniadau hyn o ran gwerth am arian, ond rhaid iddynt hefyd ystyried yr hinsawdd ariannol y maent yn gweithio ynddo.</p>
	Strwythurau Llywodraethu Awdurdodau Lleol	The Governance of Local Authorities
14:52	Ieuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strwythurau llywodraethu awdurdodau lleol? OAQ(4)0257(LG)</p>	<p>12. Will the Minister make a statement on the governance of local authorities? OAQ(4)0257(LG)</p>
14:52	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Local authorities are required to ensure that their governance arrangements are in line with relevant statutory provisions.</p>	<p>Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn unol â darpariaethau statudol perthnasol.</p>

14:52	Iuan Wyn Jones Bywgraffiad Biography Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Lle mae problemau wedi bod yn y gorffennol gyda strwythur llywodraethu cynghorau—wrth gwrs, dyna un o'r rhesymau pam y galwyd y comisiynwyr i mewn i Ynys Môn—onid yr hyn sydd ei angen rwan yw arweiniad clir, gwleidyddol a sefydlog dros y blynyddoedd nesaf? Mewn gwirionedd, ni all cynghorwyr annibynnol wneud hynny. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cymryd y cyfle hefyd i ddymuno'n dda i ymgeiswyr gwych Plaid Cymru yn yr etholiad ddydd lau nesaf. [Laughter.]	I thank the Minister for that response. Where there have been problems in the past with the governance structures of councils—of course, that is one of the reasons why the commissioners were called in to Anglesey—is what we require now not clear, political and stable leadership over the next few years? In reality, independent councillors cannot provide that stability. I am sure that the Minister would take this opportunity to wish the excellent Plaid Cymru candidates well in next Thursday's election. [Laughter.]	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I am sure that you will not mind if I do not take up that kind offer. I very much welcomed the First Minister's announcement on the establishment of the public service commission, which fulfils our programme for government commitment to review the governance of public services in Wales. That is very timely, particularly in the current financial climate.	Rwy'n siŵr na fydd ots gennych os na dderbyniaf y cynnig caredig hwnnw. Croesewais yn fawr iawn gyhoeddiad y Prif Weinidog ynghylch sefydlu'r comisiwn gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cyflawni ymrwymiad ein rhaglen lywodraethu i adolygu'r gwaith o lywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hynny'n amserol iawn, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.	Senedd.tv Fideo Video
14:53	William Graham Bywgraffiad Biography Your predecessor was quite keen to promote joint appointments. That does not seem to have been very successful. Are you minded to introduce any more directives in that respect?	Roedd eich rhagflaenydd yn eithaf awyddus i hyrwyddo penodiadau ar y cyd. Nid ymddengys i hynny fod yn llwyddiannus iawn. A fydddech yn ystyried cyflwyno rhagor o gyfarwydddebau yn hynny o beth?	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography It is certainly something that I am looking at. I have asked my officials to give me a briefing on that. I know that it was something that Carl Sargent was very keen on. As you say, I do not think that it has been particularly successful, but it is something that I will have to consider in due course.	Mae'n sicr yn rhywbeth yr wyf yn ei ystyried. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion fy mriaffio ynghylch hynny. Gwn ei fod yn rhywbeth yr oedd Carl Sargent yn awyddus iawn i'w wneud. Fel y dywedwch, ni fu'n llwyddiannus iawn, ond mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid imi ei ystyried maes o law.	Senedd.tv Fideo Video
14:54	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Question 13, OAQ(4)0263(LG), was withdrawn.	Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ (4) 0263 (LG), yn ôl.	Senedd.tv Fideo Video
Gwasanaethau Tân ac Achub		Fire and Rescue Services	
14:54	Keith Davies Bywgraffiad Biography <i>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfrifoldebau gweithredol gwasanaethau tân ac achub ledled Cymru? OAQ(4)0269(LG)</i>	<i>14. Will the Minister make a statement on the operational responsibilities of fire and rescue services across Wales? OAQ(4)0269(LG)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:54	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Fire and rescue authorities are autonomous, independent bodies and, as such, it is for them to determine operational matters, including how they assess risk and provide services in their geographical area.	Mae awdurdodau tân ac achub yn gyrrff ymreolaethol, annibynnol ac, fel y cyfryw, mater iddynt hwy yw penderfynu ar faterion gweithredol, gan gynnwys sut maent yn asesu risg ac yn darparu gwasanaethau yn eu hardal ddaearyddol.	Senedd.tv Fideo Video

14:54 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that. As you are aware, an extraordinary meeting of the Mid and West Wales Fire and Rescue Authority was called last week. Many authority members felt dismayed that they had not been adequately consulted on the Llanelli shift changes and wished to conduct proper scrutiny. Although the motion was not passed due to opposition from Plaid Cymru, the Tories, independents and the Liberal Democrats, the chair—a Plaid councillor—questioned how binding a successful motion would have been on the management of the authority. Clearly, this is not conducive to fire authority members playing an effective role. Minister, will you agree that decisions taken by such authorities should be in the interests of its workers and public safety, and that due weight should be given to the views of its members as they represent the majority?

Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, galwyd cyfarfod arbennig o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yr wythnos ddiwethaf. Roedd sawl aelod o'r awdurdod yn siomedig nad ymgynghorwyd â hwy'n ddigonol ar y newidiadau sifft yn Llanelli ac yn dymuno cynnal gwaith craffu priodol. Er na chafodd y cynnig ei basio oherwydd gwrthwynebiad gan Blaid Cymru, y Torïaid, yr aelodau annibynnol a'r Democratiaid Rhyddfrydol, holodd y cadeirydd—un o gynghorwyr Plaid—pa mor rhwymol y byddai cynnig llwyddiannus wedi bod ar reolwyr yr awdurdod. Yn amlwg, nid yw hyn yn helpu aelodau awdurdod tân i chwarae rôl effeithiol. Weinidog, a fyddwch yn cytuno y dylai penderfyniadau a wneir gan awdurdodau o'r fath fod er budd ei weithwyr a diogelwch y cyhoedd, ac y dylid rhoi sylw dyledus i safbwyntiau ei aelodau gan eu bod yn cynrychioli'r mwyafrif?

14:55 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, the fire and rescue authority has the authority to make all appropriate decisions concerning the functions of the FRA within the relevant legal framework. It could authorise its chief fire officer or any other employee to make such decisions, and if it disagrees with the chief fire officer's decision, obviously it can decide to overrule it. The fire and rescue national framework for 2012 onwards states that the FRAs are still required to undertake mechanisms to identify and plan on the basis of reducing risk to their citizens and communities.

Oes, mae gan yr awdurdod tân ac achub yr awdurdod i wneud yr holl benderfyniadau priodol sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Awdurdod Tân ac Achub o fewn y fframwaith cyfreithiol perthnasol. Gallai awdurdodi ei brif swyddog tân neu unrhyw gyflogai arall i wneud penderfyniadau o'r fath, ac os yw'n anghytuno â phenderfyniad y prif swyddog tân, yn amlwg gall benderfynu ei wrthod. Mae'r fframwaith tân ac achub cenedlaethol ar gyfer 2012 ymlaen yn nodi ei bod yn dal yn ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub ymgymryd â ffyrdd o nodi a chynllunio er mwyn lleihau risg i'w dinasyddion a chymunedau.

14:55 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, a ydych yn cytuno y dylai diffoddwyr tân cymwys gyda blynyddoedd lawer o brofiad gweithredol ddod mas o'r swyddfeydd achos maen nhw'n gwasanaethu'r cyhoedd yn well ar y rheng flaen?

Minister, do you agree that qualified firefighters with many years of active service should actually serve the public on the front line rather than in the back office?

14:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is something that, again, I need to look at. I presume that you are referring to the home safety checks, and that is something that I have asked my officials to give me a briefing on.

Unwaith eto, mae'n rhywbeth y mae angen i mi ei ystyried. Rwy'n cymryd eich bod yn cyfeirio at y gwiriadau diogelwch yn y cartref, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion fy mriffio yn ei gylch.

Perfformiad Llywodraeth Leol

Local Government Performance

14:56 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gwella perfformiad llywodraeth leol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0267(LG)

15. Will the Minister outline her priorities for improving local government performance in North Wales? OAQ(4)0267(LG)

14:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Local government provides good services across north Wales. For example, Conwy has the lowest rate of delayed transfers of care in Wales, and Gwynedd has the best performance at key stage 4. However, I am aware that there is no room for complacency. All authorities must strive for continuous improvement in their performance.

Mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau da ym mhob rhan o'r gogledd. Er enghraifft, Conwy sydd â'r gyfradd isaf o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru, a Gwynedd sydd â'r cyfraddau perfformio gorau yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, gwn nad oes lle i fod yn hunanfodlon. Rhaid i bob awdurdod geisio gwella ei berfformiad yn barhaus.

14:56	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, thank you for that answer. One of the most important ways that councils in north Wales will be able to improve their performance will be through delivering better value for money. Can you confirm what steps you are taking to share the best practices of Conservative-run Monmouthshire County Council, which has delivered a council tax freeze for residents by capping chief executive pay, reducing senior management and working collaboratively with neighbouring authorities? Would you agree that the adoption of similar best practice in north Wales would be a welcome development?</p>	<p>Weinidog, diolch i chi am yr ateb hwnnw. Un o'r ffyrdd pwysicaf y gall cynghorau yn y gogledd wella eu perfformiad fydd drwy ddarparu gwerth gwell am arian. A allwch gadarnhau pa gamau yr ydych yn eu cymryd i rannu arferion gorau Cyngor Sir Fynwy dan reolaeth y Ceidwadwyr, sydd wedi rhewi'r dreth gyngor i breswylwyr drwy gapio cyflogau prif weithredwyr, lleihau uwch reolwyr a chydweithio ag awdurdodau cyfagos? A fydddech yn cytuno y byddai mabwysiadu arfer gorau tebyg yn y gogledd yn ddatblygiad i'w groesawu?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:57	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I am very keen to see best practice rolled out right across Wales. You will be aware that, in my previous portfolio of health, I set up a best practice and innovation board because I was so impressed by some best practice that you did not see elsewhere. It is a message that I am giving to all local authority leaders and chief executives. I am even saying that it is one thing that you can steal.</p>	<p>Rwy'n awyddus iawn i weld arfer gorau'n cael ei gyflwyno ledled Cymru. Byddwch yn ymwybodol fy mod, fel rhan o'm portffolio iechyd blaenorol, wedi sefydlu bwrdd arfer gorau ac arloesi gan fod rhai enghreifftiau o arfer gorau nas gwelwyd mewn manau eraill wedi creu cymaint o argraff arnaf. Mae'n neges yr wyf yn ei chyfleu i bob arweinydd awdurdod lleol a phrif weithredwr. Byddwn hyd yn oed yn dweud ei bod yn un peth y gallwch ei ddwyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:57	<p>Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>No questions have been tabled.</p>	<p>Questions to the Assembly Commission</p> <p>Nid oes unrhyw gwestiynau wedi'u cyflwyno.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
14:57	<p>Cwestiwn Brys: Amseroedd Ymateb Ambiwylans</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66. I call on Kirsty Williams to ask the urgent question.</p> <p><i>A wnaiff y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad brys ar amseroedd ymateb Gwasanaeth Ambiwylans Cymru? EAQ(4)0265(HSS)</i></p>	<p>Urgent Question: Ambulance Response Times</p> <p>Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Kirsty Williams i ofyn y cwestiwn brys.</p> <p><i>Will the Health Minister make an urgent statement about the Welsh Ambulance Service response times? EAQ(4)0265(HSS)</i></p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
14:58	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i></p> <p>The concerns that led my predecessor to commission a review of the Welsh ambulance service are further underlined by the response times achieved in March. The McClelland review has now been completed and I intend to use its recommendations to secure significant and necessary improvements for the future.</p>	<p>Caiff y pryderon a arweiniodd fy rhagflaenydd i gomisiynu adolygiad o wasanaeth ambiwlans Cymru eu tanlinellu ymhellach gan yr amseroedd ymateb a gyflawnwyd ym mis Mawrth. Mae adolygiad McClelland bellach wedi ei gwblhau ac rwy'n bwriadu defnyddio ei argymhellion i sicrhau gwelliannau sylweddol ac angenrheidiol ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:58

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his answer. The figures released today show that in not a single area in Wales has the Welsh Ambulance Services NHS Trust reached the Welsh Government's own targets. In Flintshire, Bridgend, Rhondda Cynon Taf, Caerphilly, Torfaen and Merthyr Tydfil, less than half of ambulances responding to emergency category A calls got there within eight minutes. Notwithstanding yet another review of the ambulance service, and your attempts to address delayed transfers of care yesterday, when will Welsh patients be assured that, when they ring 999 for a category A call, the ambulance will get to them within eight minutes?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Mae'r ffigurau a ryddhawyd heddiw yn dangos nad yw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ei hun mewn un ardal yng Nghymru. Yn Sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Torfaen a Merthyr Tudful, roedd llai na hanner yr ambiwlansys a oedd yn ymateb i alwadau brys categori A wedi cyrraedd o fewn wyth munud. Er gwaethaf adolygiad arall eto o'r gwasanaeth ambiwlans, a'ch ymdrechion ddoe i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, pryd y caiff cleifion o Gymru y sicrwydd, pan fyddant yn ffonio 999 ar gyfer galwad categori A, y bydd yr ambiwlans yn eu cyrraedd o fewn wyth munud?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Member has said, I announced a series of measures yesterday that will address the ambulance contribution to unscheduled care in Wales. We will use the McClelland review to build further on those announcements. I am as concerned as she is to ensure that Welsh patients get the service that they need from our ambulance service.

Fel y dywedodd yr Aelod, cyhoeddais gyfres o fesurau ddoe a fydd yn mynd i'r afael â chyfraniad ambiwlansys i ofal heb ei drefnu yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio adolygiad McClelland i adeiladu ymhellach ar y cyhoeddiadau hynny. Rwyf yr un mor bryderus â hi i sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt gan ein gwasanaeth ambiwlans.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, do you accept that this is not just a problem for the ambulance service, but one of the symptoms of the crisis that we have in our emergency care system in Wales? Will you also accept that the reorganisation proposals coming forward in some parts of the country, which will result in the closure of minor injuries units and community hospitals and the loss of opportunity for people to present at those places, rather than at accident and emergency departments, will put further pressure on the ambulance service. Your predecessor released extra resources for local health boards to respond to the unprecedented demands in unscheduled care in November of last year. However, there were no such extra resources released to the ambulance service, which was also having to deal with those unprecedented demands. Will you look at your resources to see whether you can make extra finance available to the service to meet the pressures that it now faces?

Weinidog, a dderbyniwch nad problem i'r gwasanaeth ambiwlans yn unig yw hyn. Mae hefyd yn un o symptomau'r argyfwng sydd gennym yn ein system gofal brys yng Nghymru? A wnewch chi hefyd dderbyn y bydd y cynigion ad-drefnu a gyflwynir mewn rhai rhannau o'r wlad, a fydd yn arwain at gau unedau mân anafiadau ac ysbytai cymunedol a'r cyfle a gollir i bobl fynd i'r lleoedd hynny, yn hytrach nag adrannau damweiniau ac achosion brys, yn rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Rhyddhaodd eich rhagflaenydd adnoddau ychwanegol i fyrddau iechyd lleol er mwyn iddynt ymateb i ofynion digynsail mewn gofal heb ei drefnu ym mis Tachwedd y llynedd. Fodd bynnag, ni ryddhawyd unrhyw adnoddau ychwanegol o'r fath i'r gwasanaeth ambiwlans, a oedd hefyd yn gorfod delio â'r galwadau digynsail hynny. A wnewch chi edrych ar eich adnoddau i weld a allwch sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i'r gwasanaeth i ymdopi â'r pwysau y mae bellach yn ei wynebu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I fully accept what the Member has said, and I think that I said myself yesterday that improvements in the Welsh ambulance service are intrinsically bound up with what we can do to improve unscheduled care as a whole. The contribution that ambulance services make to the reconfiguration of services is also intrinsic to the way in which those reforms have to be taken forward. The McClelland review reflects on resources, and I will be reading that part of the report as closely as I read any other.

Rwy'n derbyn yn llwyr yr hyn a ddywedodd yr Aelod, a chredaf imi ddweud ddoe bod gwelliannau yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru yn rhan annatod o'r hyn y gallwn ei wneud i wella gofal heb ei drefnu yn gyffredinol. Mae'r cyfraniad a wna'r gwasanaethau ambiwlans i ad-drefnu gwasanaethau hefyd yn rhan annatod o'r ffordd y mae'n rhaid gweithredu ar y diwygiadau hynny. Mae adolygiad McClelland yn ystyried adnoddau, a byddaf yn darllen y rhan honno o'r adroddiad mor fanwl ag y byddaf yn darllen unrhyw adroddiad arall.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:01 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r argyfwng yn y gwasanaeth ambiwlans mor ddwfn a difrifol erbyn hyn, rwy'n clywed bod achosion wedi codi yn ysbyty Bronglais lle mae cleifion mewn argyfwng wedi cael eu trosglwyddo oddi yno i ysbyty Glangwili mewn ceir preifat, gyda doctor yn y car, oherwydd na fyddai ambiwlans ar gael yn ddigon cyflym i'r claf. A wnewch chi gadarnhau bod hyn yn arferiad annerbyniol? A wnewch chi ofyn hefyd i'r byrddau iechyd a'r gwasanaeth ambiwlans sicrhau bod cynlluniau yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn digwydd?
- The crisis in the ambulance service is so deep and serious now, that I hear that cases have arisen in Bronglais hospital where patients in crisis have been transferred to Glangwili hospital in private cars, with a doctor in the car, because an ambulance would not be available quickly enough for the patient. Will you confirm that this is an unacceptable practice? Will you also ask the health boards and the ambulance service to ensure that plans are in place to ensure that this does not occur?
- 15:01 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I was not directly aware of the example that the Member has just outlined. It is, I am sure, highly unusual. The specific point that she makes is one that I share. To secure a better result in the Welsh ambulance service, as part of unscheduled care, it is essential that the Welsh Ambulance Services NHS Trust and the LHBs regard the solution to these difficulties as something that they share. I am not satisfied with a situation where one side of this equation is able to point to the other as being the cause of the problem. They have to work together to provide a common solution. That is why I required the letters that were received recently, setting out immediate steps, to be jointly signed by the local health board and by a senior member of the Welsh Ambulance Services NHS Trust.
- Nid oeddwn yn uniongyrchol ymwybodol o'r enghraifft y mae'r Aelod newydd ei chrybwyll. Mae'n anarferol iawn, mae'n siŵr gennyf. Mae'r pwynt penodol a wna yn un a rannaf. Er mwyn sicrhau canlyniad gwell yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru, fel rhan o ofal heb ei drefnu, mae'n hanfodol bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn ystyried yr ateb i'r anawsterau hyn fel rhywbeth a rennir ganddynt. Nid wyf yn fodlon ar sefyllfa lle mae'r naill ochr yn gallu cyfeirio at y llall fel achos y broblem. Rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd i ddarparu ateb cyffredin. Dyna pam y gofynnais am y llythyrau a gafodd eu derbyn yn ddiweddar, yn nodi camau uniongyrchol i'w cymryd, i'w llofnodi ar y cyd gan y bwrdd iechyd lleol a chan uwch aelod o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.
- 15:02 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I welcome your commitment to change. Last month, when the figures came out, I consoled myself that at least the figures would not get any worse, but this month the figures are, in fact, worse, and my constituency has some of the worst response times in the whole of Wales, and it appears that some of the poorest areas are the worst affected. What I would like you to look at in particular, Minister, is the way that you analyse the McClelland report. We need much more solid response analysis. The figures we have at the moment are crude and do not really tell us what the picture is, only that it is bad. It is very important to meet the ambulance staff and their trade unions to find out from them what is happening at the coal face.
- Weinidog, croesawaf eich ymrwymiad i newid. Fis diwethaf, pan gyhoeddwyd y ffigurau, cysurais fy hun na fyddai'r ffigurau yn mynd yn waeth o leiaf, ond y mis hwn mae'r ffigurau, mewn gwirionedd, yn waeth, ac mae gan fy etholaeth rai o'r amseroedd ymateb gwaethaf yng Nghymru gyfan, ac ymddengys mai rhai o'r ardaloedd tlotaf yw'r rhai yr effeithiwyd fwyaf arnynt. Yr hyn yr hoffwn ichi edrych arno yn arbennig, Weinidog, yw'r ffordd rydych yn dadansoddi adroddiad McClelland. Ffigurau bras yw'r rhai sydd gennym ar hyn o bryd ac nid ydynt yn dweud wrthym beth yw'r darlun mewn gwirionedd, dim ond ei fod yn wael. Mae'n bwysig iawn cwrdd â staff ambiwlansys a'u hundebau llafur i ganfod beth sy'n digwydd ar lawr gwlad.
- 15:03 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member has been assiduous in pursuing the local concerns, which he rightly has, about the performance of ambulance services in his constituency. I had an opportunity earlier to share some of those concerns with him. He is absolutely right that understanding the data, and knowing that we have the necessary data and that we are analysing it comprehensively, lies at the root of making improvements. I know that Professor McClelland, in carrying out her review, talked directly with trade unions and individuals who work for the ambulance service. As a result, I think, she shares your view that, if you want to understand some of the intricacies of what goes on in providing these services, it is really important to discuss with and involve in shaping a solution those people who are involved, day-in, day-out, in providing these services.
- Bu'r Aelod yn gweithio'n ddiwyd i fynd ar drywydd y pryderon lleol, sydd ganddo, a hynny'n briodol, am berfformiad y gwasanaethau ambiwlans yn ei etholaeth. Cefais gyfle yn gynharach i rannu rhai o'r pryderon hynny ag ef. Mae'n hollol iawn i ddweud bod deall y data, a gwybod bod gennym y data angenrheidiol a'n bod yn ei ddadansoddi'n gynhwysfawr, wrth wraidd gwneud gwelliannau. Gwn fod yr Athro McClelland, wrth gynnal ei hadolygiad, wedi siarad yn uniongyrchol ag undebau llafur ac unigolion sy'n gweithio i'r gwasanaeth ambiwlans. O ganlyniad, mae'n rhannu eich barn chi, fe gredaf, sef os ydych am ddeall rhai o'r pethau cymhleth sy'n digwydd wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, mae'n wirioneddol bwysig trafod â'r bobl hynny sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau hyn o ddydd i ddydd, a'u cynnwys yn y gwaith o hyd i ddatrysiaid.

- 15:04 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- This evening, I shall be attending a meeting at the village of Colwinston specifically on ambulance and health response times, along with your colleague sitting to your right. The simple question that will come from everyone in that room will be: when are ambulance response times going to improve? A succession of Ministers for health have spoken eloquently about their desire to improve ambulance response times, and we have had, I think, eight reviews since the Assembly was set up. Therefore, the very simple question to you, Minister, is: when will ambulance response times improve here in Wales and hit the Government's targets?
- Heno, byddaf yn mynychu cyfarfod ym mhentref Tregolwyn yn benodol ar amseroedd ymateb ambiwlansys iechyd, ynghyd â'ch cyd-Aelod sy'n eistedd ar y dde i chi. Y cwestiwn syml y bydd pawb yn ei ofyn yn yr ystafell honno fydd: pryd mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn mynd i wella? Mae Gweinidogion iechyd niferus wedi sôn yn huawdl am eu dymuniad i wella amseroedd ymateb ambiwlansys, ac rydym wedi cael, fe gredaf, wyth adolygiad ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Felly, y cwestiwn syml iawn i chi, Weinidog yw: pryd y bydd amseroedd ymateb ambiwlansys yn gwella yma yng Nghymru ac yn cyrraedd targedau'r Llywodraeth?
- 15:05 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I understand the points that the Member makes about the history of difficulties in relation to the ambulance service. I can only repeat what I said to Kirsty Williams earlier. The measures that I set out yesterday include some immediate steps to bring about improvement. I want to respond to the McClelland review as rapidly as I can, within the parameters of making sure that all those who have a contribution to make in commenting on it and helping us to shape the future—including in the debate that we will hold here on 7 May—will also contribute to bringing about the necessary and important changes that we want to see so that people in Wales have the confidence, which you pointed to, of knowing that they are receiving a service that meets their needs.
- Deallaf y pwyntiau a wna'r Aelod am hanes yr anawsterau mewn perthynas â'r gwasanaeth ambiwlans. Gallaf ond ailadrodd yr hyn a ddywedodd Kirsty Williams yn gynharach. Mae'r mesurau a nodais ddoe yn cynnwys rhai camau uniongyrchol i sicrhau gwelliant. Rwyf am ymateb i adolygiad McClelland mor gyflym ag y gallaf, ond gan sicrhau y bydd pawb sydd â chyfraniad i'w wneud drwy roi sylwadau arno a'n helpu i lunio'r dyfodol—yn cynnwys yn y ddadl y byddwn yn ei chynnal yma ar 7 Mai—hefyd yn cyfrannu at sicrhau'r newidiadau angenrheidiol a phwysig rydym am eu gweld fel bod gan bobl yng Nghymru yr hyder, y gwnaethoch gyfeirio ato, o wybod eu bod yn cael gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion.
- 15:06 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*
- Minister, Rhondda Cynon Taf has the worst area statistics, with 42.1% of ambulances reaching their destination within the target time. Will you now accept that, given that we are in an area with such a poor ambulance service and an area with low car-ownership, the situation could well be exacerbated by closing the local accident and emergency service at the Royal Glamorgan Hospital? You said that ambulance services are intrinsic to reconfiguration. Will you now undertake to put transport access questions at the very heart of your reconfiguration policies?
- Weinidog, Rhondda Cynon Taf sydd â'r ystadegau ardal gwaethaf, gyda 42.1% o ambiwlansys yn cyrraedd eu cyrchfan o fewn yr amser targed. A dderbyniwch yn awr, o gofio ein bod mewn ardal gyda gwasanaeth ambiwlans mor wael ac ardal lle nad oes llawer o bobl yn berchen ar gar, y gallai cau'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys lleol yn Ysbyty Brenhinol Mogrannwg waethygu'r sefyllfa? Dywedasoed fod gwasanaethau ambiwlans yn rhan annatod o ad-drefnu. A wnewch chi addo yn awr roi cwestiynau am fynediad i drafnidiaeth wrth wraidd eich polisiâu ad-drefnu?
- 15:07 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I think that the Member makes a series of connections that are premature and in advance of the facts, and I am not able to follow her in that way. I do agree with her general final point that access arrangements, including transport, are fundamental to the reforms that we need to bring about with regard to access to services.
- Credaf fod yr Aelod yn gwneud cyfres o gysylltiadau sy'n gynamserol a chyn inni gael y ffeithiau, ac ni allaf ei dilyn yn y ffordd honno. Cytunaf â'i phwynt olaf cyffredinol fod trefniadau mynediad, gan gynnwys trafnidiaeth, yn sylfaenol i'r diwygiadau y mae angen inni eu gwneud o ran mynediad i wasanaethau.
- 15:07 **Datganiad gan y Llywydd** [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I would like to announce the result of the legislative ballot held today. I am pleased to announce that Darren Millar may seek the Assembly's agreement to introduce a Member-proposed holiday caravan park (Wales) Bill.
- Statement by the Presiding Officer**
- Hoffwn gyhoeddi canlyniad y bleidlais ddeddfwriaethol a gynhaliwyd heddiw. Rwy'n falch o gyhoeddi y gall Darren Millar geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil parc carafannau gwyliau (Cymru) a gynigir gan Aelodau.

Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on a member of the Business Committee to move the motions.

Cynnig NDM5217 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mick Antoniw (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Ken Skates (Llafur Cymru).

Cynnig NDM5218 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Christine Chapman (Llafur Cymru) a Jenny Rathbone (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Ann Jones (Llafur Cymru) a Joyce Watson (Llafur Cymru), a;

(ii) Christine Chapman (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Cynnig NDM5219 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

In that spirit, I thank the Minister for his willingness to meet with us and to discuss these issues, publicly and privately, and for the series of statements that he has made. As a committee—I am speaking mainly as the Chair of the committee, as well as as a constituency Member—we are grateful for that opportunity to present our views. Visiting farms in the early days was an extremely concerning experience. I think that it was on the Tuesday after Easter that I first visited a farm that had been affected—as it happens, it was in the old part of my constituency, in the old Meirionnydd. Seeing what had happened there and hearing the feelings expressed by the farmers was a sobering experience. It reminded me, to a certain extent, of the kind of experiences that individual farmers had during the foot and mouth disease outbreak. It was a very painful experience, and that is why I was very eager to seek an improved response, which is what we got in the series of statements made by the Minister and in the comments that he has made on this issue. There has been a development throughout those statements, in my opinion. I would ask him, if possible, to tell us today what success he has had in his discussions with the banks, because that is clearly an important issue in terms of the financial situation. There is a question centred on those who have their Tir Gofal contracts coming to a close and are finding it difficult to cope with a situation where they have to change and develop their plans into Glastir, if they are to enter that scheme. Therefore, there is a question of prioritising environmental activity, and if they are unable to do that, that work will deteriorate while they are simultaneously trying to cope with losing stock.

The committee is to conduct a programme of work in response to the impact that the weather has had on businesses in the uplands, and we will start by scrutinising the Minister on 1 May. We also intend to conduct a more long-term assessment of the effects of extreme weather on farm businesses, and we will be looking very closely at the situation of the lamb market through this summer and into the autumn. However, a very serious question remains: if this was climate change—and I am convinced that that was the case—we must look at how robust our agricultural pattern is in the uplands to face extreme weather in the future. As a committee, we will be asking for scientific opinion on this issue, and we will be seeking to find that connection. We will, as always, Minister, be a friend, but a critical friend, of everything that you and your department do.

15:31

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to be able to take part in this debate today because much of my constituency was affected by the severe weather. I thank the Minister for coming to Montgomeryshire to meet with the farming community. I very much hope that my contribution will be more about real-life situations and I hope that the Minister will not disagree with too much of it.

Rwyf yn falch o allu cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw gan fod y tywydd gwael wedi effeithio ar lawer o'm hetholaeth. Diolchaf i'r Gweinidog am ddod i Sir Drefaldwyn i gyfarfod â'r gymuned ffermio. Gobeithiaf yn fawr y bydd fy nghyfraniad yn ymwneud yn fwy â sefyllfaoedd bywyd go iawn a gobeithio na fydd y Gweinidog yn anghytuno â gormod ohono.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The two largest sectors in Montgomeryshire are agriculture and tourism. Therefore, when there are adverse weather conditions, like those we have had recently and the significant levels of flooding we experienced last year, it is the businesses underpinning these two sectors that are going to be unduly impacted. Businesses across a variety of sectors were affected by the severe weather, but it was businesses in rural communities that have been worst hit over recent weeks.

It is on the disastrous consequences for upland sheep farming that I will focus my contribution today. In Montgomeryshire, there have been dramatic and heartbreaking reports of farmers digging sheep out from under 10-foot drifts of snow. Many of the sheep were obviously near death and the despair of knowing that hundreds more sheep were dying under the snow undoubtedly weighed heavily on the minds of farming families affected every single day. Although the snow has now gone, the true impact of the recent snowfall on the sheep farming uplands remains, and, unlike the snow, the problem has not gone away; it is just emerging. Today, it is not about digging out the sheep out from under snowdrifts, but more about collecting and disposing of the dead stock and planning how to put businesses back together.

The Government has responded to the crisis, but the key question for us as Assembly Members is whether or not the Government has responded quickly enough and whether the response has been sufficient. Let us not forget that this is an animal welfare issue first and foremost. It is not about subsidies and compensation. The health and wellbeing of our sheep in upland Wales is no different to that of sheep in upland England, Scotland and Northern Ireland, and animals need to be treated in the same way. That is something that is not fully appreciated by some members of the wider public. For example, 'Countryfile' was covering the scale of the deaths and there was a large pile of carcasses to be seen in one corner of the yard. It was noticeable that this image was blurred to accommodate the sensitivity of the viewers. It was felt that they should not have to see those dead sheep piled up like that. However, the vision of piles of sheep is not blurred for the owners of those dead sheep. For them, it is all too real, and if people are to understand the impact, then they need to know what is happening.

Going back to the market, one farmer I spoke to had just sent 72 dead sheep away in a lorry. He had also picked up another 72 dead sheep, and they were awaiting collection. That illustrates the scale of what is happening. In total, he will have to pay £9,000 for fallen stock collectors to take the carcasses away from his farm. If he was in England or Scotland, the Government would have paid for that process using a specific designated fund. While I appreciate that the derogation was put in place—and remains until next week—there was derogation in England, where stock could be buried and burned, and, in Scotland, vast areas of the highlands have permanent derogation.

Y ddau sector mwyaf yn Sir Drefaldwyn yw amaethyddiaeth a thwristiaeth. Felly, pan fydd y tywydd yn wael, fel y tywydd a gawsom yn ddiweddar a'r llyfogydd sylweddol a gawsom y llynedd, bydd yr effaith ar y busnesau sy'n sail i'r ddau sector hyn yn enfawr. Effeithiodd y tywydd garw ar fusnesau mewn amrywiaeth o sectorau, ond ar y busnesau mewn cymunedau gwledig yr effeithiwyd fwyaf dros yr wythnosau diwethaf.

Ar y canlyniadau trychinebus i ffermydd defaid mynydd y bydd fy nghyfraniad heddiw yn canolbwyntio. Yn Sir Drefaldwyn, cafwyd adroddiadau dramatig a thorcalonnus am ffermwyr yn cloddio defaid allan o luwchfeydd eira 10 troedfedd o uchder. Roedd llawer o'r defaid yn amlwg yn agos at farwolaeth ac roedd yr anobaith o wybod bod cannoedd yn fwy o ddefaid yn marw o dan yr eira yn ddiau yn pwysu'n drwm ar feddyliau teuluoedd ffermio yr oedd hyn yn effeithio arnynt bob dydd. Er bod yr eira bellach wedi mynd, erys gwir effaith yr eira diweddar ar yr ucheldir ffermio defaid, ac, yn wahanol i'r eira, nid yw'r broblem wedi diflannu; mae ond yn dechrau dod i'r amlwg. Heddiw, nid oes a wnelo hyn â chloddio defaid allan o luwchfeydd eira, ond â chasglu a gwaredu'r stoc trig a chynllunio sut i ailadeiladu busnesau.

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb i'r argyfwng, ond y cwestiwn allweddol inni fel Aelodau'r Cynulliad yw a yw'r Llywodraeth wedi ymateb yn ddigon cyflym ac a yw'r ymateb wedi bod yn ddigonol. Peidied neb ag anghofio mai mater lles anifeiliaid yw hwn yn gyntaf ac yn bennaf. Nid oes a wnelo â chymorthdaliadau ac iawndal. Nid yw iechyd a lles ein defaid ar ucheldir Cymru yn wahanol i iechyd a lles defaid ar ucheldir Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae angen i anifeiliaid gael eu trin yn yr un modd. Mae hynny'n rhywbeth nad yw'n cael ei werthfawrogi'n llawn gan rai aelodau o'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, roedd 'Countryfile' yn rhoi sylw i raddfa'r marwolaethau ac roedd pentwr mawr o garcasau i'w gweld mewn un cornel o'r buarth. Roedd yn amlwg bod y ddelwedd hon yn aneglur er mwyn ystyried sensitifrwydd y gwylwyr. Teimlwyd na ddylent fod yn gorfod gweld y defaid marw hynny wedi'u pentyrru yn y ffordd honno. Fodd bynnag, nid yw gweld pentyrrau o ddefaid yn rhywbeth aneglur i berchengoion y defaid marw hynny. Iddynt hwy, mae'r sefyllfa ond yn rhy real, ac er mwyn i bobl ddeall yr effaith, yna mae angen iddynt wybod beth sy'n digwydd.

Gan fynd yn ôl i'r farchnad, roedd un ffermwr y siaradais ag ef newydd anfon 72 o ddefaid marw i ffwrdd mewn lori. Roedd hefyd wedi casglu 72 o ddefaid marw eraill, ac roeddent yn aros i gael eu casglu. Mae hynny'n dangos graddfa'r hyn sy'n digwydd. At ei gilydd, bydd yn gorfod talu £9,000 er mwyn i gasglwyr stoc trig fynd â'r carcassau oddi ar ei fferm. Pe bai yn Lloegr neu'r Alban, byddai'r Llywodraeth wedi talu am y broses honno drwy ddefnyddio cronfa ddynodedig benodol. Er fy mod yn gwerthfawrogi bod y rhanddirymiad wedi ei roi ar waith—ac y bydd ar waith tan yr wythnos nesaf—roedd rhanddirymiad yn Lloegr, lle y gallai anifeiliaid gael eu claddu a'u llosgi, ac, yn yr Alban, mae gan ardaloedd helaeth o'r ucheldiroedd rhanddirymiad parhaol.

The issue of farmers' preparedness has also been raised with me. People ask me whether farmers should have been more prepared and should have brought their sheep down into the sheds. However, one insurance company, in the north of the county—that is just one insurance company—tells me that it is dealing with 15 insurance claims where stock sheds collapsed due to the weight of snow. Therefore, even if those steps were taken, how can you account for the level of infrastructure affected and the destruction?

Finally, I wish to raise the issue of making comparisons between sectors and businesses. This is something that cannot and should not be done. When a company on the high street goes under, it is a loss to that individual and to the community that depends on that business. However, when you lose an entire sector of agriculture—and let us be clear that upland sheep farming is on the brink—it can take many years to return, as we saw following the foot and mouth disease outbreak, and, often, it never returns.

15:36

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In making my contribution to this debate, I pay tribute to those who have spoken before me. They have spoken in such a caring and passionate manner in support of our farmers in relation to the severe problems that they have faced over the last few weeks. There is no doubt in the Chamber that our farmers, who have recently struggled in the way that they have—especially in the more upland areas—have felt more isolated and more remote, and, to be honest, certainly over the Easter period, have felt very let down. Hill farmers in north Wales have lost thousands of ewes and lambs. Furthermore, we have now seen the end of half the Carneddau mountain ponies, which have perished—that is about 50 ponies and foals. I wish to pay tribute to Snowdonia National Park, which I believe took part yesterday in helping with the open grave for the burial of those ponies.

I also wish to pay tribute to the National Farmers Union, and the Farmers Union of Wales, for fighting on behalf of the farmers, who were desperate. As an Assembly Member, I can tell the Minister that I have never felt so helpless and so frustrated than on Easter Sunday, when I knew that these problems were taking place for many of my farmers. Gareth Wyn Jones, of Ty'n Llwyfan Farm in Llanfairfechan, was a superhero. He stood up loud and proud and spoke up for farmers, taking camera crews onto his land and up the mountains, taking journalists into his home and highlighting the plight of many farmers across Wales.

Codwyd y mater ynghylch parodrwydd ffermwyr hefyd gyda mi. Mae pobl yn gofyn imi a ddylai ffermwyr fod wedi bod yn fwy parod ac a ddylent fod wedi dod â'u defaid i lawr a'u rhoi yn y siediau. Fodd bynnag, dywed un cwmni yswiriant, yng ngogledd y sir—un cwmni yswiriant yn unig yw hwnnw—wrthyf ei fod yn delio â 15 o hawliadau yswiriant lle y gwnaeth siediau stoc ddimchwel oherwydd pwysau'r eira. Felly, hyd yn oed pe bai'r camau hynny wedi'u cymryd, sut y gallwch roi cyfrif am y seilwaith yr effeithiwyd arno a'r dinistr?

Yn olaf, hoffwn godi'r mater o wneud cymariaethau rhwng sectorau a busnesau. Mae hyn yn rhywbeth na ellir ei wneud ac na ddylid ei wneud. Pan fydd cwmni ar y stryd fawr yn methu, mae'n golled i'r unigolyn hwnnw ac i'r gymuned sy'n dibynnu ar y busnes hwnnw. Fodd bynnag, pan gollwch sector cyfan o amaethyddiaeth—a gadewch inni fod yn glir bod ffermio defaid yr ucheldir ar ymyl y dibyn—gall gymryd blynyddoedd lawer iddo ddychwelyd, fel y gwelsom yn dilyn yr achosion o glwy'r traed a'r genau, ac yn aml, nid yw byth yn dychwelyd.

Wrth wneud fy nghyfraniad i'r ddadl hon, talaf deyrnged i'r rhai sydd wedi siarad o'm blaen. Maent wedi siarad mewn modd mor ofalgar ac angerddol o blaid ein ffermwyr mewn perthynas â'r problemau difrifol sydd wedi eu hwynebu dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Nid oes amheuaeth yn y Siambr bod ein ffermwyr, sydd wedi cael trafferth yn ddiweddar o ran y modd y maent—yn enwedig yn yr ardaloedd mwy ucheldirol—wedi teimlo'n fwy ynysig ac anghysbell, ac, i ddweud y gwir, yn sicr dros gyfnod y Pasg, yn teimlo eu bod wedi cael eu siomi. Mae ffermwyr mynydd yn y gogledd wedi colli miloedd o famogiaid ac ŵyn. Ar ben hynny, daeth y diwedd i hanner merlod mynydd Carneddau, a fu farw—hynny yw tua 50 o ferlod ac ebolion. Hoffwn dalu teyrnged i Barc Cenedlaethol Eryri, a gymerodd ran ddoe, fe gredaf, yn y gwaith o helpu gyda'r bedd agored ar gyfer claddu'r merlod hynny.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged hefyd i Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, ac Undeb Amaethwyr Cymru, am ymladd ar ran y ffermwyr, a oedd yn teimlo'n anobeithiol. Fel Aelod o'r Cynulliad, gallaf ddweud wrth y Gweinidog nad wyf erioed wedi teimlo mor ddiymadferth ac mor rhwystredig ag yr oeddwn yn ei deimlo ar Sul y Pasg, pan roeddwn yn gwybod bod y problemau hyn yn digwydd i lawer o'm ffermwyr. Roedd Gareth Wyn Jones, o Fferm Ty'n Llwyfan yn Llanfairfechan, yn arwr. Siaradodd yn uchel ac yn falch ar ran ffermwyr, gan fynd â chriwiau teledu ar ei dir ac i fyny'r mynyddoedd, a mynd â newyddiadurwyr i mewn i'w gartref i dynnu sylw at drafferthion cymaint o ffermwyr ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Anecdotal figures provided by NFU Cymru show that farmers have lost between 15% and 50% of their stock. Some farms are reporting losses of 100 sheep, while some farms in north-east Wales have lost more than 200 lambs. In addition, we had power cuts, so farmers and residents were left without power for considerable periods of time. This has had a devastating impact on our farmers. I know that much has been said about the fact that they were left for many days feeling fraught, frustrated and fed up. What was most difficult was that, technically, the problems started during the week but that everything seemed to shut down on the Thursday evening—including Government officials, civil servants, and the Assembly—because it was a holiday period. People were desperate for information on whether they could bury or not. I believe that there was a possibility of derogation so that farmers could bury, but they were not advised of this. The message that came through was that a statement would be made on the Tuesday. That statement came out at 5.20 p.m. on the Tuesday, when people were literally waiting with bated breath for news on this.

As the Right Honourable Dafydd Elis-Thomas AM has said, we face unusual and unstable weather conditions. Therefore, there must now be a process in place for our businesses, farmers and others, including our rescue services. We need some kind of contingency support in place.

We have heard about the NFU and how hill sheep incomes have dropped by over 60%, with many losing much of their valuable livestock. While we welcome the derogation announcements the problem does not stop here, as my colleague Russell George has mentioned. The pot of money of £0.5 million sounds like a lot of money, but when you actually spread it out among the charitable organisations that provide support, to which we pay tribute, that will not be a lot of money and it will not go far.

I am heartened that the Minister is meeting with our banks and is now looking to provide some financial support. However, concerns remain about the Welsh Government cutting the less favoured areas branch of European funding and doing away with Tir Mynydd, which would have further supported our farmers through this difficult time. I say to the Minister and the Welsh Government: our farmers are the guardians and custodians of our beautiful Welsh countryside and they are our valuable food providers, so please give them the respect, the acknowledgement and the support that they deserve.

Mae ffigurau anecdotaidd a ddarparwyd gan Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru yn dangos bod ffermwyr wedi colli rhwng 15% a 50% o'u stoc. Dywed rhai ffermydd iddynt golli 100 o ddefaid, ac mae rhai ffermydd yn y gogledd-ddwyrain wedi colli mwy na 200 o ŵyn. Hefyd, cafwyd toriadau pŵer, felly gadawyd ffermwyr a thrigolion heb bŵer am gyfnodau sylweddol o amser. Mae hyn wedi cael effaith ddifrifol ar ein ffermwyr. Gwn fod llawer wedi'i ddweud am y ffaith bod cymaint ohonynt wedi cael eu gadael am ddyddiau yn teimlo'n ofidus, yn rhwystredig ac yn ddigalon. Yr anhawster mwyaf oedd bod y problemau, yn dechnegol, wedi dechrau yn ystod yr wythnos, ond roedd popeth wedi cau lawr ar y nos lau, yn ôl pob golwg—gan gynnwys swyddogion y Llywodraeth, gweision sifil, a'r Cynulliad—am ei fod yn wyliau. Roedd pobl eisiau gwybod a allent gladdu ai peidio. Roedd posibilrwydd o randdirymiad, yn ôl yr hyn a ddeallaf, fel y gallai ffermwyr gladdu, ond ni chawsant eu hysbysu am hyn. Y neges a gyflëwyd oedd y câi datganiad ei wneud ar y dydd Mawrth. Daeth y datganiad hwnnw am 5.20 p.m. ar y dydd lau, pan oedd pobl yn llythrennol yn dal eu hanadl am newyddion ynglŷn â hyn.

Fel y dywedodd y Gwir Anrhydeddus Dafydd Elis-Thomas AC, rydym yn wynebu tywydd anarferol ac ansefydlog. Felly, rhaid bod proses ar waith ar gyfer ein busnesau, ffermwyr ac eraill, gan gynnwys ein gwasanaethau achub. Mae angen i ryw fath o drefniadau cymorth wrth gefn fod ar waith.

Clywsom am Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a'r modd y mae incwm ffermydd defaid mynydd wedi gostwng fwy na 60%, gyda llawer yn colli llawer o'u hanifeiliaid gwerthfawr. Er inni groesawu'r cyhoeddiadau am randdirymiad nid dyna ddiwedd y broblem, fel y soniodd fy nghyd-Aeod Russell George. Mae'r gronfa ariannol o £0.5 miliwn yn swnio fel llawer o arian, ond pan ddosbarthwch y swm hwnnw ymhlith sefydliadau elusennol sy'n darparu cymorth, a thalwn deyrnged iddynt, ni fydd hynny yn llawer o arian ac ni fydd yn mynd yn bell.

Mae'n galonogol bod y Gweinidog yn cyfarfod yn awr â'n banciau a bellach yn ystyried darparu rhywfaint o gymorth ariannol. Fodd bynnag, erys pryderon ynghylch Llywodraeth Cymru yn torri cangen ardaloedd llai ffafriol o gyllid Ewrop a dileu Tir Mynydd, a fyddai wedi cefnogi ein ffermwyr ymhellach yn ystod y cyfnod anodd hwn. Dywedaf wrth y Gweinidog a Llywodraeth Cymru: ein ffermwyr yw gwarcheidwaid a cheidwaid ein cefn gwlad hardd yng Nghymru a nhw yw ein darparwyr bwyd gwerthfawr, felly rhowch y parch, y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth iddynt y maent yn eu haeddu.

15:41

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies, to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies, i siarad ar ran y Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Thank you very much, Presiding Officer. I think that we can agree that the last month has been very difficult for many people living and working across rural Wales. The snowfall that took place at the end of March came at the end of a hard winter and followed nearly a year of poor weather, with heavy and prolonged rainfall affecting many sectors from agriculture to tourism, construction and many others. This has seriously affected the viability of some businesses and endangered the very existence and future of other businesses. I think that I speak on behalf of us all on each side of the Chamber today when I extend the sympathies of the Government and of this Assembly to all those who have been most seriously affected. As a Minister, I have undertaken private and formal visits to meet and talk with people who have seen their livelihoods affected by the combination of snowfall and the extended poor weather. I have sat at kitchen tables and spoken with families; I have walked the hillsides and I have seen for myself the impact on livestock, but I have also seen the human and emotional impact on families and people throughout rural Wales.

This recent weather in parts of mid and north Wales has highlighted again the very real fragility of some of these places, communities and businesses. That is why I have sought to underline in our response that we must not simply respond in the short term; we must also respond in such a way as to hardwire resilience in the medium and long term. I think that many Members have made the same statement this afternoon.

Contrary to the assertion of the leader of the opposition in his opening remarks, I have issued four statements over the past month, outlining the actions that this Government is taking to help families and farm businesses deal with the issues that they are facing. We do not yet know the full dimensions of the problem. We know that the recent snowfall has created some localised difficulties for individual farms and communities in mid and north Wales; we can only estimate at present the number of farms and the number of people affected and facing significant difficulties. We know that many thousands of livestock have been lost, but we do not yet have a realistic estimate of this loss. I have asked my officials to provide me with updated estimates of the numbers, but we are still unable to confirm any realistic estimate of these losses. That is why I have also now asked Hybu Cig Cymru to report to me on the impact on the red meat industry of the recent events over the coming year.

I agree very much with the point made by Dafydd Elis-Thomas in that we are likely to experience many changes in weather conditions over future years. This is something that must continue to inform and drive our response, as it has over the last few weeks, but also in terms of how we provide support into the future. I look forward to the investigation that the committee is undertaking, and I look forward to giving evidence to the committee and to hearing the results of your investigation.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Credaf y gallwn gytuno bod y mis diwethaf wedi bod yn anodd iawn i lawer o bobl sy'n gweithio ac yn byw yn y Gymru wledig. Daeth yr eira a gwmpodd ar ddiwedd mis Mawrth ar ôl gaeaf caled a bron flwyddyn o dywydd gwael, gyda glaw trwm ac estynedig yn effeithio ar lawer o sectorau o amaethyddiaeth i dwristiaeth, adeiladu a llawer o rai eraill. Mae hyn wedi effeithio'n ddifrifol ar hyfywedd rhai busnesau ac wedi peryglu bodolaeth a dyfodol busnesau eraill. Credaf fy mod yn siarad ar ran pob un ohonom ar bob ochr o'r Siambr heddiw pan estynnwn gydymdeimlad y Llywodraeth a'r Cynulliad hwn i bawb yr effeithiwyd yn fwyaf difrifol arnynt. Fel Gweinidog, rwyf wedi bod ar ymweliadau preifat a ffurfiol i gyfarfod a siarad â phobl y mae'r cyfuniad o eira a'r tywydd gwael estynedig wedi effeithio ar eu bywoliaethau. Rwyf wedi eistedd wrth fyrddau cegin yn siarad â theuluoedd; rwyf wedi cerdded ar y bryniau ac wedi gweld dros of fy hun yr effaith ar anifeiliaid, ond rwyf hefyd wedi gweld yr effaith ddynol ac emosïynol ar deuluoedd a phobl ledled Cymru wledig.

Mae'r tywydd diweddar hwn mewn rhannau o'r canolbarth a'r gogledd wedi tynnu sylw unwaith eto at natur wirioneddol fregus rhai o'r lleoedd, cymunedau a busnesau hyn. Dyna pam rwyf wedi ceisio pwysleisio yn ein hymateb na ddylem ond ymateb yn y tymor byr; rhaid inni hefyd ymateb yn y fath fodd fel ein bod yn meithrin cydnherthedd yn y tymor canolig a'r hirdymor. Credaf i lawer o Aelodau wneud yr un datganiad y prynhawn yma.

Yn groes i honiad arweinydd yr wrthblaid yn ei sylwadau agoriadol, rwyf wedi cyhoeddi pedwar datganiad dros y mis diwethaf, yn amlinellu'r camau y mae'r Llywodraeth hon yn eu cymryd i helpu teuluoedd a busnesau fferm i ymdrin â'r materion y maent yn eu hwynebu. Ni wyddom eto ddimensiynau llawn y broblem. Gwyddom fod yr eira diweddar wedi creu rhai anawsterau lleol i ffermydd unigol a chymunedau yn y canolbarth a'r gogledd; ni allwn ond amcangyfrif ar hyn o bryd nifer y ffermydd a nifer y bobl yr effeithiwyd arnynt ac sy'n wynebu anawsterau mawr. Gwyddom fod miloedd lawer o anifeiliaid wedi cael eu colli, ond nid oes gennym amcangyfrif realistig o'r golled hon eto. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion roi'r amcangyfrifon diweddaraf imi o'r niferoedd, ond ni allwn gadarnhau o hyd unrhyw amcangyfrif realistig o'r colledion hyn. Dyna pam rwyf hefyd wedi gofyn yn awr i Hybu Cig Cymru roi adroddiad imi ar effaith y digwyddiadau diweddar ar y diwydiant cig coch yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Cytunaf yn llwyr â'r pwynt a wnaed gan Dafydd Elis-Thomas yn yr ystyr ein bod yn debygol o weld llawer o newidiadau o ran y tywydd yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid iddo barhau i lywio ac ysgogi ein hymateb, fel y gwnaeth dros yr ychydig wythnosau diwethaf, ond hefyd o ran sut y darparwn gymorth yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at yr ymchwiliad y mae'r pwyllgor yn ei gynnal, ac edrychaf ymlaen at roi tystiolaeth i'r pwyllgor a chlywed canlyniadau eich ymchwiliad.

Throughout this period of adverse weather, I have sought to put in place practical measures to support farm businesses. I remind William Graham that the derogation was put in place on 2 April. We did so because of our reading of the situation on the ground facing people. We recognised that that was needed and we put that in place. I remind you that we put that in place ahead of DEFRA's similar move in England.

We have also ensured that we have had available dedicated telephone lines through our divisional office network, and through other means, for people to reach us where necessary. I have had reports of a very small number of farmers who have been unable to access support through those telephone lines. I would say to Members that, perhaps the best way to resolve the difficulties of constituents would be to contact me when those difficulties exist, rather than to simply make speeches here in the Chamber. We are able to resolve these problems, and I would remind all Members that the divisional offices are available to provide support, in addition to the dedicated phone lines that we have put in place. We are also conscious that many other businesses have suffered as a result of the severe weather, and we have other business support services that are available to all businesses throughout Wales.

In terms of where we are today, the derogation on fallen stock has ensured that we are able to access fallen stock and allow burial in those areas that are unable to deal with fallen stock through other means. There have been other developments to address reported collection delays, including the National Fallen Stock Company agreeing to temporarily increase its collector availability in affected areas, and the rules on drivers' hours have been relaxed temporarily to assist this. Again, I will ask Members, in cases where they believe that there are continuing difficulties, to contact the Government, and we will do everything that we can to ensure that those difficulties are resolved.

In terms of providing further support, I have sought to respond in a way that is proportionate and balanced. I do not believe that the answer to every question and every challenge facing agriculture is new and additional subsidies. Agriculture needs to move from being reliant on public support to become more market-facing and more market-orientated. This process is not helped when further subsidies are seen to be the answer to every question. Having said that, I know and recognise that some farming businesses and some farming families have seen significant losses and are facing significant difficulties, particularly over the coming months. For that reason, I have announced a total of £500,000 to support the work of the key farming charities to help them in their work. This aid will be targeted at those areas that have suffered the worst of the severe weather, and it can be used to support those farmers who require support in feeding livestock and disposing of fallen stock. It can also be used to provide pastoral help and support to those families and communities that require such support. In total, we are providing double the financial support that is being provided in England, and we are the only part of the United Kingdom providing support for the human and emotional needs of the farming community.

Drwy gydol y cyfnod hwn o dywydd garw, rwyf wedi ceisio rhoi mesurau ymarferol ar waith i gefnogi busnesau fferm. Hoffwn atgoffa William Graham i'r rhanddirymiad gael ei roi ar waith ar 2 Ebrill. Gwnaethom hynny oherwydd y modd yr ystyriwyd y sefyllfa a oedd yn wynebu pobl ar lawr gwlad gennym. Cydnabuwyd bod angen hynny a gwnaethom roi hynny ar waith. Hoffwn eich atgoffa inni roi hynny ar waith cyn i Defra gymryd cam tebyg yn Lloegr.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod llinellau ffôn penodedig wedi bod ar gael drwy ein rhwydwaith o swyddfeydd rhanbarthol, a thrwy ddulliau eraill, fel y gall pobl gysylltu â ni lle bo angen. Cefais adroddiadau am nifer fach iawn o ffermwyr nad ydynt wedi gallu cael gafael ar gymorth drwy'r llinellau ffôn hyn. Byddem yn dweud wrth yr Aelodau mai'r ffordd orau efallai o ddatrys anawsterau'r etholwyr hyn fyddai cysylltu â mi pan gyfyd yr anawsterau hynny, yn hytrach na gwneud areithiau yma yn y Siambr. Gallwn ddatrys y problemau hyn, a hoffwn atgoffa pob Aelod bod y swyddfeydd rhanbarthol ar gael i ddarparu cymorth, yn ogystal â'r llinellau ffôn penodedig a drefnwyd gennym. Rydym hefyd yn ymwybodol bod llawer o fusnesau eraill wedi dioddef o ganlyniad i'r tywydd gwael, ac mae gennym wasanaethau cymorth busnes eraill sydd ar gael i bob busnes ledled Cymru.

O ran y sefyllfa erbyn heddiw, mae'r rhanddirymiad ar stoc trig wedi sicrhau y gallwn gael gafael ar stoc trig a chaniatáu i anifeiliaid gael eu claddu yn yr ardaloedd hynny na allant ddelio â stoc trig trwy ddulliau eraill. Cafwyd datblygiadau eraill i fynd i'r afael ag achosion cofnodedig o oedi cyn casglu, gan gynnwys y Cwmni Stoc Trig Cenedlaethol yn cytuno i gynyddu nifer ei gasglwyr dros dro yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, a llacio'r rheolau o ran oriau gyrrwyr dros dro er mwyn helpu gyda hyn. Unwaith eto, gofynnaf i'r Aelodau, mewn achosion lle y credant fod anawsterau'n parhau, gysylltu â'r Llywodraeth, a gwnawn bopeth y gallwn i sicrhau y caiff yr anawsterau hynny eu datrys.

O ran darparu rhagor o gymorth, rwyf wedi ceisio ymateb mewn ffordd sy'n gymesur a chytbwys. Ni chredaf mai'r ateb i bob cwestiwn a phob her sy'n wynebu amaethyddiaeth yw cymorthdaliadau newydd ac ychwanegol. Mae angen i amaethyddiaeth symud o fod yn ddiabyddol ar gymorth cyhoeddus i ddod yn sector sy'n wynebu'r farchnad yn fwy ac sy'n ymateb yn fwy i ofnyion y farchnad. Nid yw'r ffaith yr ystyrir mai cymorthdaliadau pellach yw'r ateb i bob cwestiwn yn helpu'r broses hon. Wedi dweud hynny, rwy'n gwybod ac yn cydnabod bod rhai busnesau ffermio a rhai teuluoedd ffermio wedi dioddef colledion sylweddol ac yn wynebu anawsterau mawr, yn enwedig dros y misoedd i ddod. Am y rheswm hwnnw, cyhoeddais gyfanswm o £500,000 i gefnogi gwaith yr elusennau ffermio allweddol er mwyn eu helpu yn eu gwaith. Caiff y cymorth hwn ei dargedu at yr ardaloedd hynny sydd wedi dioddef y tywydd gwaethaf, a gellir ei ddefnyddio i gefnogi'r ffermwyr hynny sydd angen cymorth i fwydo anifeiliaid a gwaredu stoc trig. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ddarparu help a chefnogaeth fugeiliol i'r teuluoedd a'r cymunedau hynny sydd angen cefnogaeth o'r fath. At ei gilydd, rydym yn darparu ddwywaith y cymorth ariannol sy'n cael ei ddarparu yn Lloegr, a ni yw'r unig ran o'r Deyrnas Unedig sy'n darparu cymorth ar gyfer anghenion dynol ac emosiynol y gymuned ffermio.

This morning, I met with the major banks to discuss with them how they can help individual farm businesses to manage their cash flow and to help with reinvestment in their businesses. I was very pleased with the response of the banks, and I know that bank managers are already looking sympathetically at the difficulties facing some of their agricultural clients. I have also announced that I am seeking to bring forward single farm payments for those businesses that have been worst affected by the recent snowfall. Again, this is a measure that has been requested by individual farmers and that is designed to help those facing cash flow difficulties.

I have also announced a fundamental review of our resilience, and of the resilience of some farm businesses. I will be reviewing the way in which the Government has responded to these issues over the last few months. I will accept the point made by the leader of the opposition: if this had been foot and mouth disease, we would have responded in a different way. We have lessons to learn from the way in which we deal with animal disease outbreak, and apply some of those lessons to how we responded to the severe weather episode over the last few weeks.

15:48 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Minister for taking this intervention. If there proves to be consensus over the new regulation that the EU has brought forward regarding the discretion that you might have with the rural development plan, would you commit today to look into readjusting some of your budget lines in order to support some of the farmers in the less favoured areas who find themselves out of pocket?

Y bore yma, cyfarfûm â'r prif fanciau i drafod â hwy sut y gallant helpu busnesau fferm unigol i reoli eu llif arian a helpu o ran ailfuddsoddi yn eu busnesau. Roeddwn yn fodlon iawn ar ymateb y banciau, a gwn fod rheolwyr banc eisoes yn ystyried gyda chydymdeimlad yr anawsterau sy'n wynebu rhai o'u cleientiaid amaethyddol. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi fy mod yn ceisio cyflwyno taliadau fferm sengl ar gyfer y busnesau hynny y mae'r eira diweddar wedi effeithio arnynt fwyaf. Unwaith eto, mae hwn yn fesur y mae ffermwyr unigol wedi gofyn amdano ac yn un sydd wedi'i gynllunio i helpu'r rhai sy'n wynebu anawsterau o ran llif arian parod.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi adolygiad sylfaenol o'n cydnerthedd, a chydnerthedd rhai busnesau fferm. Byddaf yn adolygu'r ffordd y gwnaeth y Llywodraeth ymateb i'r materion hyn dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Derbyniat y pwynt a wnaed gan arweinydd yr wrthblaid: pe bai hyn wedi bod yn glwy'r traed a'r genau, byddem wedi ymateb mewn ffordd wahanol. Mae gennym wersi i'w dysgu o'r ffordd rydym yn delio ag achosion o glefydau anifeiliaid, a chymhwyso rhai o'r gwersi hynny at y ffordd y gwnaethom ymateb i'r cyfnod o dywydd garw a gafwyd dros yr ychydig wythnosau diwethaf.

15:48 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The leader of the opposition has pre-empted my next paragraph. I am prepared to look at the RDP, to see whether we require additional funding to put in place greater resilience within farm businesses. This is a critical part of our response and will be a fundamental part of our long-term response to this episode. Members will be aware that I have asked Kevin Roberts, former director-general of the NFU in England and Wales, to lead this review. Kevin will report to me on his views for the short term in the next few months, and on the longer-term issues by the end of the year. The terms of reference for this work are rooted in my view that the solutions to the long-term resilience of individual farm businesses must be rooted in the free market, and not simply dependent on further public subsidy. Having said that, I will use the tools available to us through the RDP, if we need additional funding, to put in place those issues regarding resilience.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn yr ymyriad hwn. Os ceir consensws ynglŷn â'r rheoliad newydd y mae'r UE wedi ei gyflwyno o ran y disgresiwn y gallech ei gael gyda'r cynllun datblygu gwledig, a wnewch chi ymrwymo heddiw i ystyried ailaddasu rhywfaint o'ch llinellau cyllideb er mwyn cefnogi rhai o'r ffermwyr yn yr ardaloedd llai ffafriol sydd ar eu colled?

Mae arweinydd yr wrthblaid wedi achub y blaen ar fy mharagraff nesaf. Rwy'n barod i edrych ar y Cynllun Datblygu Gwledig, i weld a oes angen rhagor o arian arnom i sicrhau cydnerthedd gwell mewn busnesau fferm. Mae hyn yn rhan hanfodol o'n hymateb a bydd yn rhan sylfaenol o'n hymateb hirdymor i'r digwyddiad hwn. Bydd Aelodau yn ymwybodol fy mod wedi gofyn i Kevin Roberts, cyn-gyfarwyddwr cyffredinol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a Lloegr, i arwain yr adolygiad hwn. Bydd Kevin yn cyflwyno adroddiad imi ar ei farn ar gyfer y tymor byr yn ystod y misoedd nesaf, ac ar y materion tymor hwy erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith hwn wedi'i wreiddio yn fy marn i bod yn rhaid i'r atebion i gydnerthedd hirdymor busnesau fferm unigol gael eu gwreiddio yn y farchnad rydd, ac na ddylent fod yn ddibynnol ar gymorthdaliadau cyhoeddus pellach yn unig. Wedi dweud hynny, byddaf yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, os bydd angen cyllid ychwanegol arnom, er mwyn rhoi'r materion hynny o ran cydnerthedd ar waith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In closing, I hope that we will continue to extend our sympathy to those people who have been badly affected over the last few weeks and months by the severe weather. I know that this Assembly will ensure that we put in place all the means by which we will respond over the coming weeks and months. We have already responded in a way that is proportionate and balanced, and in a way that responded to the need when it became clear. We worked over the bank holiday weekend to ensure that the responses and the derogation were in place as soon as possible. My officials and I continue to speak to the farming industry and to the whole of the farming community, and we continue to work together in partnership to resolve these issues in the short term, the medium term and the long term.

Wrth gloi, rwy'n gobeithio y byddwn yn parhau i gydymdeimlo â'r bobl hynny yr effeithiodd y tywydd garw yn wael arnynt dros yr ychydig wythnosau a misoedd diwethaf. Gwn y bydd y Cynulliad hwn yn sicrhau ein bod yn rhoi'r holl adnoddau ar waith er mwyn ymateb dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Rydym eisoes wedi ymateb mewn ffordd sy'n gymesur a chytbwys, ac mewn ffordd a oedd yn ymateb i'r angen pan ddaeth yn amlwg. Gwnaethom weithio dros benwythnos gŵyl y banc i sicrhau bod yr ymatebion a'r rhanddirymiad ar waith cyn gynted â phosibl. Mae fy swyddogion a minnau yn parhau i siarad â'r diwydiant ffermio ac â'r gymuned ffermio gyfan, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth i ddatrys y materion hyn yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call Antoinette Sandbach to reply to the debate.

Diolch, Weinidog. Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:50 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I start by thanking Members for their contributions, and the Minister for accepting the Welsh Conservative motion. The severe weather has undeniably had a major impact on rural communities and all rural businesses—it is not just the farming industry, but other rural businesses, too. However, the impact on farmers has been particularly devastating. Those farmers have been hit by the blizzards at the worst possible time—as William Powell described it, it was as though the perfect storm had hit.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau, ac i'r Gweinidog am dderbyn cynnig y Ceidwadwyr Cymreig. Mae'r tywydd garw yn sicr wedi cael effaith fawr ar gymunedau gwledig a phob busnes gwledig—nid ar y diwydiant ffermio yn unig, ond ar fusnesau gwledig eraill, hefyd. Fodd bynnag, mae'r effaith ar ffermwyr wedi bod yn arbennig o ddinistriol. Cafodd y ffermwyr hynny eu taro gan y stormydd eira ar yr adeg waethaf bosibl—fel y'i disgrifiwyd gan William Powell, yr oedd fel pe bai'r storm berffaith wedi taro.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very grateful to the Minister for updating us on the approach of the banks. Having met with the banks several weeks ago, I know that they were urging those customers who felt in need of additional facilities to get in touch with them. Has the Minister had an opportunity to speak to the Association of British Insurers? I spoke to its representatives today. As we heard during the course of the debate, there has been a large amount of damage, particularly to barns and fencing, which does not appear to be covered by insurance policies in respect of storms. I think that that is an issue that needs to be discussed more generally, particularly where the insurance is provided by the farming unions, because they are much more aware of the conditions that are likely to affect the members.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am roi'r newyddion diweddaraf inni ar ddull gweithredu'r banciau. Ar ôl cyfarfod â'r banciau sawl wythnos yn ôl, gwn eu bod yn annog y cwsmeriaid hynny a oedd yn teimlo bod angen cyfleusterau ychwanegol arnynt i gysylltu â nhw. A yw'r Gweinidog wedi cael cyfle i siarad â Chymdeithas Yswirwyr Prydain? Siaradais â'i chynrychiolwyr heddiw. Fel y clywsom yn ystod y ddatl, bu llawer o ddifrod, yn enwedig i ysguboriau a ffensys, na chânt eu cwmpasu gan bolisiâu yswiriant ar gyfer stormydd, yn ôl pob golwg. Credaf fod hynny'n fater y mae angen ei drafod yn fwy cyffredinol, yn enwedig pan ddarperir yr yswiriant gan yr undebau ffermio, oherwydd maent yn llawer mwy ymwybodol o'r amodau sy'n debygol o effeithio ar yr aelodau.

I am also grateful to William Graham for highlighting the fact that more than one in 10 businesses—not just farming businesses—in rural communities lost access to their premises as a result of the weather. One of the important things for the tourism industry and the wider business community, both of which were affected by the snow, was to have very clear information on which roads were open and which ones were not. For the tourism industry in particular, it was about clear information about what could be accessed and whether it was still possible to travel on certain routes. One of the concerns raised with me by local councillors about the severe weather was about isolated people who required their medicines to be delivered to them and the issue of the contingency planning in that respect.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i William Graham am dynnu sylw at y ffaith i fwy nag un o bob 10 busnes—nid dim ond busnesau ffermio—mewn cymunedau gwledig gollu mynediad i'w safle o ganlyniad i'r tywydd. Un o'r pethau pwysig i'r diwydiant twristiaeth a'r gymuned fusnes ehangach, yr effeithiodd yr eira ar y ddau ohonynt, oedd cael gwybodaeth glir iawn am ba ffyrdd oedd ar agor a pha rai oedd ar gau. Ar gyfer y diwydiant twristiaeth yn arbennig, roedd a wnelo hyn â rhoi gwybodaeth glir am yr hyn y gellid cael mynediad iddo ac a oedd yn bosibl o hyd i deithio ar hyd ffyrdd penodol. Un o'r pryderon a godwyd gyda mi gan gynghorwyr lleol am y tywydd garw oedd bod angen mynd â meddyginiaethau at y bobl hynny a oedd yn byw mewn man anghysbell a mater cynllunio wrth gefn yn hynny o beth.

Point 4 of the motion urges the Welsh Government to look at the hardship fund to support businesses affected by the severe weather. There is a hardship fund for local councils, and I notice that Flintshire will be making an application—Denbighshire and Conwy may need to consider what infrastructure damage has been caused, and they, too, may need to make applications, and perhaps Powys as well. However, if there are gaps in the insurance policies and they are not addressed, they will have a devastating impact on farm businesses or on other rural businesses, so that needs to be looked at.

I am sure that, when the Minister came to north Wales and drove along the A5, he needed only to drive into Llangollen to see large amounts of damage, with guttering hanging off everywhere. It is a key thing for the rural tourist business—which is huge business in north Wales and mid Wales alike—that infrastructure and communications issues of those kinds are addressed.

I also thank the Minister for his change in tone. I think that Lord Elis-Thomas mentioned that. There was outrage in north Wales when 'Ffermio' was broadcast—the comment that there was no snow in Llanidloes, 'There is no snow here', had my phone ringing off the hook more than anything else. I think that farmers at that point, Minister, felt that you were perhaps not understanding of the conditions that were affecting them in the uplands. I am very grateful for the fact that you did go out and walk the hillsides, and that you did see the devastation that was caused. I know that your visit to the valley at Llanarmon Dyffryn Ceiriog will have made a big impact. In fact, Mr Morris notified me this week that he has found a further 100 dead sheep. He is one of the farmers facing the very difficult conditions that we have talked about. It is individual farmers like that, who have been hit so hard, that need your help.

I am reassured by your inquiry into resilience, because there are two things that farmers can do nothing about: diseases that they cannot vaccinate against—things like Schmallenberg, TB and new diseases that come in—and the weather. It is out of their control. It is important that you look at the areas that were affected. We have seen in the most recent episode that it is the upland areas that are affected. They are the very areas that lost their Tir Mynydd payment. I know that you have views on that, Minister, and I will not bang on about Tir Mynydd for very long, but I echo what Andrew R. T. Davies said in that, where there is capacity in the RDP budget, you should look at that capacity.

I know that you will be working closely with your chief veterinary officer, Dr Christianne Glossop. It will be easy to have traceability with regard to the impact on farms, because of the horrendous record-keeping requirements that we have on farms, in relation to burials and other on-farm records. It will be easy for you to check which farms have been most severely affected. When we are talking about lambing percentages of around 50%, there is going to be a real impact on replacement flocks and on farm incomes, because any lambs kept to replace lost stock cannot be sold on the open market to generate income.

Mae Pwynt 4 o'r cynnig yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar y gronfa galedi i gefnogi busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y tywydd garw. Mae cronfa galedi i gynghorau lleol, a sylwaf y bydd Sir y Fflint yn gwneud cais—efallai y bydd angen i Sir Ddinbych a Chonwy ystyried pa ddfrod a wnaed i seilwaith, ac efallai y bydd angen iddynt hwy, hefyd, wneud ceisiadau, ac efallai Powys hefyd. Fodd bynnag, os oes bylchau yn y polisiau yswiriant ac na chânt eu trin, cânt effaith ddinistriol ar fusnesau fferm neu ar fusnesau gwledig eraill, felly mae angen ystyried hynny.

Rwy'n siŵr, pan ddaeth y Gweinidog i'r gogledd a gyrru ar hyd yr A5, mai dim ond gyrru i mewn i Langollen yr oedd angen iddo wneud i weld y difrod mawr, gyda landeri yn hongian ymhob man. Mae mynd i'r afael â materion fel seilwaith a chyfathrebu yn rhywbeth allweddol i'r busnes twristiaeth wledig—sy'n fusnes enfawr yn y gogledd a'r canolbarth fel ei gilydd.

Diolchaf hefyd i'r Gweinidog am newid ei dôn. Credaf i'r Arglwydd Elis-Thomas sôn am hynny. Roedd pobl yn y gogledd wedi'u cythruddo pan ddarlledwyd 'Ffermio'—gwnaeth y sylw nad oedd eira yn Llanidloes, 'Does dim eira yma', olygu bod fy ffôn wedi canu oddi ar y bachyn yn fwy na dim. Credaf i ffermwyr ar yr adeg honno, Weinidog, deimlo nad oeddech efallai yn deall yr amodau a oedd yn effeithio arnynt ar yr ucheldir. Rwy'n ddiolchgar iawn ichi am fynd a cherdded ar y bryniau, ac ichi weld y dinistr a achoswyd. Gwn fod eich ymweliad â'r dyffryn yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog wedi cael effaith fawr. Yn wir, cefais wybod gan Mr Morris yr wythnos hon ei fod wedi dod o hyd i 100 yn fwy o ddefaid marw. Mae'n un o'r ffermwyr sy'n wynebu'r amodau anodd iawn y gwnaethom sôn amdanynt. Ffermwyr unigol tebyg iddo ef, sydd wedi cael eu taro mor galed, sydd angen eich help chi.

Mae eich ymchwiliad i gydnerthedd yn tawelu fy meddwl, oherwydd mae dau beth na all ffermwyr wneud unrhyw beth yn eu cylch: defydau na allant frechu anifeiliaid yn eu herbyn—pethau fel Schmallenberg, TB a chlefydau newydd sy'n datblygu—a'r tywydd. Maent y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'n bwysig eich bod yn edrych ar yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt. Gwelsom yn y digwyddiad diweddar mai ardaloedd yr ucheldir yr effeithir arnynt. Dyma'r union ardaloedd a gollodd eu taliad Tir Mynydd. Gwn fod gennych farn ar hynny, Weinidog, ac nid wyf am rygnu ymlaen am Tir Mynydd am amser hir, ond ategaf yr hyn a ddywedodd Andrew R.T. Davies sef, lle mae capasiti yng nghyllideb y Cynllun Datblygu Gwledig, dylech edrych ar y capasiti hwnnw.

Gwn y byddwch yn gweithio'n agos gyda'ch prif swyddog milfeddygol, Dr Christianne Glossop. Bydd y gallu i olrhain yn hawdd o ran yr effaith ar ffermydd, oherwydd y gofynion cadw cofnodion erchyll sydd gennym ar ffermydd, mewn perthynas â chladdu a chofnodion ar y fferm eraill. Bydd yn hawdd i chi gadarnhau pa ffermydd yr effeithiwyd yn fwyaf difrifol arnynt. Wrth sôn am ganrannau wyna o tua 50%, mae hynny'n golygu y bydd effaith wirioneddol ar ddiadellau newydd ac ar incwm fferm, oherwydd ni all unrhyw ŵyn a gedwir yn lle stoc a gollwyd gael eu gwerthu ar y farchnad agored i gynhyrchu incwm.

I also want to mention briefly that I think that it is important that the hardship fund goes wider than the farming community. We know that that is needed because of the flooding events that Andrew referred to in opening the debate. Again, I urge you to look at the feasibility of that. As you know, rural communities across Wales were affected by flooding last year and it seems to me that a co-ordinated response, when there are extreme weather conditions, backed up with an emergency hardship fund—similar to the one that applies to local councils—could be of real benefit to rural areas in north Wales. Let us not forget that rural communities generate a huge amount of income for the Welsh economy. They are, by and large, more productive, they have lower unemployment rates, they are largely self-employed and have a very effective entrepreneurial spirit. Therefore, infrastructure—such as good access to communication and broadband—is hugely important, as is what emergency planning is in place for when it all goes wrong, once it is clear that there is a major incident.

Rwyf hefyd am sôn yn fyr fy mod yn credu ei bod yn bwysig bod y gronfa galedi yn mynd yn ehangach na'r gymuned ffermio. Gwyddom fod ei hangen oherwydd y digwyddiadau llifogydd y cyfeiriodd Andrew atynt wrth agor y ddadl. Unwaith eto, fe'ch anogaf i edrych ar ddichonoldeb hynny. Fel y gwyddoch, effeithiwyd ar gymunedau gwledig ledled Cymru y llynedd ac ymddengys imi y gallai ymateb cydgysylltiedig, pan fydd tywydd garw, ynghyd â chronfa galedi ar gyfer argyfwng—yn debyg i'r un sy'n gymwys i gynghorau lleol—fod o fudd gwirioneddol i ardaloedd gwledig yn y gogledd. Peidied neb ag anghofio bod cymunedau gwledig yn cynhyrchu symiau enfawr o incwm i economi Cymru. Maent, ar y cyfan, yn fwy cynhyrchiol, mae ganddynt gyfraddau diweithdra is, maent yn hunan-gyflogedig i raddau helaeth ac mae ganddynt ysbryd entrepreneuriaidd effeithiol iawn. Felly, mae seilwaith—megis mynediad da i gyfathrebu a band eang—yn hynod bwysig, fel y mae'r gweithdrefnau cynllunio wrth gefn sydd ar waith pan fydd popeth yn mynd o'i le, unwaith y daw'n amlwg bod digwyddiad mawr.

15:58

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will reiterate, Minister: I am glad about your changing response over the last few weeks. Had that response been issued at the beginning, farmers would have been far more comforted.

Dywedaf eto, Weinidog: rwy'n falch ynglŷn â'ch newid mewn ymateb dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Pe bai'r ymateb hwnnw wedi cael ei roi ar y dechrau byddai wedi bod yn fwy o gysur o lawer i ffermwyr.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is no objection. The motion without amendment is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Caiff y cynnig heb ei ddiwygio, felly, ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ynni ar Ynys Môn

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.59 p.m.

Welsh Conservatives Debate: Energy on Ynys Môn

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.59 p.m.

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 4 yn enw Aled Roberts.

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies, and amendment 4 in the name of Aled Roberts.

Cynnig NDM5212 William Graham

Motion NDM5212 William Graham

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod potensial Ynys Môn fel canolfan i ynni a thwf economaidd;
2. Yn croesawu'r cyhoeddiad y bydd Hitachi'n datblygu Horizon Nuclear Power ar safle Wylfa ar Ynys Môn;
3. Yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried datblygu cynllun clir i gefnogi datblygiad Ynys Môn fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni; a

1. Recognises the potential of Ynys Môn as hub for energy and economic growth;
2. Welcomes the announcement that Hitachi will develop Horizon Nuclear Power at the Wylfa plant on Ynys Môn;
3. Urges the Welsh Government to consider the development of a clear plan to support the development of Ynys Môn as a centre for energy generation; and

15:59

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. Yn credu bod yn rhaid i ddatblygiad ynni niwclear ar Ynys Môn gael ei ategu gan gymorth pellach i gymysgedd cadarn o ynni ledled Cymru.

4. Believes the development of nuclear energy on Ynys Môn must be complemented by further support for a robust energy mix across Wales.

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I am pleased to move the Welsh Conservative motion in the name of William Graham. The Welsh Conservatives believe in the growth, development and prosperity of every community in Wales—north, south, east and west. The UK Government also wants Wales to succeed, because it is an integral part of the British economy; that view is taking ever greater prominence with the independence vote in Scotland looming towards the end of next year. The Prime Minister and the Secretary of State for Wales have pledged that economic growth is their priority, and that will only be achieved if both administrations work more closely together—not in competition. Business leaders in Wales have already made their views clear: both Governments must concentrate their efforts on developing the energy sector in Wales, and that is at the heart of this debate today. For that reason, we cannot support Plaid's first amendment.

For this nation to have a strong, sustainable economy, each area of Wales must be afforded every opportunity to perform to its full potential. That means utilising its strategic geographical position, its natural resources and the skills and experience of local communities. We believe that Ynys Môn has the potential to become a world-class centre of excellence for energy development. It is already one of the best sites in the world for the siting of a nuclear power plant and the announcement that Hitachi will take on the development of the Horizon project just highlights that point.

The investment committed by Hitachi for the island's future will ensure that up to 6,000 development jobs will be created as Wylfa B is constructed and will secure over 1,000 permanent, highly qualified, highly skilled engineering and technical jobs to manage the reactor for the long term. That is good news. It is good news for Ynys Môn, it is good news for the Welsh economy, and it is good news for the future security of the UK's energy supply. We welcome the steps that the Secretary of State for Wales and the First Minister have taken to obtain that deal. This shows what can be achieved when both Governments work together to harness the best outcomes for Wales.

However, Ynys Môn's future is not just about nuclear power, as there are also substantial renewable energy opportunities that the island can capitalise on, as well as opportunities to generate expertise in research and development with nearby establishments like Bangor University. Those additional opportunities are there to complement and balance the island's nuclear energy future.

To be fair to the local authority, despite its recent failings, it has understood that and that is why it was a key signatory to the creation of the energy island programme with other public and private sector partners. Harnessing a rich mix of energy streams, together with associated servicing projects, provides major potential to achieve economic, social and environmental gains for Anglesey and the wider north Wales region over the next 15 years.

Rwy'n falch o gael cynnig cynnig y Ceidwadwyr Cymreig yn enw William Graham. Cred y Ceidwadwyr Cymreig yn nhwff, datblygiad a ffyniant pob cymuned yng Nghymru—yn y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin. Mae Llywodraeth y DU hefyd am i Gymru lwyddo, gan ei bod yn rhan annatod o economi Prydain; mae'r farn honno yn dod yn fwyfwy amlwg wrth i'r bleidlais ar annibyniaeth yn yr Alban nesáu tua diwedd y flwyddyn nesaf. Mae Prif Weinidog y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi addo mai twf economaidd yw eu blaenoriaeth, a dim ond os yw'r ddwy weinyddiaeth yn cydweithio'n agosach—nid mewn cystadleuaeth—y bydd hynny yn cael ei gyflawni. Mae arweinwyr busnes yng Nghymru eisoes wedi mynegi eu barn yn glir: rhaid i'r ddwy Lywodraeth ganolbwyntio eu hymdrechion ar ddatblygu'r sector ynni yng Nghymru, a dyna sydd wrth wraidd y ddatl hon heddiw. Am y rheswm hwnnw, ni allwn gefnogi gwelliant cyntaf Plaid.

Er mwyn sicrhau bod gan y wlad hon economi gref a chynaliadwy, rhaid i bob rhan o Gymru gael pob cyfle posibl i berfformio i'w llawn botensial. Mae hynny'n golygu defnyddio ei safle daearyddol strategol, ei hadnoddau naturiol a'i sgiliau a'i phrofiad o gymunedau lleol. Credwn fod gan Ynys Môn y potensial i ddod yn ganolfan ragoriaeth o'r radd flaenaf ar gyfer datblygu ynni. Mae eisoes yn un o'r safleoedd gorau yn y byd o ran lleoli gorsaf ynni niwclear ac mae'r cyhoeddiad y bydd Hitachi yn ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu prosiect Horizon ond yn tanlinellu'r pwynt hwnnw.

Bydd y buddsoddiad y mae Hitachi wedi ymrwymo iddo ar gyfer dyfodol yr ynys yn sicrhau y bydd hyd at 6,000 o swyddi datblygu yn cael eu creu wrth i Wylfa B gael ei hadeiladu a bydd yn sicrhau dros 1,000 o swyddi peirianyddol a thechnegol parhaol i sy'n gofyn am staff hyfedr a chymwysterau da i reoli'r adweithydd yn yr hirdymor. Mae hynny'n newyddion da. Mae'n newyddion da i Ynys Môn, mae'n newyddion da i economi Cymru, ac mae'n newyddion da o ran diogelwch cyflenwad ynni'r DU yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r camau y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Weinidog Cymru wedi eu cymryd i sicrhau'r cytundeb hwnnw. Dengys yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd y ddwy Lywodraeth yn cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru.

Fodd bynnag, nid oes a wnelo dyfodol Ynys Môn ag ynni niwclear yn unig, gan fod cyfleoedd sylweddol hefyd ym maes ynni adnewyddadwy y gall yr ynys fanteisio arnynt, yn ogystal â chyfleoedd i feithrin arbenigedd ymchwil a datblygu gyda sefydliadau cyfagos fel Prifysgol Bangor. Mae'r cyfleoedd ychwanegol hynny ar gael i ategu a chydbwysu dyfodol ynni niwclear yr ynys.

A bod yn deg â'r awdurdod lleol, er gwaethaf ei fethiannau diweddar, mae wedi deall hynny a dyna pam y bu'n un o'r llofnodwyr allweddol yn y broses o greu'r rhaglen ynys ynni ar y cyd â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae harneisio cymysgedd cyfoethog o ffyrddiau ynni, ynghyd â phrosiectau gwasanaethu cysylltiedig, yn cynnig potensial sylweddol i sicrhau enillion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Ynys Môn a rhanbarth ehangach gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf.

Therefore, it is vital that, when democratic stability comes to the island after May, the authority really drives forward this programme and is supported in that by the Welsh Government. Again, to be fair to the Welsh Government, it has also identified the potential of Ynys Môn and can see that developing the energy sector on Anglesey is a potential strategic fit. The designation of the enterprise zone there is part of that acknowledgement. However, of course, designation in itself is not enough. In order to ensure that the opportunities of energy generation on Anglesey are not wasted, the Welsh Government must do more to promote the island as a centre for energy generation. The enterprise zone is a valuable addition to the island, and I hope that the First Minister will be able to expand on some of the points that his colleague the Minister for Economy, Science and Transport outlined yesterday for the Anglesey zone.

We are calling for the Government to seriously consider the development of a clear, strategic plan of action that will bring all the current project strands together, so that it can properly support the development of the island as a centre for energy generation. For that reason, we cannot support Plaid's second amendment.

I realise that the First Minister will be providing the Assembly with a further statement about progress on implementing 'Energy Wales' in a few weeks' time, but I hope that he can provide us with an update today on how the Government is continuing to support the energy island programme on top of that. Will he be able to give us an update on progress in relation to the recommendations in the Environment and Sustainability Committee's report on its inquiry into energy policy and planning? It is almost 11 months since those 77 recommendations were made; they have a major bearing on the overall strategic picture and what the Government intends to achieve in relation to Anglesey.

Felly, mae'n hanfodol, pan ddaw sefydlogrwydd democrataidd yn ôl ar yr ynys ar ôl mis Mai, fod yr awdurdod yn bwrw ymlaen â'r rhaglen hon ac yn cael ei gefnogi yn hynny o beth gan Lywodraeth Cymru. Unwaith eto, a bod yn deg â Llywodraeth Cymru, mae hefyd wedi nodi potensial Ynys Môn ac yn gallu gweld bod datblygu'r sector ynni ar Ynys Môn yn ateb strategol addas posibl. Mae'r penderfyniad i ddynodi'r ardal fenter yno yn rhan o'r gydnyddiaeth honno. Fodd bynnag, wrth reswm, nid yw'r dynodiad ynddo'i hun yn ddigon. Er mwyn sicrhau nad yw cyfleoedd i gynhyrchu ynni ar Ynys Môn yn cael eu gwastraffu, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud rhagor i hyrwyddo'r ynys fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni. Mae'r ardal fenter yn ychwanegiad gwerthfawr i'r ynys, a gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn gallu ymhelaethu ar rai o'r pwyntiau a amlinellwyd gan ei gyd-Weinidog, y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddoe ar gyfer ardal fenter Ynys Môn.

Rydym yn galw ar y Llywodraeth i ystyried o ddirif ddatblygu cynllun gweithredu strategol, clir a fydd yn dod â'r holl feysydd prosiect presennol at ei gilydd, fel y gall roi cefnogaeth briodol i ddatblygu'r ynys fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni. Am y rheswm hwnnw, ni allwn gefnogi ail welliant Plaid.

Sylweddolaf y bydd y Prif Weinidog yn rhoi datganiad pellach am hynt gweithredu 'Ynni Cymru' i'r Cynulliad ymhen ychydig wythnosau, ond gobeithio y bydd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni heddiw ynghylch sut y mae'r Llywodraeth yn parhau i gefnogi'r rhaglen ynys ynni ar ben hynny. A fydd yn gallu rhoi'r diweddaraf ar gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio? Mae bron 11 mis wedi mynd heibio ers i'r 77 o argymhellion gael eu gwneud; cânt effaith fawr ar y darlun strategol cyffredinol a'r hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gyflawni mewn perthynas ag Ynys Môn.

16:05

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will be supporting the Lib Dem motion because I think that it does add value in relation to the wider issues of grid transmission and how the process is conducted. I hope that this debate this afternoon will allow as many Members as possible to contribute because it is important to focus not just on Ynys Môn, but on Wales and the wider UK, because the island's contribution to Britain's energy future is considerable.

I have selected the four amendments to the motion and I call on Ieuan Wyn Jones to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Jocelyn Davies.

Gwelliant 1—Jocelyn Davies

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'ond yn gresynu bod y dasg o adfywio economi'r ynys yn cael ei thanseilio gan raglen doriadau Llywodraeth y DU'.

Gwelliant 2—Jocelyn Davies

Byddwn yn cefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol oherwydd fy mod o'r farn ei fod yn ychwanegu gwerth mewn perthynas â materion ehangach trawsyrru grid a'r ffordd y cynhelir y broses. Gobeithio y bydd y ddadl hon y prynhawn yma yn rhoi cyfle i gymaint o Aelodau â phosibl gyfrannu oherwydd mae'n bwysig canolbwyntio nid yn unig ar Ynys Môn, ond ar Gymru a'r DU ehangach, gan fod cyfraniad yr ynys i ddyfodol ynni Prydain yn sylweddol.

Rwyf wedi dewis y pedwar gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Ieuan Wyn Jones i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Jocelyn Davies.

Amendment 1—Jocelyn Davies

Insert at end of point 1:

'but regrets that the task of regenerating the island's economy is undermined by the UK Government's austerity programme'.

Amendment 2—Jocelyn Davies

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu dynodi Ynys Môn yn ardal fenter.

Gwelliant 3—Jocelyn Davies

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 4:

Delete point 3 and replace with:

Welcomes the designation of Ynys Môn as an enterprise zone.

Amendment 3—Jocelyn Davies

Insert at the end of point 4:

16:05

Ieuan Wyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

'ac felly'n galw am ddatganoli polisi ynni i'r Cynulliad Cenedlaethol.'

Rwy'n cynnig gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies.

Byddaf yn canolbwyntio fy sylwadau ar sut y gall Ynys Môn elwa yn economaidd o'r cynlluniau ynni mawr sy'n debyg o ddod yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae Russell George wedi cyfeirio at un neu ddau, ond mae mwy na hynny, fel y nododd ef. Mae nifer ohonynt, gan gynnwys Celtic Array, sef y cynllun tyrbinau gwynt yn y môr, cynllun Marine Current Turbines, sy'n rhan o gwmni Siemens ac sy'n bwriadu harneisio grym y môr i gynhyrchu trydan, a chynllun Hitachi, fel yr ydym wedi clywed, i adeiladu gorsaf ynni niwclear yn yr Wylfa. Mae'r rhain i gyd yn gynlluniau sylweddol iawn, ac rwy'n eu croesawu i gyd, fel yr Aelod lleol.

Mae economi'r ynys yn hynod fregus, ac mae angen chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad i ddod â swyddi o safon uchel i ni. Yr hyn sy'n bwysig iawn i ni ym Môn yw sicrhau mai'r economi lleol a rhanbarthol sy'n elwa o'r buddsoddiadau hyn. Mae llawer o waith wedi ei wneud eisoes i sicrhau bod hynny'n digwydd. Cwmni Horizon, fel yr ydym wedi clywed, a fydd yn cymryd llawer o'r cyfrifoldeb yn y tymor byr am ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr Wylfa. Yn naturiol, a minnau'n Aelod lleol, rwy'n cael cyfarfodydd cyson gyda chynrychiolwyr Horizon, ac mae perthynas dda rhyngddynt a'r gymuned lleol. Rwyf hefyd wedi cyfarfod cynrychiolwyr Hitachi ar sawl achlysur a phwysleisio'r angen i fagsimeiddio'r budd i'r economi lleol. Mae Horizon, er enghraifft, eisoes wedi sefydlu pencadlys lleol ac wedi rhoi contractau lleol yn barod. Rwy'n siŵr y bydd angen rhoi mwy o bwysau ar y cwmni i sicrhau bod mwy o bresenoldeb lleol a hwb i'r economi lleol. Y sialens fawr fydd cau'r bwlch cymaint ag sy'n bosibl rhwng diwedd oes yr Wylfa bresennol—gall hynny fod yn 2014 neu, o bosibl, erbyn hyn, yn 2015—a diwedd cyfnod dad-gomisiynu Trawsfynydd yn 2016, ar y naill law, a dechrau cynhyrchu mewn gorsaf newydd ar ddechrau'r ddegawd nesaf.

Bydd buddiannau sylweddol os gallwn ddod â'r cyfan at ei gilydd yn yr Wylfa, sef hyd at 1,000 o swyddi pan fydd yr orsaf newydd yn dechrau cynhyrchu, a bydd angen mwy na hynny yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd angen help ar gwmnïau lleol a fydd yn barod i fanteisio ar y cyfleodd sylweddol a ddaw yn sgîl y cadwynau cyflenwi. Un gwyn rwyf wedi ei chael ynglŷn â'r cyfnod o adeiladu'r Wylfa wreiddiol oedd nad oedd cwmnïau lleol wedi cael digon o fantais o'r gadwyn gyflenwi. Rhaid i ni sicrhau bod hynny'n digwydd y tro hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'and therefore calls for the devolution of energy policy to the National Assembly.'

I move amendments 1, 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies.

I will concentrate in my comments on how Ynys Môn can benefit economically from the major energy schemes that are likely to be brought forward in next few years. Russell George has referred to one or two, but there are more than that, as he noted. There are a number of them including Celtic Array, which is the offshore wind turbine scheme, the Marine Current Turbines scheme, which is part of the Siemens group and it intends to harness the power of the sea to produce electricity, and the Hitachi proposals, as we have heard, to build a nuclear reactor in Wylfa. These are all very substantial schemes, and I welcome them all, as the local Member.

The island's economy is exceptionally fragile and we need a significant injection of investment to bring high-quality jobs to the island. What is important for us in Ynys Môn is to ensure that the local and regional economy benefits from these investments. A great deal of work has already been done to ensure that this is the case. As we have heard, Horizon will take much of the responsibility in the short term for developing plans for Wylfa. Naturally, as the local Member, I have regular meetings with Horizon representatives, and there is a good relationship between them and the local community. I have also met Hitachi representatives on a number of occasions and have emphasised the need to maximise the benefits to the local economy. Horizon, for example, has already established a local headquarters and has awarded contracts locally. I am sure that we will need to put further pressure on the company to ensure a greater local presence and boost to the local economy. The major challenge will be to close the gap as much as possible between the end of life of the current Wylfa plant—that could be in 2014 or possibly now in 2015—and the end of the decommissioning period at Trawsfynydd in 2016, on the one hand, and the start of production in a new plant at the beginning of the next decade.

There will be significant benefits if we can bring all this together in Wylfa, including up to 1,000 jobs when the new plant starts production and more than that during the construction phase. There will be a need for assistance for local companies that will be ready to take advantage of the significant opportunities that will arise in terms of the supply chain. One complaint that I have heard regarding Wylfa's original construction phase was that local companies did not benefit enough from the supply chain. This time, we must ensure that that happens.

Bydd llai o swyddi yn cael eu creu yn y ddau gynllun arall, sef fferm wynt Rhiannon a chynllun Marine Current Turbines, ond mae potensial i'r swyddi hyn fod yn rhai o safon uchel.

Fewer jobs will be created by the other two schemes, namely the Rhiannon windfarm and the Marine Current Turbines proposal, but there is potential for these jobs to be of a high quality.

16:09 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I want to congratulate the local community for responding so positively to the enormous opportunities that these substantial investments will bring. The energy island team is working closely with all the companies to deliver massive local benefits. It is working with the Welsh Government to deliver benefits from the designation of parts of the island as an enterprise zone. The work within the enterprise zone is being closely aligned with the work of the energy island and the other key stakeholders. We have already established training and apprenticeship courses. The partnership of the Welsh Government, Horizon, local councils and others has already delivered 50 places on the Cwmni Prentis Menai scheme, and another partnership involving local schools is delivering 70 places on engineering-related courses. We are also in the process—

Hoffwn longyfarch y gymuned leol am ymateb mor gadarnhaol i'r cyfleoedd enfawr a ddaw yn sgil y buddsoddiadau sylweddol hyn. Mae'r tîm ynys ynni yn gweithio'n agos gyda'r holl gwmnïau i sicrhau manteision lleol enfawr. Mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau manteision yn sgil dynodi rhannau o'r ynys yn ardal fenter. Mae'r gwaith o fewn yr ardal fenter yn cael ei gysoni â gwaith yr ynys ynni a'r rhanddeiliaid allweddol eraill. Rydym eisoes wedi sefydlu cyrsiau hyfforddi a phrentisiaethau. Mae'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Horizon, cynghorau lleol ac eraill eisoes wedi darparu 50 o leoedd ar gynllun Cwmni Prentis Menai, ac mae partneriaeth arall sy'n cynnwys ysgolion lleol yn darparu 70 o leoedd ar gyrsiau sy'n gysylltiedig â pheirianeg. Rydym hefyd yn y broses o—

16:09 **Ieuan Wyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am grateful to the Member for giving way. Could the Member confirm that Horizon would go ahead if there was a Plaid Cymru Government?

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ildio. A allai'r Aelod gadarnhau y byddai Horizon yn mynd rhagddi pe bai Llywodraeth Plaid Cymru?

I am not going to be involved in party-political nit-picking at this stage. What I am doing, Andrew R.T. Davies, is representing my constituents, making sure that we maximise the investment that will happen in Ynys Môn. I now see that he is not interested in Ynys Môn at all; all he is interested in is making some very cheap political points. [Interruption.] Let me just make this point.

Nid wyf am gymryd rhan mewn ymgecru gwleidyddol ar hyn o bryd. Yr hyn yr wyf yn ei wneud, Andrew R.T. Davies, yw cynrychioli fy etholwyr, gan sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r buddsoddiad a fydd yn digwydd yn Ynys Môn. Gwelaf yn awr gweld nad oes diddordeb ganddo yn Ynys Môn o gwbl; y cyfan y mae am ei wneud yw gwneud rhyw bwyntiau gwleidyddol dibwys. [Torri ar draws.] Gadewch imi wneud y pwynt hwn.

We are also in the process of setting up the science park, where we can concentrate on innovative energy and clean technology enterprises. The point has been made about Bangor University, which is a key partner in delivering local and regional value from these investments. I know that the university is keen to work with Hitachi, Celtic Array and Siemens, so that we can offer graduate and postgraduate courses to meet the demand for the high level of skills that we need. All these projects are worth in excess of £10 billion investment in total. We have seen generations of young people having to leave the island due to a lack of employment. Here, we have a unique set of circumstances with vast potential. I will do what I can to make sure that we capitalise on it.

Rydym hefyd wrthi'n sefydlu'r parc gwyddoniaeth, lle y gallwn ganolbwyntio ar ynni arloesol a mentrau technoleg lân. Mae'r pwynt wedi'i wneud am Brifysgol Bangor, sy'n bartner allweddol o ran sicrhau gwerth lleol a rhanbarthol o'r buddsoddiadau hyn. Gwn fod y brifysgol yn awyddus i weithio gyda Hitachi, Celtic Array a Siemens, fel y gallwn gynnig cyrsiau graddedig ac ôl-raddedig i ateb y galw am y lefel uchel o sgiliau sydd eu hangen arnom. Mae'r holl brosiectau hyn yn fuddsoddiad gwerth dros £10 biliwn i gyd. Rydym wedi gweld cenedlaethau o bobl ifanc yn gorfod gadael yr ynys oherwydd prinder gwaith. Yma, rydym yn wynebu amgylchiadau unigryw sydd â photensial enfawr. Gwnaf bopeth o fewn fy ngallu i sicrhau ein bod yn manteisio arno.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn cydnabod yr angen i gryfhau'r rhwydwaith trawsyrru presennol o ganlyniad i ddatblygiadau ynni arfaethedig yng Ngogledd Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau tryloywder llawn wrth ymgysylltu â'r Grid Cenedlaethol ar seilwaith newydd i'r grid.

Recognises the need to strengthen the existing transmission network as a result of proposed energy developments in North Wales and calls on the Welsh Government to ensure full transparency in its engagement with the National Grid on new grid infrastructure.

I move amendment 4 in the name of Aled Roberts.

Cynigiau welliant 4 yn enw Aled Roberts.

The Welsh Liberal Democrats recognise the potential for Ynys Môn to play an important role in the future of energy generation in Wales, which, in turn, will provide much-needed jobs, support the economy of north Wales and, indeed, stimulate the energy supply chain across the wider UK. Over the past decade, renewable energy deployment in Wales has been slower than in the rest of the UK. UK-installed renewable energy capacity grew at an annual rate of 17% from 2003 to 2011, while in Wales the annual growth rate was significantly lower at some 9%. Clearly, we have work to do in Wales, and the plans for Ynys Môn will play a huge part in this wider strategy.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cydnabod potensial Ynys Môn i chwarae rhan bwysig yn nyfodol cynhyrchu ynni yng Nghymru, a fydd, yn ei dro, yn darparu swyddi sydd eu hangen yn ddifrif, yn cefnogi economi gogledd Cymru ac, yn wir, yn ysgogi'r gadwyn cyflenwi ynni ar draws y DU ehangach. Dros y degawd diwethaf, mae'r defnydd o ynni adnewyddadwy yng Nghymru wedi bod yn arafach nag yng ngweddill y DU. Tyfodd gallu'r DU i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfradd flynyddol o 17% rhwng 2003 a 2011, ond yng Nghymru mae'r gyfradd twf flynyddol yn sylweddol is, sef tua 9%. Yn amlwg, mae gennym waith i'w wneud yng Nghymru, a bydd y cynlluniau ar gyfer Ynys Môn yn chwarae rhan enfawr yn y strategaeth ehangach hon.

The Liberal Democrats recognise that the development of a diverse, low-carbon energy mix will include the development of nuclear power at the existing Wylfa site on Ynys Môn. Our future energy needs cannot be achieved by relying upon any single energy source. Nuclear energy accounted for 22% of the total electricity generated in the third quarter of 2012, yet the current ageing fleet of nuclear power stations will soon be decommissioned, with many already operating beyond their original design lives. With around one fifth of our energy-generating capacity due to close over the course of the next decade, previous UK Government policy has clearly failed to provide serious investment in renewable energy, cushioned by oil and gas reserves, and hoping that nuclear would be the answer to bridge the future energy gap.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cydnabod y bydd y gwaith o ddatblygu cymysgedd ynni carbon isel amrywiol yn cynnwys datblygu ynni niwclear ar safle presennol yr Wylfa ar Ynys Môn. Ni fydd modd diwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol drwy ddibynnu ar un ffynhonnell o ynni yn unig. Roedd ynni niwclear yn cyfrif am 22% o gyfanswm y trydan a gynhyrchwyd yn y trydydd chwarter yn 2012, ac eto bydd y gyfres bresennol o orsafoedd ynni niwclear sy'n heneiddio yn cael ei dadgomiynu cyn hir, gyda llawer eisoes yn gweithredu y tu hwnt i'w hoes cynllun wreiddiol. Gyda thua un rhan o bump o'n gallu i gynhyrchu ynni yn dod i ben yn ystod y degawd nesaf, mae'n amlwg bod polisi blaenorol Llywodraeth y DU wedi methu â gwneud buddsoddiad sylweddol mewn ynni adnewyddadwy, a hithau wedi'i chlustogi gan gronfeydd o olew a nwy, ac yn gobeithio mai ynni niwclear fyddai'r ateb i lenwi'r bwlch ynni yn y dyfodol.

The UK Energy Bill seeks to address this, enabling a trebling of support for low-carbon energy generation from the current level. It presents the UK with a tremendous opportunity for delivering green jobs and growth, making the UK less reliant on fossil fuels and, indeed, attracting the £110 billion of investment that is needed to make up for our potential energy shortfall and, indeed, to keep the lights on. In the meantime, nuclear will continue to play an important part in ensuring that this is the case. However, the coalition's policy ensures that there is to be no public subsidy for nuclear power unless similar support is available for other types of low-carbon generation.

Mae Bil Ynni'r DU yn ceisio mynd i'r afael â hyn, gan alluogi treblu cymorth i gynhyrchu ynni carbon isel o'r lefel bresennol. Mae'n gyfle gwych i'r DU ddarparu swyddi gwyrdd a thwf, gan wneud y DU yn llai dibynnol ar danwydd ffosil ac, yn wir, gan ddenu £110 biliwn o fuddsoddiad sydd ei angen i wneud iawn am ein diffyg ynni posibl ac, yn wir, i gadw'r goleuadau ynghynn. Yn y cyfamser, bydd niwclear yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran sicrhau mai fel hyn y bydd. Fodd bynnag, mae polisi'r gylmblaid yn sicrhau nad oes unrhyw gymhorthdal cyhoeddus i ynni niwclear oni bai bod cymorth tebyg ar gael ar gyfer mathau eraill o gynhyrchu carbon isel.

According to the Department of Energy and Climate Change's 2012-13 budget, dealing with nuclear legacy issues costs around £2.5 billion a year—more than 42% of DECC's entire budget. This has risen to 69% of the DECC budget for 2013-14. This is clearly unsustainable. Pursuing a no-cost subsidy will ensure that developers take responsibility, so that the cost of the clean-up and disposal of nuclear waste created by new nuclear will, for the first time in the UK, be met by the industry itself. This ensures that nuclear is not favoured over renewable energy, and it will have to compete alongside other low-carbon energy sources. If this action and investment had taken place over a decade ago, we would already have the energy infrastructure and capacity in place to secure our energy supply for the future.

We are left now in a situation where we must broaden our energy mix or risk facing a situation where there is a shortage of supply and where the lights go out. We need to ensure greater use of low-carbon energy sources to reduce our dependence on imported gas. This is becoming increasingly expensive and it will also serve to drive down consumer energy bills. This will enable the UK to reach its target to produce 15% of its energy from renewable sources by 2020, and to reduce our greenhouse gas emissions by 80% by 2050.

Our amendment recognises the cumulative impact that energy developments in and around Anglesey will have on the transmission infrastructure in north Wales. It is estimated that there will be a net increase of 2.8 GW of additional generation in north Wales by 2020. It is therefore vital that these proposals are consulted upon with full public participation, as they are significant. National Grid has held a number of consultation events already, but I have heard concerns expressed that the sub-sea cable option has not always been presented on an equal basis.

16:16 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To conclude, we urge the Welsh Government to update the Assembly and the public on its input into this process to ensure openness and transparency in that consultation process. We need to avoid a repeat of the confusion and outcry suffered in mid Wales in recent months, and we need to learn from that experience.

I am very grateful for the opportunity to speak in this debate today. The Hitachi investment in a new nuclear power station on Anglesey represents a once-in-a-lifetime chance to revitalise the island's economy, and to create long-term job growth and prosperity. I welcome the local Member's commitment to that process, and to making sure that Anglesey gets the most out of the investment that will be created there. It is also vital that the Welsh Government capitalises on this investment to make Ynys Môn a centre of excellence for energy, and to secure a long-lasting legacy.

Yn ôl cyllideb 2012-13 yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, mae ymdrin â materion etifeddiaeth niwclear yn costio tua £2.5 biliwn y flwyddyn—mwy na 42% o gyllideb gyfan yr Adran. Mae hyn wedi cynyddu i 69% o gyllideb yr Adran ar gyfer 2013-14. Mae hyn yn amlwg yn anghynaliadwy. Bydd dilyn polisi dim cymhorthdal yn sicrhau bod datblygwyr yn cymryd cyfrifoldeb, fel y bydd y gost sy'n gysylltiedig â glanhau a gwaredu gwastraff niwclear a grëwyd gan orsafoedd niwclear newydd, am y tro cyntaf yn y DU, yn cael ei thalu gan y diwydiant ei hun. Mae hyn yn sicrhau nad yw ynni niwclear yn cael ei ffafrio dros ynni adnewyddadwy, a bydd yn rhaid iddo gystadlu ochr yn ochr â ffynonellau ynni carbon isel eraill. Pe bai'r camau hyn a'r buddsoddiad hwn wedi digwydd dros ddegawd yn ôl, byddai gennym eisoes y seilwaith ynni a'r capasiti ar waith i sicrhau ein cyflenwad ynni ar gyfer y dyfodol.

Erbyn hyn rydym mewn sefyllfa lle mae'n rhaid inni ehangu ein cymysgedd ynni neu wynebu sefyllfa o bosibl lle mae prinder cyflenwad a lle nad oes modd cadw'r goleuadau ynghynn. Mae angen inni sicrhau mwy o ddefnydd o ffynonellau ynni carbon isel i leihau ein dibyniaeth ar nwy wedi'i fewnforio. Mae hyn yn mynd yn gynyddol ddrud a bydd hefyd yn fodd i ostwng biliau ynni defnyddwyr. Bydd hyn yn galluogi'r DU i gyrraedd ei tharged i gynhyrchu 15% o'i hynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020, ac i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr 80% erbyn 2050.

Mae ein gwelliant yn cydnabod effaith gronol y datblygiadau ynni ar Ynys Môn ac o amgylch Ynys Môn ar y seilwaith trawsyrru yn y gogledd. Amcangyfrifir y bydd cynnydd net o 2.8 GW o ynni ychwanegol yn y gogledd erbyn 2020. Felly mae'n hanfodol yr ymgynghorir ar y cynigion hyn gyda chyfranogiad llawn gan y cyhoedd, gan eu bod yn gynigion sylweddol. Mae Grid Cenedlaethol wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori eisoes, ond rwyf wedi clywed pryderon yn cael eu mynegi nad yw opsiwn y cebl tanfor wedi cael ei gyflwyno ar sail gyfartal bob tro.

I gloi, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi'r newyddion diweddaraf i'r Cynulliad a'r cyhoedd am ei chyfraniad i'r broses hon er mwyn sicrhau bod y broses ymgynghori honno yn agored ac yn dryloyw. Mae angen inni osgoi'r dryswch a'r protestiadau a welwyd yn y canolbarth yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae angen inni ddysgu o'r profiad hwnnw.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i siarad yn y ddatl hon heddiw. Mae buddsoddiad Hitachi mewn gorsaf ynni niwclear newydd ar Ynys Môn yn gyfle unigryw i adfywio economi'r ynys, a chreu swyddi a ffyniant yn yr hirdymor. Croesawaf ymrwymiad yr Aelod lleol i'r broses honno, ac i sicrhau bod Ynys Môn yn manteisio i'r eithaf ar y buddsoddiad a fydd yn cael ei greu yno. Mae'n hanfodol hefyd bod Llywodraeth Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y buddsoddiad hwn i wneud Ynys Môn yn ganolfan ragoriaeth ym maes ynni, ac i sicrhau etifeddiaeth hirbarhaol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I recently had the opportunity to meet representatives of Hitachi at the Wales Office reception on HMS St Albans, and I want to extend my thanks to Commander Block of HMS St Albans. At that reception, I met Mr Masaharu Hanyu, the deputy chairman of Hitachi. He made it clear that its investment in Wylfa would be in the order of £10 billion. It is a huge commitment from Hitachi to Anglesey and it is vital that the Welsh Government makes the most of it. It was a great shame that I did not see the First Minister at that reception. [Interruption.] Oh, I missed you, clearly. That is unusual for me as I have a fairly high periscope when it comes to viewing. [Laughter.] It was very clear at that reception that Hitachi has a very deep commitment to the project at Wylfa. There are huge opportunities there for local people. Will the First Minister outline in his response what attempts he is making to see how local schools could benefit from the fact that there may be a wealth of bilingual people there, speaking both Japanese and English, which may present opportunities for local schools in the area to use or learn those language skills during Hitachi's period of commitment to Anglesey?

As the local Member pointed out, a wealth of energy projects are taking place around Anglesey. Like William Powell, I am very concerned that the sub-sea cable option may not have been looked at properly. As Members in this Chamber will know, I have raised this matter for nigh on two years now. I think it is important, when the First Minister meets National Grid, that he ensures that the tourism industry on Anglesey, which has increased in recent years by over 10%, is not damaged by additional power lines going across the island, and that he does everything in his power to ensure that the sub-sea connection is looked at. Anglesey also has huge potential for tidal energy, particularly in terms of the proposed locations on the Menai straits.

There are some very exciting developments that indicate a very broad mix of energy that could be of real value to the Welsh economy and would show the Welsh economy leading in these types of tidal stream developments. You could argue that we have lost out on windfarm development; we have far too many of them and the technology is not being manufactured in Wales. [Interruption.] The technology is not being manufactured in Wales. It is not being made in Wales and we do not want it. The possibility of tidal energy is a new technology that Wales could really benefit from.

Yn ddiweddar, cefais gyfle i gwrrd â chynrychiolwyr o Hitachi yn nerbyniad Swyddfa Cymru ar HMS St Albans, a hoffwn ddiolch i'r Comander Block o HMS St Albans. Yn y derbyniad hwnnw, cyfarfûm â Mr Masaharu Hanyu, dirprwy gadeirydd Hitachi. Fe'i gwnaeth yn glir y byddai ei fuddsoddiad yn yr Wylfa yn werth tua £10 biliwn. Mae'n ymrwymiad enfawr gan Hitachi i Ynys Môn ac mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn manteisio i'r eithaf arno. Roedd yn drueni mawr na welais y Prif Weinidog yn y derbyniad hwnnw. [Torri ar draws.] O, fe'ch collais, mae'n amlwg. Mae hynny'n beth anarferol imi gan fod gennyf berisgop eithaf uchel i weld pethau. [Chwerthin.] Roedd yn amlwg iawn yn y derbyniad bod gan Hitachi ymrwymiad dwfn iawn i'r prosiect yn yr Wylfa. Mae cyfleoedd enfawr yno i bobl leol. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu yn ei ymateb pa ymdrechion a wna i weld sut y gallai ysgolion lleol elwa ar y ffaith y gallai fod cyfoeth o bobl ddwyieithog yno, yn siarad yn Siapaneg a Saesneg, a all gynnig cyfleoedd i ysgolion lleol yn yr ardal i ddefnyddio neu i ddysgu'r sgiliau iaith hynny yn ystod cyfnod ymrwymiad Hitachi i Ynys Môn?

Fel y nododd yr Aelod Lleol, mae cyfoeth o brosiectau ynni yn digwydd o amgylch Ynys Môn. Fel William Powell, rwy'n bryderus iawn nad yw opsiwn y cebl tanfor wedi cael ei ystyried yn drylwyr o bosibl. Fel y gwyr Aelodau yn y Siambr hon, rwyf wedi codi'r mater hwn ers bron ddwy flynedd erbyn hyn. Credaf ei bod yn bwysig, pan fydd y Prif Weinidog yn cyfarfod â'r Grid Cenedlaethol, ei fod yn sicrhau nad yw'r diwydiant twristiaeth ar Ynys Môn, sydd wedi cynyddu dros 10% yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn cael ei niweidio gan linellau pŵer ychwanegol yn mynd ar draws yr ynys, a'i fod yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod y cysylltiad tanfor yn cael ei ystyried. Mae gan Ynys Môn botensial enfawr o ran ynni'r llanw hefyd, yn enwedig o ran y lleoliadau arfaethedig ar y Fenai.

Mae rhai datblygiadau cyffrous iawn sy'n dangos cymysgedd eang iawn o ynni a allai fod o werth gwirioneddol i economi Cymru ac a fyddai'n dangos bod economi Cymru yn arwain y gad o ran y mathau hyn o ddatblygiadau ffrwd llanw. Gallech ddadlau ein bod wedi colli ein cyfle o ran datblygiad ffermydd gwynt, mae gennym lawer gormod ohonynt ac nid yw'r dechnoleg yn cael ei chynhyrchu yng Nghymru. [Torri ar draws.] Nid yw'r dechnoleg yn cael ei chynhyrchu yng Nghymru. Nid yw'n cael ei gwneud yng Nghymru, ac nid ydym yn dymuno ei chael. Mae'r posibilrwydd o ynni'r llanw yn dechnoleg newydd y gallai Cymru yn wir elwa arni.

16:21

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am also concerned at the lack of clarity there has been on the enterprise zones and the offer that is available. English zones have continually been ahead of their Welsh counterparts, with clear incentive plans and detailed information about what will be offered to companies. I would be grateful if the First Minister could address that in his response, in relation to exactly what is being offered, to ensure that we maximise this once-in-a-lifetime opportunity on Anglesey.

Rwyf hefyd yn bryderus am y diffyg eglurder a fu ynglŷn â'r ardaloedd menter a'r cynnig sydd ar gael. Mae ardaloedd menter yn Lloegr wedi bod ar y blaen drwy'r amser o'u cymharu â'r ardaloedd cyfatebol yng Nghymru, gyda chynlluniau cymhelliant clir a gwybodaeth fanwl am yr hyn a fydd yn cael ei gynnig i gwmnïau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog roi sylw i hynny yn ei ymateb, o ran beth yn union sy'n cael ei gynnig, er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfle unigryw hwn ar Ynys Môn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome this important debate. The context of the debate is clear. By 2030, it is estimated that 56% of all the energy used in the European Union will be generated from imported fossil fuels. The implications of this for energy security, economic competitiveness and price stability in Europe over the coming decades are immense. It may be instructive to look at what is happening in the energy market of the United States, a country soon set to achieve energy independence, albeit through the exploitation of shale gas. The issue in the United States of America, for us, is that its wholesale energy prices are far lower than in the European Union and they are only going one way—they are going down. So, there are major implications for the European Union and its wider economy if we fall behind in energy provision.

During a recent meeting of the British-Irish Parliamentary Assembly on energy, one of the most interesting sessions I attended was a panel discussion of analysts, academics and industry experts debating whether any country in the UK could achieve energy independence and security without nuclear power and/or shale gas in the mix. The answer was a resounding 'no'. Investment in nuclear power and the wider energy mix is crucial.

Energy is one of the EU's most important innovation policies and, as we move into the next round of structural funds and Horizon 2020 opportunities, research and innovation funding for nuclear energy and other low-carbon energy generation will be enormous. We need to be ambitious, bold and aggressive in building an economy in Wales based on stable energy generation and wider energy research and development.

The Welsh Government has been actively supporting initiatives directly aimed at this by developing the potential for energy and economic growth on Ynys Môn. It has consistently and strongly supported the development of nuclear power at Wylfa. The designation of Anglesey as an enterprise zone for the energy sector will help to develop Anglesey as a centre for energy generation and, in turn, will equip local people to be competitive in terms of skills and training. The project will create thousands of construction jobs and provide quality, well-paid employment for hundreds of highly-skilled workers on the island for decades to come.

Croesawaf y ddadl bwysig hon. Mae cyd-destun y ddadl yn glir. Erbyn 2030, amcangyfrifir y bydd 56% o'r holl ynni a ddefnyddir yn yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei gynhyrchu o danwyddau ffosil wedi'u mewnfario. Mae goblygiadau hyn o ran diogelu ynni, cystadleurwydd economaidd a sefydlogrwydd prisiau yn Ewrop yn ystod y degawdau sydd i ddod yn aruthrol. Efallai y byddai'n werth edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn y farchnad ynni yn yr Unol Daleithiau, sy'n wlad sydd ar fin dod yn annibynnol o ran ynni, er bod hynny drwy ymelwa ar nwy siâl. Y broblem yn Unol Daleithiau America, i ni, yw bod ei phrisiau ynni cyfanwerthol yn llawer is nag yn yr Undeb Ewropeaidd a dim ond i un cyfeiriad y byddant yn mynd—i lawr. Felly, mae goblygiadau mawr i'r Undeb Ewropeaidd a'i economi ehangach os ydym ar ei hôl hi o ran darpariaeth ynni.

Yn ystod cyfarfod diweddar o'r Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig ar ynni, un o'r sesiynau mwyaf diddorol a fynychais oedd trafodaeth banel o ddadansoddwyr, academyddion ac arbenigwyr yn y diwydiant ar y cwestiwn a allai unrhyw wlad yn y DU sicrhau annibyniaeth o ran ynni a diogelu ynni heb ynni niwclear a/neu nwy siâl. Yr ateb pendant oedd 'na'. Mae buddsoddi mewn ynni niwclear a'r cymysgedd ynni ehangach yn hanfodol.

Mae ynni yn un o bolisiau arloesi pwysicaf yr UE ac, wrth i ni symud i gyflwyno nesaf y cronfeydd strwythurol a chyfluoedd Horizon 2020, bydd yr arian ymchwil ac arloesi ar gyfer ynni niwclear a ffyrdd eraill o gynhyrchu ynni carbon isel yn enfawr. Mae angen inni fod yn uchelgeisiol, yn feiddgar ac yn ymosodol wrth adeiladu economi yng Nghymru yn seiliedig ar gynhyrchu ynni sefydlog ac ymchwil a datblygu ynni ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n cefnogi mentrau sydd wedi'u hanelu'n uniongyrchol at hyn drwy ddatblygu potensial ar gyfer ynni a thwf economaidd ar Ynys Môn. Mae wedi cefnogi datblygiad ynni niwclear yn yr Wylfa yn gyson ac yn gadarn. Bydd dynodi Ynys Môn yn ardal fenter i'r sector ynni yn helpu i ddatblygu Ynys Môn fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni ac, yn ei dro, yn galluogi pobl leol i fod yn gystadleuol o ran sgiliau a hyfforddiant. Bydd y prosiect yn creu miloedd o swyddi adeiladu ac yn darparu swyddi o safon sy'n talu'n dda i gannoedd o weithwyr hyfedr ar yr ynys am ddegawdau i ddod.

16:24 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ynys Môn has a long history of energy supply due to the current Wylfa nuclear power station. Anglesey's economic development strategy for the energy island seeks to strengthen its role in energy generation and supply, but it needs consistent cross-party support that investors, markets and customers know will stand the test of time. That is why I am disappointed at Plaid Cymru's lack of a clear, consistent policy on nuclear power.

Mae gan Ynys Môn hanes hir o gyflenwi ynni oherwydd yr orsaf bŵer niwclear bresennol yn yr Wylfa. Mae strategaeth datblygu economaidd Ynys Môn ar gyfer yr ynys ynni yn ceisio cryfhau ei rôl o ran cynhyrchu a chyflenwi ynni, ond mae angen cefnogaeth drawsbleidiol gyson y bydd buddsoddwyr, marchnadoedd a chwsmeriaid yn gwybod y bydd sefyll prawf amser. Dyna pam rwy'n siomedig am ddiffyg polisi dir a chyson gan Blaid Cymru ynglŷn ag ynni niwclear.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:24 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Some of us have had a consistent policy on nuclear power since 1974, so I will not hear any of that.

Mae rhai ohonom wedi cael polisi cyson ar ynni niwclear ers 1974, felly ni fyddaf yn derbyn dim o hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

For the benefit of the Member, I will retract that concerning his own position. It is just a shame that the current leader is not here to clarify her position on nuclear power today.

Ar ran yr Aelod, tynnaf hynny yn ôl o ran ei safbwynt ei hun. Mae'n drueni nad yw'r arweinydd presennol yma i egluro ei safbwynt hithau ar ynni niwclear heddiw.

16:25

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In two weeks' time, the people of Ynys Môn will go to the polls in a very important local election. Voters deserve to know whether the nationalists support low-carbon jobs in the nuclear sector on principle, and not on the basis of immediate and narrow party political interests to get them through the next few weeks. Plaid Cymru has said that it is against nuclear energy as a party, but that it supports nuclear power on Anglesey and at Trawsfynydd. It is akin to a vegetarian eating bacon. Frankly, it would be laughable were energy security not such an instrumental part of our future and such an important policy area on which to have absolute clarity.

Ymhen pythefnos, bydd pobl Ynys Môn yn pleidleisio mewn etholiad lleol pwysig iawn. Mae pleidleiswyr yn haeddu cael gwybod a yw'r cenedlaetholwyr yn cefnogi swyddi carbon isel yn y sector niwclear mewn egwyddor, ac nid ar sail buddiannau plaid wleidyddol uniongyrchol a chul i'w cynnal am yr ychydig wythnosau nesaf. Mae Plaid Cymru wedi dweud ei bod yn gwrthwynebu ynni niwclear fel plaid, ond ei bod yn cefnogi ynni niwclear ar Ynys Môn ac yn Nhrawsfynydd. Mae'n debyg i lysieuwr yn bwyta cig moch. A dweud y gwir, byddai'n chwerthinllyd oni bai bod diogelu ynni yn rhan mor allweddol o'n dyfodol ac yn faes polisi mor bwysig lle mae angen eglurder llwyr.

Speaking in the debate on the Môn a Menai action plan in July 2008, I stated:

Wrth siarad yn y ddatl ar gynllun gweithredu Môn a Menai ym mis Gorffennaf 2008, dywedais:

'The anticipated consequences of the closure and decommissioning of Wylfa power station require a strategic programme based on a quantifiable and measurable action plan.'

Mae'r canlyniadau a ragwelir yn sgîl cau a dadgomisiynu gorsaf bŵer yr Wylfa yn gofyn am raglen strategol sy'n seiliedig ar gynllun gweithredu mesuradwy.

I added that the rhetoric in the Welsh Government's action plan then

Ychwanegais fod yn rhaid i'r rhethreg yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru

'must be turned into reality, with real work being done on the strategic and delivery levels between the public, private and voluntary sectors.'

gael ei gwireddu, gyda gwaith go iawn yn cael ei wneud ar y lefelau strategol a chyflawni rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Urging the Welsh Government to consider and develop a clear plan to support the development of Ynys Môn as a centre for energy generation today, therefore, has a sense in touch of déjà vu about it. As I said then:

Felly, wrth annog Llywodraeth Cymru i ystyried a datblygu cynllun clir i gefnogi'r broses o ddatblygu Ynys Môn fel canolfan cynhyrchu ynni heddiw, teimlaf ychydig o déjà vu. Fel y dywedais bryd hynny:

'Despite receiving hundreds of millions of pounds of European funding, Wales remains the poorest part of the UK, with...Anglesey remaining one of the five poorest regions of the UK.'

Er inni gael cannoedd o filiynau o bunnoedd o arian Ewropeaidd, Cymru yw'r rhan dlotaf o'r Deyrnas Unedig o hyd, gydag...Ynys Môn yn parhau'n un o bum rhanbarth tlotaf y DU.

I added then that

Ychwanegais bryd hynny

'European funding should encourage greater entrepreneurship and, more importantly, act as a catalyst for attracting the private sector to the poorest areas.'

Dylai arian Ewropeaidd hyrwyddo mwy o entrepreneuriaeth ac, yn bwysicach na dim, fod yn sbardun i ddenu'r sector preifat i'r ardaloedd tlotaf.

However, as a number of business leaders had then pointed out,

Fodd bynnag, fel y mae sawl arweinydd busnes, wedi nodi,

'the previous round of Objective 1 funding did not make a significant difference to how the Assembly Government managed the economy.'

ni wnaeth y cylch blaenorol o gyllid Amcan 1 wahaniaeth sylweddol i'r ffordd yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn rheoli'r economi.

I added then that:

Ychwanegais wedyn:

'As we embark on a second round of European structural funding, the business sector must be allowed to come on board and play its part.'

Five years later, west Wales and the Valleys, including Anglesey, still has the lowest gross value added value of goods and services produced of all UK nations and regions. Official figures last month showed that west Wales and the Valleys, including Anglesey, has the lowest gross domestic product per head of all 37 UK areas, down 8% over eight years. In 2008, I said:

'The core of Anglesey's economy, Wylfa power station, is due to close in 2010...the decommissioning of Wylfa and the associated risks to Anglesey Aluminium Metals Ltd and other businesses are of potentially major significance to the local and regional economy. In fact, Anglesey Aluminium Metals Ltd stressed the importance of having a power station on the island to Ieuan Wyn Jones and me when we shared an industry placement together during the last Assembly. It told us that its future profitability and presence on Anglesey depended on its buy-back arrangements with Wylfa, and called for the life of the plant to be extended and for the provision of a new power station of whatever type.'

It was announced in August 2009 that Anglesey Aluminium Metals Ltd's Holyhead plant would end the following month, leading to 309 job losses. As I then said:

'Many years have passed since Government's in London and Cardiff were first warned by Anglesey Aluminium that this situation would become inevitable if urgent action was not taken ahead of the decommissioning of Wylfa Nuclear Power Station.'

I said:

'It is therefore deeply worrying that Government discussions on a rescue deal were left until the very last minute.'

Wylfa nuclear plant was given a two-year extended life, but not until October 2010. It was announced in February that Anglesey Aluminium Metals Ltd would finally close with 60 further job losses. I have visited Wylfa and attended meetings with the Horizons Wylfa new-build project liaison group with local community representatives. Developing a nuclear power station, as we heard, is a complicated and lengthy process and one that will require a number of changes to local infrastructure.

Last November, following the welcome announcement that Hitachi is taking over the project to build a new nuclear plant on Anglesey, I asked the Minister what impact this would have on future developments in the Snowdonia enterprise zone, where the chair is also a member of the Anglesey enterprise board. I note the Minister's statement yesterday that the Snowdonia chair recently made a positive case for the Snowdonia and Anglesey enterprise zones to the Nuclear Industry Association. We now need positive action and development.

Wrth inni gychwyn ar ail gylch o arian strwythurol Ewropeaidd, rhaid i'r sector busnes gael cyfle i fod yn rhan o'r broses a chwarae ei ran.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys Ynys Môn, sydd â'r gwerth gros isaf o hyd o ran gwerth ychwanegol nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir o blith holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Dengys y ffigurau swyddogol y mis diwethaf mai gan orllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys Ynys Môn, roedd y cynnyrch mewnwladol crynswth isaf y pen ymhlith y 37 o'r ardaloedd yn y DU, gostyngiad o 8% dros wyth mlynedd. Yn 2008, dywedais:

Bydd craidd economi Ynys Môn, sef gorsaf bŵer yr Wylfa, yn cau yn 2010...mae dadgomisiynu'r Wylfa a'r risgiau cysylltiedig i Alwminiwm Môn Cyf a busnesau eraill o bwys sylweddol o bosibl i'r economi leol a rhanbarthol. Yn wir, pwysleisiodd Alwminiwm Môn Cyf mor bwysig oedd cael gorsaf bŵer ar yr ynys i Ieuan Wyn Jones a minnau pan rannwyd lleoliad mewn diwydiant gennym yn ystod y Cynulliad diwethaf. Dywedodd wrthym fod ei broffidioldeb a'i bresenoldeb ar Ynys Môn yn y dyfodol yn dibynnu ar ei drefniadau prynu yn ôl â'r Wylfa, a galwodd am estyn oes y safle ac am ddarparu gorsaf bŵer newydd o ba fath bynnag.

Cyhoeddwyd ym mis Awst 2009 y byddai safle Alwminiwm Môn Cyf yng Nghaergybi yn dod i ben y mis canlynol, gan arwain at golli 309 o swyddi. Fel y dywedais ar y pryd:

Mae llawer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i'r Llywodraeth yn Llundain ac yng Nghaerdydd gael eu rhybuddio gyntaf gan Alwminiwm Môn y byddai'r sefyllfa hon yn anochel pe na chymerid camau brys cyn dadgomisiynu Gorsaf Bŵer Niwclear yr Wylfa.

Dywedais:

Felly, mae'n destun pryder mawr i drafodaethau'r Llywodraeth ar becyn achub gael eu gadael tan y funud olaf un.

Rhoddwyd estyniad i safle niwclear yr Wylfa am ddwy flynedd, ond nid tan Hydref 2010. Cyhoeddwyd ym mis Chwefror y byddai Alwminiwm Môn Cyf yn cau'n gyfan gwbl gyda 60 o swyddi eraill yn cael eu colli. Rwyf wedi ymweld â'r Wylfa ac wedi mynychu cyfarfodydd gyda grŵp cyswllt prosiect adeilad Wylfa newydd Horizons gyda chynrychiolwyr y gymuned leol. Mae datblygu gorsaf bŵer niwclear, fel y clywsom, yn broses gymhleth a hirfaith ac yn un a fydd yn gofyn am nifer o newidiadau i'r seilwaith lleol.

Fis Tachwedd diwethaf, yn dilyn y cyhoeddiad i'w groesawu fod Hitachi yn ymgymryd â'r prosiect i adeiladu gorsaf niwclear newydd ar Ynys Môn, gofynnais i'r Gweinidog pa effaith fyddai hyn yn ei chael ar ddatblygiadau yn y dyfodol yn ardal fenter Eryri, lle y mae'r cadeirydd hefyd yn aelod o fwrdd menter Ynys Môn. Nodaf ddatganiad y Gweinidog ddoe fod cadeirydd Eryri yn ddiweddar wedi cyflwyno achos cadarnhaol dros ardaloedd menter Eryri ac Ynys Môn i Gymdeithas y Diwydiant Niwclear. Mae angen camau gweithredu a datblygu cadarnhaol bellach.

Following widespread concern on Anglesey about the proliferation of applications for single industrial-sized wind turbines, the council leader told me that he was calling a seminar of all members. The day after Anglesey Against Wind Turbines met council officers, the council launched a consultation on its draft onshore wind energy supplementary planning guidance—reacting rather than acting, unfortunately.

Yn dilyn pryder cyffredinol ar Ynys Môn ynglŷn â'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am dyrbinau gwynt diwydiannol eu maint unigol, dywedodd arweinydd y cyngor wrthyf ei fod yn galw seminar ar gyfer yr holl aelodau. Y diwrnod wedyn cyfarfu ymgyrch Ynys Môn yn erbyn Tyrbinau Gwynt â swyddogion y cyngor, lansiodd y cyngor ymgynghoriad ar ei ganllawiau cynllunio atodol drafft ar ynni'r gwynt ar y tir—gan adweithio yn hytrach na gweithredu, yn anffodus.

16:30 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sixteen months after the Welsh Government appointed commissioners to run Anglesey council due to failings in corporate governance, Estyn reported that operational leadership in the delivery of education had not driven improvements in areas of underperformance, and that schools and officers had not been held to account. The people of Ynys Môn now deserve action, innovation and enterprise in real partnership with businesses and investors.

Un mis ar bymtheg ar ôl i Lywodraeth Cymru benodi comisiynwyr i redeg Cyngor Sir Ynys Môn oherwydd methiannau mewn llywodraethu corfforaethol, nododd Estyn nad oedd arweiniad gweithredol wrth ddarparu addysg wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd o dangyflawni, ac nad yw ysgolion na swyddogion wedi cael eu dwyn i gyfrif. Mae pobl Ynys Môn yn awr yn haeddu gweithredu, arloesedd a menter mewn partneriaeth wirioneddol â busnesau a buddsoddwyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Ni allaf gofio dadl yn y Siambr a oedd yn cyfeirio mor benodol at un ardal awdurdod lleol. Mae hynny'n beth digon rhyfedd ynddo'i hun. Er hynny, yn dilyn cyflwyniad rhesymol Russell George, daeth y rheswm yn amlwg yn ymyriad arweinwyr y Toriaid, wrth gwrs. Cyfeiriaf yn benodol at y bedwerydd cymal yn y cynnig, sy'n ymddangos yn ddigon rhesymol ar yr wyneb, ac sy'n cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

I cannot recall a previous debate in the Chamber referring to such a specific local authority. That is quite strange in itself. However, following Russell George's quite rational presentation, the intention became clear during the Tories' leader's intervention, of course. I refer, in particular, to the fourth clause in the motion, which seems quite reasonable and proposes that the National Assembly for Wales

'Yn credu bod yn rhaid i ddatblygiad ynni niwclear ar Ynys Môn gael ei ategu gan gymorth pellach i gymysgedd cadarn o ynni ledled Cymru.'

'Believes the development of nuclear energy on Ynys Môn must be complemented by further support for a robust energy mix across Wales.'

16:31 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn greiddiol i'r cymysgedd hwnnw mae ynni gwynt. Ni allaf gofio sawl tro yr wyf wedi clywed Aelodau Toriaidd yn codi ar eu traed yn y Siambr i wrthwynebu cynlluniau am bob math o resymau. Mae'n anodd gwybod, felly, at beth mae'r bedwerydd cymal yn cyfeirio a dweud y gwir.

Crucial to that mix is wind energy. I cannot recall how many times I have seen Tory Members rising on their feet in the Chamber to oppose schemes for all kinds of reasons. Therefore, it is difficult to comprehend what that fourth clause refers to.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:31 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:31 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ar bob cyfrif, Mr Davies.

Of course, Mr Davies.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:31 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for taking an intervention. I am quite happy to say that if there was a Conservative Government here we would get rid of technical advice note 8. If there was a Plaid Cymru Government here, would you support the development of Horizon on Anglesey? It is a simple question.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Rwy'n hollol barod i ddweud pe bai Llywodraeth Geidwadol yma y byddem yn cael gwared ar nodyn cyngor technegol 8. Pe bai Llywodraeth Plaid Cymru yma, a fydddech yn cefnogi datblygiad Horizon ar Ynys Môn? Mae'n gwestiwn syml.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Byddaf yn dod at y pwynt hwnnw mewn munud. Nid oes dwywaith bod newid hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf—os nad y mwyaf—sy'n wynebu dynoliaeth. Mae'r ewyllys wleidyddol i geisio ymateb i hynny yn gwanio ar hyd a lled y byd. Ni wn beth fydd ein plant a phlant ein plant yn dweud am ein hanallu a'n llwfrdra ni i wynebu'r bygythiad hwn i boblogaeth y byd ac i'n ffordd ni o fyw yng Nghymru. Dyna pam mae Plaid Cymru, ers degawdau, wedi bod yn hyrwyddo mesurau i arbed ynni gyda'n cynllun can mil o swyddi bron ugain mlynedd yn ôl, a'n polisi o gael cymysgedd o ddulliau cynhyrchu ynni a thrydan, gan fanteisio ar adnoddau naturiol Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd datblygiad parc gwyddoniaeth Menai yn rhoi'r cyfle i ni wneud gwaith ymchwil blaengar yn y maes hwn, ac yn arbennig er mwyn defnyddio grym y llanw a cherrynt y môr oddi ar arfordir yr ynys. Y gwir amdani yw bod y datblygiadau yn y cyfeiriad hwnnw yn eithriadol o araf. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw ragolwg y bydd hynny'n cyfrannu at ein hanghenion ni yng Nghymru nac ym Mhrydain.

Cyfeiriodd Ieuan hefyd at y datblygiadau cyffrous oddi ar arfordir yr ynys mewn perthynas â ffermydd gwynt, ond mae'n drychineb na fydd unrhyw un o'r tyrbinau hynny'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru nac ym Mhrydain. Os ydych eisiau tyrbîn o unrhyw fath bellach, rhaid i chi fynd i'r Almaen, Awstria, Siapan neu Tsieina. Dyna yw'r trychineb o safbwynt gwaith cynhyrchu ym Mhrydain.

I fod yn glir, polisi cyffredinol Plaid Cymru ydyw i beidio cefnogi datblygu ynni niwclear. Dyna fu polisi'r Llywodraethau Llafur yma, a hefyd dyna fu polisi'r clymbleidiau sydd wedi bod yma yn y gorffennol. Mae digon o ddatganiadau wedi cael eu gwneud yn y Siambur sy'n dangos hynny. Dyna hefyd oedd safbwynt y Rhyddfrydwyr Democratiaid. Mi gredaf, cyn iddynt fynd i glymblaidd yn San Steffan. Y gwir amdani yw bod yna lawer iawn o ddadlau a chwestiynau di-ri am ddiogelwch storio gwastraff gwenwynig ac ymbelydrol. Yn dilyn trychinebau Chernobyl a Fujiyama, mae cwestiynau hefyd am ddiogelwch y prosesau eu hunain. Nid oes un Llywodraeth yn y Deyrnas Unedig wedi llwyddo i gynnig ateb terfynol i'r broblem o storio'r gwastraff gwenwynig hwn dros gannoedd o flynyddoedd. Tan fydd y broblem honno wedi'i datrys yn llawn, credaf ei bod yn deg gofyn y cwestiynau sylfaenol am y prosesau hyn. Diddorol iawn oedd gweld un o gefnogwyr mwyaf ynni niwclear, yr Athro Glyn O. Phillips, sy'n cael ei dderbyn fel arbenigwr rhyngwladol yn y maes hwn, yn dweud mewn erthygl ddiweddar yn 'Barn' bod gan y diwydiant hwn gwestiynau difrifol i'w hateb o safbwynt lleddfu ofnau pobl, ac, yn wir, o safbwynt ei record ei hun. Felly, peidied neb â dweud bod y darlun hwn yn ddu a gwyn. Mae yna gwestiynau i'w hateb gan y diwydiant.

I will come to that point later. There is no doubt that climate change is one of the biggest challenges—if not the biggest—facing humanity. The political will to try to respond to that is weakening across the world. I do not know what our children and our children's children will say about our unwillingness and our cowardice to face up to that threat to the world's population and to our way of living in Wales. That is why Plaid Cymru has, for decades, been promoting measures to save energy with our 100,000 jobs scheme nearly 20 years ago, and the policy of having a mix of energy and electricity generation methods by making the most of Wales's natural resources. I hope that the development of the Menai science park will give us an opportunity to conduct innovative research in this area, and particularly to harness tidal energy on the shores of the island. There is no doubt that such developments have been extremely slow. As yet, there has been no forecast that that will contribute to our needs in Wales or Britain.

Ieuan also referred to the island's exciting offshore developments in terms of windfarms, but the tragedy is that none of those turbines will have been manufactured in Wales or in Britain. If you need any kind of turbine you now have to go to Germany, Austria, Japan or China. That is the tragedy in terms of manufacturing in Britain.

To be clear, Plaid Cymru's general policy is not to support nuclear power developments. That was the policy of previous Governments here under Labour, and under previous coalition Governments here. Many statements have been made in the Chamber to support that. That was also the policy of the Liberal Democrats, I think, before they entered into a coalition at Westminster. The truth of the matter is that there have been many discussions and endless questions about the safety of storing contaminated and radioactive waste. Following Chernobyl and Fujiyama disasters, there have been questions about the safety of the processes themselves. No Government in the United Kingdom has come up with a plausible solution to storing this poisonous waste over a period of hundreds of years. Until that has been resolved fully, I think that it is fair to ask fundamental questions about these processes. It was interesting to see one of the most fervent supporters of nuclear energy, Professor Glyn O. Phillips, who is an internationally renowned scientist in this field, saying recently in 'Barn' that this industry has some serious questions to address in alleviating people's concerns, and, indeed, in terms of its own record. So, let no-one say that this picture is black and white. Questions need to be answered by the industry itself.

16:35

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fodd bynnag, os daw gorsaf niwclear i Fôn, rhaid sicrhau bod cymaint â phosibl o'r gweithwyr yn rhai lleol, yn union fel y digwyddodd gyda chynllun trydan Dinorwig yn y saithdegau a'r wythdegau. Cafodd y cynllun hwnnw effaith llesol ar y gogledd-orllewin. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi cefnogi Grŵp Llandrillo Menai i ddod â'r cynllun prentisiaethau i fodolaeth, a dyna'r ffordd y byddwn yn sicrhau budd hirdymor i'r ardal o unrhyw ddatblygiadau ynni yn y dyfodol.

However, if a nuclear reactor is built in Anglesey, then it will need to be ensured that as many of the workers as possible are local, as was the case with the Dinorwig electricity project in the seventies and eighties. That project has a beneficial impact on the north-west. The Isle of Anglesey County Council and Gwynedd Council have supported Grŵp Llandrillo Menai to bring forward an apprenticeship scheme, and that is how we will ensure that there are long-term benefits to the area of any energy projects in future.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I rise to support this motion recognising the simple truth that the development of nuclear energy on Ynys Môn, which is very much welcomed for the economy of the island, must be complemented by further support for a robust energy mix across Wales. The current UK Government has acted and got on with the task of building new nuclear power stations—an important backbone for a robust and reliable electricity network. For too long, the Government here in Cardiff bay has gone along with the concept of wind energy and allowed the proliferation of windfarms across our landscape. We need to invest in predictable, sustainable and reliable energy production—not just nuclear, hydro and tidal power. However, in the context of this debate, nuclear is a very viable option in the medium term. Only the mad would ignore the fact that Wales will continue to depend on conventional supplies of gas and coal electricity while we develop alternatives. An unhelpful truth for the Government here is that the more wind power we have, the greater need there is for power stations to be on stand-by. The most inefficient power station is one on stand-by, and that is the sad truth of wind power: it is just not dependable.

Codaf ar fy nhraed i gefnogi'r cynnig hwn gan gydnabod y gwirionedd syml bod yn rhaid i ddatblygu ynni niwclear ar Ynys Môn, sydd i'w groesawu'n fawr iawn o ran economi'r ynys, gael ei ategu gan gymorth pellach i sicrhau cymysgedd ynni cadarn ledled Cymru. Mae Llywodraeth bresennol y DU wedi gweithredu ac wedi bwrw ymlaen â'r dasg o adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd— asgwrn cefn pwysig i rwydwaith trydan cadarn a dibynadwy. Ers gormod o amser, mae'r Llywodraeth yma ym mae Caerdydd wedi derbyn y cysyniad o ynni'r gwynt ac wedi caniatáu'r cynnydd yn nifer y ffermydd gwynt ar draws ein tirwedd. Mae angen inni fuddsoddi mewn cynhyrchu ynni rhagweladwy, cynaliadwy a dibynadwy— nid dim ond niwclear, trydan dŵr ac ynni'r llanw. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y ddatl hon, mae niwclear yn ddewis hyfyw iawn yn y tymor canolig. Dim ond y gwallgof a fyddai'n anwybyddu'r ffaith y bydd Cymru yn parhau i ddibynnu ar gyflenwadau confensiynol o drydan nwy a glo tra ein bod yn datblygu dewisiadau eraill. Po fwyaf o ynni'r gwynt a gynhyrchwn yma, y mwyaf fydd yr angen am orsafoedd pŵer mewn modd segur—mae hynny'n wirionedd anghysurus i'r Llywodraeth yma. Yr orsaf bŵer fwyaf aneffeithlon yw'r un sydd mewn modd segur, a dyna wirionedd anffodus ynni'r gwynt: y gwir amdani yw nad yw'n ddibynadwy.

16:37 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We must recognise that Wales has an abundance of natural resources to produce renewable energy, and we must be open to investment opportunities in all these areas. It is important that Wales has a genuine energy mix. The Farmers Union of Wales made a lot of sense when it stated that reliance should not be placed on one single form of generation to meet the targets for renewable energy generation.

Rhaid inni gydnabod bod gan Gymru ddigonedd o adnoddau naturiol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, a rhaid inni fod yn agored i gyfleoedd buddsoddi ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae'n bwysig bod gan Gymru gymysgedd ynni gwirioneddol. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn synhwyrol iawn pan ddatganodd na ddylid dibynnu ar un math o gynhyrchu yn unig i gyflawni'r targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:37 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking my intervention. You have basically tried to rule out wind as an example of possible renewable energy. However, are you considering possible ways in which we store energy, such as hydrogen cells, that will take care of that intermittent process and provide a good basis for renewable energy via wind?

Diolch ichi am dderbyn ymyriad gennyf. Yn y bôn, rydych wedi ceisio diystyru gwynt fel enghraifft o ynni adnewyddadwy posibl. Fodd bynnag, a ydych yn ystyried ffyrdd posibl o storio ynni, megis celloedd hydrogen, a fydd yn gwneud iawn am y broses gynhyrchu ysbeidiol honno ac yn cynnig sail dda dros ynni adnewyddadwy drwy'r gwynt?

I am not ruling out wind energy altogether. I am just saying that the whole thing is not sustainable.

Nid wyf yn diystyru ynni gwynt yn gyfan gwbl. Dweud yr wyf nad yw'r holl beth yn gynaliadwy.

Alongside nuclear energy, we must back community-led projects, which are an important and sustainable part of the energy mix. Not only do community energy projects have a beneficial impact on the environment, they also encourage and provide wide-ranging community benefits. The Welsh Government has spent almost £2 million on support for community-led renewable energy schemes over the last three years. However, I cautiously say that I cannot identify one that has been completed.

Ochr yn ochr ag ynni niwclear, rhaid inni gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned, sy'n rhan bwysig a chynaliadwy o'r cymysgedd ynni. Mae prosiectau ynni cymunedol, nid yn unig yn cael effaith fuddiol ar yr amgylchedd, maent hefyd yn hyrwyddo ac yn cynnig manteision cymunedol eang eu cwmpas. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario bron £2 filiwn ar gymorth i gynlluniau ynni adnewyddadwy dan arweiniad y gymuned yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, dywedaf yn ofalus na allaf nodi un sydd wedi cael ei gwblhau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Assembly's Environment and Sustainability Committee report on energy policy and planning in Wales, which was published on 27 June 2012, makes over 70 recommendations. The Welsh Government accepted the majority of the recommendations, although many were accepted in principle. Recommendation 1 stated that the Welsh Government should establish a renewable energy delivery board to act as a co-ordinating body, with representatives from Government, developers and regulators. The Welsh Government accepted this proposal in principle, and we are awaiting the Government's position, with the expectation that an announcement will be made before the end of April. Perhaps the First Minister can address that when he stands to speak. The report includes recommendations regarding technical advice note 8, which regulates planning for renewable energy. It recommends that the Welsh Government should actively encourage a greater mix of below 50 MW renewable energy developments. The Welsh Government accepted this recommendation, and we therefore need TAN 8 changed. It is as simple as that.

Mae adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin 2012, yn gwneud dros 70 o argymhellion. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o'r argymhellion, er mai mewn egwyddor y cafodd llawer eu derbyn. Nododd argymhelliad 1 y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu bwrdd cyflawni ynni adnewyddadwy i weithredu fel corff cydgyssylltu, gyda chynrychiolwyr o'r Llywodraeth, datblygwyr a rheoleiddwyr. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y cynnig hwn mewn egwyddor, ac rydym yn aros am farn y Llywodraeth, gyda'r disgwyliad y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud cyn diwedd mis Ebrill. Efallai y gall y Prif Weinidog roi sylw i hynny pan fydd yn codi i siarad. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ynghylch nodyn cyngor technegol 8, sy'n rheoleiddio cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i annog mwy o gymysgedd o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy o dan 50 MW. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, ac felly mae angen i TAN 8 gael ei newid. Mae mor syml â hynny.

16:39 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In a nutshell, I commend this motion, un-amended. I want this Government to stop supporting unreliable and costly windfarms—costly financially in terms of subsidy, and costly in terms of losing our special landscape across Wales. Let us wake up and smell the coffee, and let us look at a long-term sustainable move—[Interruption.]

Yn gryo, cymeradwyaf y cynnig hwn, heb ei ddiwygio. Rwyf am i'r Llywodraeth hon roi'r gorau i gefnogi ffermydd gwynt annibynadwy a chostus—yn gostus yn ariannol o ran cymhorthdal, ac yn gostus o ran colli ein tirwedd arbennig ledled Cymru. Gadewch inni sylweddoli, a gadewch inni edrych ar newid cynaliadwy hirdymor—[Torri ar draws.]

16:40 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Do you recognise that, in December 2011, when the wind was going so fast, that the wind turbines had to stop producing energy, and that we had to import nuclear energy from France to stop the lights from going out?

A ydych yn cydnabod, ym mis Rhagfyr 2011, pan oedd y gwynt mor gryf, bod yn rhaid i'r tyrbinau gwynt roi'r gorau i gynhyrchu ynni, a bod yn rhaid inni i fewnforio ynni niwclear o Ffrainc i atal y goleuadau rhag diffodd?

Thank you for that; yes, I do recall that.

Diolch ichi am hynny; ydw, cofiaf hynny.

16:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

So, as I said, let us wake up and smell the coffee, and let us look at a long-term sustainable move to renewables, rather than the short-term madness of the destruction of our landscape.

Felly, fel y dywedais, gadewch inni sylweddoli, a gadewch inni edrych ar newid cynaliadwy hirdymor i ynni adnewyddadwy, yn hytrach na gwallgofrwydd dinistrio ein tirwedd yn y byrdymor.

I did listen to Byron Davies's speech and it seemed to me that he was saying that he is not against wind; he is just against windfarms. I am not entirely sure how the circle is squared on that basis. The reality is that renewable energy is bound to play a part in the Welsh energy mix in all its forms, even though it might be controversial.

Gwrandewais ar araith Byron Davies ac ymddengys i mi ei fod yn dweud nad gwrthwynebu ynni'r gwynt y mae, ond gwrthwynebu ffermydd gwynt. Nid wyf yn hollol siŵr sut y gellir cysoni hynny. Y gwir amdani yw bod ynni adnewyddadwy yn sicr o chwarae rhan yng nghymysgedd ynni Cymru ar ei holl ffurfiau, er y gallai fod yn ddadleuol.

16:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byron Davies a gododd—

Byron Davies rose—

16:40 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Oh, he has only just started.

O, megis cychwyn y mae.

I am making a distinction here between windfarms and perhaps seafarms, then. I am not against wind per se; I am just against windfarm development as it stands under TAN 8 on our landscape.

I am not sure that that gives us much clarity. [Laughter.] I will leave it there.

I have heard a lot of discussion about TAN 8 and about getting rid of it. Of course, if you get rid of TAN 8 you just have a free-for-all, without planning guidance at all, in which anything can be built absolutely anywhere. I would remind those on the Conservative benches that the development of wind energy—indeed, going well beyond TAN 8—is actually their own Government's policy at Westminster, but there we are. Let me see if I can move on from there to being a little bit more consensual.

I do welcome the motion that has been put forward. We do recognise the potential of Ynys Môn as a hub for energy and economic growth. As has already been stated by Antoinette Sandbach, we know that the new build will be a £10 billion investment. Hitachi has made a commitment that at least 60% of this sum will be sourced through suppliers and contractors within the UK. So, the potential is enormous, not just for the island, but also for the wider north. At its peak, there could be up to 6,000 workers on site, and once commissioned, as has already been stated, the station will employ 1,000 people over its expected lifetime of 60 years. So, I do take great pleasure in affirming my welcome of the announcement by Hitachi earlier this year of its acquisition of Horizon and, of course, its commitment to investment in nuclear power in the UK, commencing with a new build in Wales.

I have met with senior executives of Hitachi, as has the Minister for Economy, Science and Transport, and we were very much taken by their commitment to Wylfa, which they regard as their best site in the UK. The appreciation of the support shown by the vast majority of local people was there for all to see.

There are other major projects, of course: Centrica and DONG Energy will be developing the Rhiannon windfarm in the Irish sea; Marine Current Turbines will be commencing the next phase of its tidal array in the Skerries off Holyhead; and there are plans for an eco-park on the former Anglesey Aluminium site with a leisure village on the adjoining land, each with a potential to create 600 permanent jobs.

Rwy'n gwahaniaethu yma rhwng ffermydd gwynt a ffermydd ar y môr o bosibl, felly. Ni wrthwynebaf ynni'r gwynt fel y cyfryw, yr hyn a wrthwynebaf yw datblygiad ffermydd gwynt fel y mae o dan TAN 8 ar ein tirwedd.

Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n egluro pethau inni. [Chwerthin.] Gadawaf y pwynt hwnnw felly.

Rwyf wedi clywed llawer o drafodaeth am TAN 8 ac am gael gwared arno. Wrth gwrs, os ydych yn cael gwared ar TAN 8 bydd gennych ryddid llwyr, heb ganllawiau cynllunio o gwbl, lle y gall unrhyw beth gael ei adeiladu unrhyw le. Hoffwn atgoffa'r rhai ar feinciau'r Ceidwadwyr mai polisi eu Llywodraeth eu hunain yn San Steffan yw datblygiad ynni'r gwynt mewn gwirionedd—sydd yn wir, yn mynd ymhell y tu hwnt TAN 8, ond dyna ni. Gadewch imi weld os gallaf symud ymlaen a bod ychydig yn fwy cydsyniol.

Croesawaf y cynnig a gyflwynwyd. Rydym yn cydnabod potensial Ynys Môn fel canolfan ar gyfer ynni a thwf economaidd. Fel y nodwyd eisoes gan Antoinette Sandbach, gwyddom y bydd yr orsaf newydd yn gyfystyr â buddsoddiad o £10 biliwn. Mae Hitachi wedi gwneud ymrwymiad y bydd yn defnyddio cyflenwyr a chontractwyr yn y DU ar gyfer o leiaf 60% o'r swm hwn. Felly, mae'r potensial yn enfawr, nid yn unig i'r ynys, ond hefyd i'r gogledd yn fwy cyffredinol. Ar ei anterth, gallai fod hyd at 6,000 o weithwyr ar y safle, ac ar ôl i'r orsaf gael ei chomisiynu, fel y dywedwyd eisoes, bydd yn cyflogi 1,000 o bobl yn ystod ei hoes ddisgwyliedig o 60 mlynedd. Felly, ymbleseraf yn fawr iawn wrth gadarnhau fy mod yn croesawu'r cyhoeddiad gan Hitachi yn gynharach eleni ei fod yn caffael Horizon ac, wrth gwrs, ei ymrwymiad i fuddsoddi mewn ynni niwclear yn y DU, gan ddechrau gyda gorsaf newydd yng Nghymru.

Rwyf wedi cyfarfod ag uwch swyddogion o Hitachi, fel y gwnaeth y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ac mae eu hymrwymiad i'r Wylfa, sef eu safle gorau yn y DU yn eu barn hwy, wedi creu argraff fawr arnom. Mae gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a gafwyd gan y mwyafrif llethol o bobl leol i'w weld gan bawb.

Ceir prosiectau mawr eraill, wrth gwrs: bydd Centrica a DONG Energy yn datblygu fferm wynt Rhiannon ym môr Iwerddon; bydd Marine Current Turbines yn cychwyn ar y cam nesaf o'i resiad llanw yn Ynsoedd y Moelrhoniaid oddi ar arfordir Caergybi, ac mae cynlluniau ar gyfer eco-barc ar hen safle Alwminiwm Môn gyda phentref hamdden ar y tir cyfagos, y gallai'r naill a'r llall greu 600 o swyddi parhaol.

I have set out the Welsh Government's policy on energy in Wales in the document 'Energy Wales: A Low Carbon Transition', which has been well received by the sector. It provides clarity and consistency that will go some way towards de-risking, as the terminology has it, the sector's very substantial investment decisions. As a Government, we are building on the established energy island programme, which brings together the public sector bodies and developers through the various work streams that it has. For example, those that cover the supply chain, inward investment, education and skills, research and development, and community health, safety and wellbeing. The message to developers is very much that Wales is open for business and that it is the place to set up businesses to support those generation schemes.

The plan is not just to develop Anglesey as a centre for energy generation, but to equip local people to become competitive in terms of skills and training, enabling small and medium-sized enterprises to be competitive to business support, and ensuring that the infrastructure is in place to help them to service those new developments. That is why the Minister designated Anglesey as an enterprise zone for the energy sector, and master plans are being developed on a number of sites in the enterprise zone to take those developments forward.

16:44 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The work is already—

16:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, First Minister, for giving way. I was grateful to the Minister for making her statement on enterprise zones yesterday, but the one thing that was lacking was the ability to see the real impact that the enterprise zone is making. Will you commit today to publishing more detailed information so that Members can ascertain what jobs are being created, what level of investment has gone in, and, putting the Horizon project to one side, the benefits that the enterprise zone has or has not had for the Isle of Anglesey?

Of course. The Minister has been open and transparent by bringing a number of statements to the Assembly on the progress that is being made in every enterprise zone. That much is true of Anglesey, and it will continue in the future. Work is already under way on engaging with schools to promote STEM subjects so our youngest people can be best equipped for the job opportunities that will arise. A detailed skills strategy has been devised so that individuals, employees and employers have the relevant training and qualifications for a sector where safety and quality are paramount.

Rwyf wedi nodi polisi Llywodraeth Cymru ar ynni yng Nghymru yn y ddogfen 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel', a gafodd dderbyniad da gan y sector. Mae'n cynnig eglurder a chysondeb a fydd yn mynd dipyn o'r ffordd tuag at ddileu risgiau i benderfyniadau buddsoddi sylweddol iawn y sector. Fel Llywodraeth, rydym yn adeiladu ar y rhaglen ynys ynni sefydledig, sy'n dwyn ynghyd gyrff y sector cyhoeddus a'r datblygwyr drwy'r ffrydiau gwaith amrywiol sydd ganddo. Er enghraifft, y rhai sy'n cwmpasu'r gadwyn gyflenwi, mewnfuddsoddi, addysg a sgiliau, ymchwil a datblygu, ac iechyd cymunedol, diogelwch a lles. Y neges i ddatblygwyr yn sicr yw bod Cymru ar agor i fusnes ac mai dyma'r lle i sefydlu busnesau i gefnogi'r cynlluniau cynhyrchu ynni hynny.

Nid dim ond datblygu Ynys Môn fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni yw'r nod, ond hefyd helpu pobl leol i fod yn gystadleuol o ran sgiliau a hyfforddiant, gan alluogi busnesau bach a chanolig eu maint i fod yn gystadleuol i roi cymorth busnes, a sicrhau bod y seilwaith ar waith i helpu i wasanaethu'r datblygiadau newydd hynny. Dyna pam y mae'r Gweinidog wedi dynodi Ynys Môn yn ardal fenter i'r sector ynni, ac mae prif gynlluniau yn cael eu datblygu ar nifer o safleoedd yn yr ardal fenter i fwrw ymlaen â'r datblygiadau hynny.

Mae'r gwaith eisoes—

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am ildio. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am wneud ei datganiad am ardaloedd menter ddoe, ond yr un peth a oedd ar goll oedd y gallu i weld gwir effaith y mae'r ardal fenter yn ei gwneud. A wneuch chi ymrwymo heddiw i gyhoeddi gwybodaeth fanylach fel y gall Aelodau gadarnhau pa swyddi sy'n cael eu creu, pa lefel o fuddsoddiad a wnaed, a, chan anwybyddu prosiect Horizon am eiliad, y manteision y mae'r ardal fenter yn eu creu neu heb eu creu i Ynys Môn?

Wrth gwrs. Mae'r Gweinidog wedi bod yn agored a thryloyw drwy gyflwyno nifer o ddatganiadau i'r Cynulliad am y cynnydd sy'n cael ei wneud ym mhob ardal fenter. Mae hynny'n wir am Ynys Môn, a bydd yn parhau felly yn y dyfodol. Mae gwaith eisoes ar y gweill ar ymgysylltu ag ysgolion i hyrwyddo pynciau STEM fel y gall ein pobl ieuengaf fod yn barod i'r cyfleoedd gwaith a fydd yn codi. Mae strategaeth sgiliau fanwl wedi'i llunio er mwyn i unigolion, gweithwyr a chyflogwyr gael hyfforddiant ac ennill cymwysterau perthnasol ar gyfer sector lle mae diogelwch ac ansawdd yn hollbwysig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Building on the ethos underpinning the formation of Natural Resources Wales to better manage our natural resources and help us make the best decisions for investment, we know that Energy Island is key to facilitating that level of decision making. Planning and licensing workshops are in place to ensure that all parties are aware of key milestones and opportunities for joint working. The investment that we made, for example, in state-of-the-art construction and energy centres at Coleg Menai—partially geared to the opportunities that Wylfa B will present—is already bearing fruit with 70 young people already recruited to Cwmni Prentis Menai, which the Member, Ieuan Wyn Jones, has already mentioned, with a larger cohort enrolling this September.

The funding opportunities presented by the next round of European structural funds are being actively progressed through WEFO with a view to an integrated set of projects for the Energy Island programme to be worked up, with a view to their starting at the onset of the programme in 2014. Members will be aware of the infrastructure investment that has been put in place in relation to Superfast Cymru. The Minister has also part funded a masterplan study for the Port of Holyhead, which will include potential facilities for operations and maintenance of offshore windfarms. The developments in Anglesey are being led by the private sector. We are investing to ensure that people, businesses and infrastructure enable us to be competitive in order to secure employment and sourcing opportunities from those projects. Indeed, Horizon will be holding the first of a series of supply-chain events in Llandudno on 21 May.

At the same time, we recognise that the scale of these schemes and the international nature of the marketplace are such that it is essential that we work with the UK Government. Wales is represented on the UK nuclear council and we have a high profile as a substantial inward-investment location. As a Government, we are also mindful of the R&D opportunities, and we are entering into a joint venture with Bangor University for a science park. It is right to say that the lead time for these developments is long, with nuclear generation expected to commence in the mid-2020s. Horizon has just embarked upon the regulatory approval process for its advanced boiling water reactor technology, which will take up to four years. That is critically important in determining the financial viability of these multibillion-pound schemes, as evidenced by the current negotiations between DECC and EDF for the strike price, as it is described, for electricity generated by the new Hinkley C nuclear power station.

The question of choice is an interesting one. If it revolved solely about choosing to be well-paid, we would all be rushing off to become investment bankers or chief executives of Caerphilly County Borough Council, but it does not. Men and women incorporate other values and responsibilities into their choices—both as employers and employees. The question is whether they should be financially punished for those values and responsibilities. Responsibilities are easier for Government to deal with directly than values. Caring for children and other relatives, for example, still tends to fall to women, often out of necessity but often because it matters very much to some women that they have that responsibility. I will not rehearse the arguments about flexible work, carers' rights and childcare provision again, but it is one of the elements of this debate where the Government can help directly. I hope that Members will be able to support amendments 4 and 6 today. I also draw Members' attention to the First Minister's reply to my question in questions to the First Minister yesterday, as well as the observations in the Chwarae Teg report.

Dof â chi yn ôl at y dechrau, fe gredaf, a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb nas gwnaed yn amlwg. Cofiaf hefyd ddatganiad arall, sef, 'Rydym i gyd yn rhan o hyn. Yn rhan o hyn, yn yr achos hwn, fel y dangosais yn glir, fe gredaf, y mae menywod. Menywod tlawd sy'n rhan o hyn, gan orfod wynebu effeithiau'r toriadau a wneir. Dyna'r math o bethau a gofiaf. Nodaf hefyd sut y mae'r penawdau yn dewis a dethol, gan gyfeirio at 'segurwyr, nid gweithwyr'. Fodd bynnag, rwyf wedi dangos yn eithaf clir mai'r menywod y mae'r toriadau hyn yn effeithio arnynt yw'r rhai sy'n ceisio gweithio ac nad ydynt yn cael eu hwyluso gan eich toriadau.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddatl heddiw. Mae'r ddatl wedi symud yn ei blaen cryn dipyn ers y 1970au, ond, fel y dengys adroddiad Chwarae Teg heddiw a llawer adroddiad arall, mae'r rhesymau mwy cymhleth pam mae menywod yn dal i ennill llai na dynion yn parhau. Mae'r bwlch cyflog erbyn hyn yn tueddu i ddeillio nid o wahaniaethu uniongyrchol cymaint ond o'r ffordd wahanol y mae menywod a dynion yn cymryd rhan yn y farchnad lafur. Mae menywod yn tueddu i weithio mewn rhannau o'r farchnad lafur sy'n talu llai neu maent yn gweithio rhan amser. Mae llawer yn dewis peidio â thorri'r nenfwd gwyr, yn ogystal â chael eu hatal rhag gwneud hynny. Maent yn dal i ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb am waith yn y cartref, yn dal i gael babanod, ac mae rhai yn dal i fod yn destun cyfyngiadau diwylliannol. Dyma'r dewisiadau a wna pobl—yn enwedig y rhai a wna menywod—sy'n eu rhoi o dan anfantais yn y farchnad lafur, nid y farchnad ei hun, neu felly y dadleuir. Nid wyf yn gwbl argyhoeddedig am hynny.

Mae'r cwestiwn o ddewis yn un diddorol. Pe bai'n troi o amgylch dewis ennill cyflog da yn unig, byddem i gyd yn mynd ati i fod yn fancwyr buddsoddi neu'n brif weithredwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ond nid felly y mae. Mae dynion a menywod yn ymgorffori gwerthoedd a chyfrifoldebau eraill yn eu dewisiadau—fel cyflogwyr a chyflogeion. Y cwestiwn yw a ddylent gael eu cosbi'n ariannol oherwydd y gwerthoedd a'r cyfrifoldebau hynny. Mae'n haws i'r Llywodraeth ymdrin â chyfrifoldebau yn uniongyrchol na gwerthoedd. Mae'r gwaith o ofalu am blant a pherthnasau eraill, er enghraifft, yn dal i dueddu i gael ei ysgwyddo gan fenywod, yn aml o reidrydd ond yn aml am ei fod yn bwysig iawn i rai menywod eu bod yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Nid wyf am ailadrodd y dadleuon am waith hyblyg, hawliau gofaluwyr a darpariaeth gofal plant eto, ond mae'n un o elfennau'r ddatl hon lle y gall y Llywodraeth helpu'n uniongyrchol. Gobeithio y bydd yr Aelodau'n gallu cefnogi gwelliannau 4 a 6 heddiw. Tynnaf sylw'r Aelodau hefyd at ymateb y Prif Weinidog i'm cwestiwn yn ystod y sesiwn gwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe, yn ogystal â'r sylwadau yn adroddiad Chwarae Teg.

Choices are also affected by skills. Both Governments are all over the skills agenda at the moment. That will improve women's chances in the labour market, as well as men's. I hope especially that the Welsh Government will look closely at schemes in England and other European countries, which mentor women starting their own businesses. Despite the encouraging development referred to by Leanne Wood earlier, women are still half as likely as men to be engaged in entrepreneurship in the early stages of start-up. We also have work that reveals that gender plays an influential role in preventing potential female entrepreneurs from starting new businesses, even when no other barriers exist. I have raised this issue in the Chamber before, and I say again that girls need to be exposed to entrepreneurship throughout the course of their studies. They should not be limited in developing their own potential because they have opted for choices where they feel safer—the sort of things that Bethan Jenkins was talking about earlier on. They should not be limited in their ability to provide job opportunities for others.

That still does not answer the question of why women feel safe with, choose and excel at work that is generally more poorly paid. This is where I come back to values. There remains a significant and difficult question about the core attributes that society expects of men and women and how they are valued comparatively in the workplace—not least by women themselves. Society expects certain qualities in women—the usual ones of listening, caring, collaboration and commitment. I will throw in being risk averse as well, as I think that that might partly explain why so many women are attracted to the public sector, although it does not really explain the findings of the Chwarae Teg report today. I will include reticence, although personally I do not see that as a quality. I remember my boss in a law firm telling me that women make great employees: they will fight tooth and nail for a client, but they are no good at fighting for themselves. I wonder how many of us recognise that. I am not saying that men do not have these characteristics too, but they are not assumed in the same way.

Mae sgiliau hefyd yn effeithio ar ddewisiadau. Mae'r ddwy Lywodraeth yn ymlafnio dros yr agenda sgiliau ar hyn o bryd. Bydd hynny'n gwella cyfleoedd i fenywod yn y farchnad lafur, yn ogystal â chyfleoedd i ddynion. Rwy'n gobeithio'n benodol y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn ofalus ar gynlluniau yn Lloegr a gwledydd eraill yn Ewrop, sy'n mentora menywod sy'n sefydlu eu busnesau eu hunain. Er gwaethaf y datblygiad calonogol y cyfeiriodd Leanne Wood ato'n gynharach, mae menywod yn dal i fod hanner mor debygol â dynion o gymryd rhan mewn entrepreneuriaeth ar gamau cynnar dechrau busnes. Ceir gwaith hefyd sy'n datgelu bod rhywedd yn chwarae rhan ddylanwadol o ran atal darpar entrepreneuriaid sy'n fenywod rhag dechrau busnesau newydd, hyd yn oed pan nad oes unrhyw rwystrau eraill yn bodoli. Rwyf wedi codi'r mater hwn yn y Siambr o'r blaen, a dywedaf eto fod angen i ferched gael eu hamlygu i entrepreneuriaeth drwy gydol eu hastudiaethau. Ni ddylid cyfyngu ar eu gallu i ddatblygu eu potensial eu hunain am eu bod wedi gwneud dewisiadau lle maent yn teimlo'n fwy diogel—y math o bethau y soniodd Bethan Jenkins amdanynt yn gynharach. Ni ddylid cyfyngu ar eu gallu i roi cyfleoedd gwaith i eraill.

Hyd yn oed wedyn nid yw hynny'n ateb y cwestiwn pam mae menywod yn teimlo'n ddiogel gyda gwaith â chyfflog i yn gyffredinol a pham maent yn ei ddewis ac yn rhagori ynddo. A dyna lle y dychwelaf at werthoedd unwaith eto. Erys cwestiwn sylweddol ac anodd am y priodoleddau craidd y mae cymdeithas yn eu disgwyl gan ddynion a menywod a sut y cânt eu gwerthfawrogi o'u cymharu â'i gilydd yn y gweithle—yn bennaf gan fenywod eu hunain. Mae cymdeithas yn disgwyl i fenywod feddu ar briodeleddau penodol—y rhai arferol megis gwrando, gofalu, cydweithio ac ymrwymiad. Ychwanegaf amharodrydd i fentro hefyd, oherwydd credaf y gallai hynny esbonio'n rhannol pam mae cynifer o fenywod yn cael eu denu i weithio yn y sector cyhoeddus, er nad yw, mewn gwirionedd, yn egluro canfyddiadau adroddiad Chwarae Teg heddiw. Byddaf yn cynnwys swildod, er nad wyf yn ystyried bod hynny'n briodwedd fy hun. Cofiaf fy rheolwr mewn cwmni cyfreithwyr yn dweud wrthyf bod menywod yn gwneud cyflogeion gwych: byddant yn ymladd i'r eithaf dros gleient, ond maent yn anobeithiol o ran ymladd drostynt eu hunain. Tybed faint ohonom sy'n cydnabod hynny. Nid wyf yn dweud nad yw dynion yn meddu ar y priodweddau hyn hefyd, ond nid dydynt yn cael eu tybio yn yr un ffordd.

17:41

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

You may say that I am generalising, but, when a woman fails to meet those expectations, or exhibits qualities expected of ambitious men, such as fearlessness, single-mindedness, tribal loyalty and ladder climbing, she can come in for social censure. Some of the criticism of Margaret Thatcher revolved around her not being girly enough. Calling a girl 'bossy', identifying women as 'strident' or even 'assertive', is just a politically correct way of undermining women, conveying the malevolence that used to be the preserve of earthier epithets. That is what you get when you try to live down one stereotype and live up to another.

Efallai y byddwch yn dweud fy mod yn cyffredinoli, ond, pan fydd menyw yn methu â bodloni'r disgwyliadau hynny, neu'n dangos nodweddion a ddisgwylir gan ddynion uchelgeisiol, megis diffyg ofn, unplygrwydd, teyrngarwch llwythol ac uchelgais, gall gael ei cheryddu'n gymdeithasol. Roedd elfennau o'r feirniadaeth o Margaret Thatcher yn ymwneud â'r ffaith nad oedd yn dangos digon o fenyweidd-dra. Mae galw menyw yn 'drahaus', a dweud bod menyw yn 'groch' neu hyd yn oed yn 'ddi-ildio', ond yn ffordd wleidyddol gywir o danseilio menywod, gan gyfleu'r drwgewyllys a arferai fod yn gysylltiedig ag enwau doddi mwy aflednais. Dyna'r hyn a gewch pan fyddwch yn ceisio osgoi un stereoteip a chydweddu ag un arall.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

When women do meet these traditional expectations, they are not paid for it. The skills and achievements expected of women are not rewarded in the same way as those expected of men. Women are financially punished for demonstrating the values expected of them. In short, the labour market values those who take responsibility for capital more than it values those who take responsibility for people, and it takes employers, government, and men and women themselves, to change that.

I welcome the opportunity to respond to this debate. Earlier this afternoon I attended and spoke at the launch of Chwarae Teg's important new study, 'A Woman's Place... A study of women's roles in the Welsh workforce'. In common with Chwarae Teg, this Government is fully committed to gender equality and to tackling gender stereotyping. We want Wales to be a country where women are equally represented and where there is fairness and equality for all. Our programme for government and strategic equality plan contain key actions to further our commitment to this. They include equality objective 2 of the plan, which outlines how the Government will work with partners to identify and address the causes of the gender, ethnicity and disability pay and employment differences. Actions under this objective include exploring gender patterns in subject choice at school; aiming to address the under-representation of girls and women in science, technology, engineering and mathematics—STEM courses; reviewing sectors to identify areas where there may be particular potential to move women into higher-paid employment; exploring the potential for entrepreneurship and business start-up initiatives to encourage more take-up from women, ethnic minorities and disabled people; and improving access to high-quality and affordable childcare.

The Get On With Science project is an excellent example of the work that we are funding to facilitate the wider engagement of girls in science subjects at key stage 2. The project provides activities and support to families and communities in recognising the importance of science at school, in further and higher education, and in careers. It engages professional female role models, mentors and champions to demonstrate the role of and potential for women in science careers. The project advocates and influences industry partners to establish gender equity and equality of opportunity.

Pan fydd menywod yn bodloni'r disgwyliadau traddodiadol hyn, ni chânt eu talu am hynny. Ni chaiff y sgiliau na'r cyflawniadau a ddisgwylir gan fenywod eu gwobrwyo yn yr un modd â'r rhai a ddisgwylir gan ddynion. Mae menywod yn cael eu cosbi'n ariannol am ddangos y gwerthoedd a ddisgwylir ganddynt. Yn gryno, mae'r farchnad lafur yn gwerthfawrogi'r rhai sy'n cymryd cyfrifoldeb am gyfalaf yn fwy na'r rhai sy'n cymryd cyfrifoldeb am bobl, ac mae angen i gyflogwyr, y llywodraeth, a dynion a menywod eu hunain newid hynny.

Croesawaf y cyfle i ymateb i'r ddatl hon. Yn gynharach y prynhawn yma anerchais lansiad astudiaeth newydd bwysig Chwarae Teg, 'Lle'r Fenyw...Astudiaeth o rolau menywod yn y gweithlu yng Nghymru'. Fel Chwarae Teg, mae'r Llywodraeth hon yn gwbl ymrwymedig i gydraddoldeb rhywiol ac i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw. Rydym am i Gymru fod yn wlad lle y caiff menywod eu cynrychioli'n gyfartal a lle ceir tegwch a chydaddoldeb i bawb. Mae ein rhaglen lywodraethu a'n cynllun cydraddoldeb strategol yn cynnwys camau allweddol i ddatblygu ymhellach ein hymrwymiad i hyn. Maent yn cynnwys amcan cydraddoldeb 2 y cynllun, sy'n amlinellu sut y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi gwahaniaethau o ran tâl a chyflogaeth ar sail rhyw, ethnigrwydd ac anabled. Mae camau gweithredu o dan yr amcan hwn yn cynnwys archwilio patrymau rhywedd yn y pynciau a ddewisir yn yr ysgol; anelu at fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth merched a menywod ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg—cyrsiau STEM; adolygu sectorau i nodi meysydd lle y gallai fod potensial arbennig i symud menywod i gyflogaeth ar gyflog uwch; archwilio'r potensial ar gyfer mentrau entrepreneuriaeth a dechrau busnesau i annog mwy o fenywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl i wneud hynny; a gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy o safon uchel.

Mae'r prosiect Get On with Science yn enghraifft wych o'r gwaith yr ydym yn ei ariannu i ennyn mwy o ddi-ddordeb mewn pynciau gwyddonol ymhlith merched yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r prosiect yn darparu gweithgareddau a chefnogaeth i deuluoedd a chymunedau gan gydnabod pwysigrwydd gwyddoniaeth yn yr ysgol, mewn addysg bellach ac addysg uwch, ac mewn gyrfaoedd. Mae'n defnyddio modelau rôl proffesiynol, mentoriaid a hyrwyddwyr sy'n fenywod i ddangos rôl a photensial menywod mewn gyrfaoedd gwyddonol. Mae'r prosiect yn hyrwyddo ac yn dylanwadu ar bartneriaid diwydiant i sefydlu cydraddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal.

We are, of course, aware that traditional stereotypes can still shape and restrict young people's aspirations in education, training and employment. We have many fantastic female role models in Wales who have achieved much in what are considered non-traditional roles. We must continue to engage with them to help us tackle gender stereotyping. The work undertaken by Professor Laura McAllister at Sport Wales just last year is a good example of how, through engagement and encouragement, we can ensure that public bodies in Wales increase the number of women on their boards. Again, the targeted, proactive work that we are undertaking in this area will tackle the gender imbalance that we see in many public sector boards across Wales. We want to make sure that Wales is a country where we have a diverse workforce and where those in positions of power and influence are more representative of our society. By appointing more women into high-profile roles we can set the right example for young girls and young women as they look ahead to their future careers and provide them with the inspiration to succeed.

This Welsh Government is consulting with sector panel chairs and anchor companies on how Welsh businesses can increase the number of women in senior management positions. The Welsh Government promotes entrepreneurship and business start-up support to women and is actively involved in seeking views from women on tackling the barriers to participating in business start-up activities. According to the latest global entrepreneurship report, female entrepreneurship in Wales has risen to a record 6.1%, compared with 5% in the UK as a whole. Clearly, we are ahead, but we have a hell of a lot more to do. As Minister for both tackling poverty and inequality, I have oversight of the strategic equality plan and the tackling poverty action plan. Both plans dovetail and contain key actions for improving access to, and provision of, affordable and high-quality childcare. We know that the cost and quality of childcare are a major concern for many parents who are in the workplace, or who wish to work. Good quality, affordable, childcare is vital to enable parents to enter the workplace and to work sufficient hours to support their families. Many of our programmes support those children and those families. Programmes such as Flying Start and Families First are working to improve early years and childcare and make a huge difference to what children and their parents can achieve.

A critical issue for women in the workforce is pay differences. We are committed to tackling the issue of equal pay. The Welsh-specific equality duties require that public authorities in Wales that identify a gender pay difference must either set a gender pay equality objective or explain publicly why they have not done so. We all recognise that equal pay is not just a women's issue. When women get equal pay, their family income rises, the whole family benefits and the whole community benefits thereafter.

Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol y gall stereoteipiau traddodiadol barhau i ddylanwadu ar ddyheadau pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chyfyngu arnynt. Ceir llawer o fodelau rôl benywaidd gwych yng Nghymru sydd wedi cyflawni llawer yn yr hyn a ystyrir yn rolau annhraddodiadol. Rhaid inni barhau i ymgysylltu â hwy i'n helpu i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw. Mae'r gwaith a wnaed gan yr Athro Laura McAllister yn Chwaraeon Cymru y llynedd yn enghraifft dda o'r ffordd y gallwn, drwy ymgysylltu ac annog, sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cynyddu nifer y menywod sy'n aelodau o'u byrddau. Unwaith eto, bydd y gwaith rhagweithiol wedi'i dargedu yr ydym yn ei wneud yn y maes hwn yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau a welwn mewn sawl bwrdd yn y sector cyhoeddus ledled Cymru. Rydym am sicrhau bod Cymru yn wlad lle mae gennym weithlu amrywiol a lle mae rhai sydd mewn swyddi pwerus a dylanwadol yn fwy cynrychioliadol o'n cymdeithas. Drwy benodi rhagor o fenywod i swyddi proffil uchel gallwn roi'r esiampl iawn i ferched ifanc a menywod ifanc wrth iddynt edrych ymlaen at eu gyrfaoedd yn y dyfodol a'u hysbrydoli i lwyddo.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â chadeiriau panel sectorau a chwmnïau angori ynglŷn â sut y gall busnesau yng Nghymru gynyddu nifer y menywod mewn swyddi uwch reoli. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo entrepreneuriaeth a chymorth i ddechrau busnes i fenywod ac yn mynd ati i geisio barn menywod ynglŷn â mynd i'r afael â'r rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau dechrau busnes. Yn ôl yr adroddiad byd-eang diweddaraf ar entrepreneuriaeth, mae entrepreneuriaeth ymhlith menywod yng Nghymru wedi codi i'w lefel uchaf erioed sef 6.1%, o gymharu â 5% yn y DU gyfan. Yn amlwg, rydym ar y blaen, ond mae llawer mwy i'w wneud. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, caf drosolwg o'r cynllun cydraddoldeb strategol a'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi. Mae'r ddau gynllun yn cydweddu â'i gilydd ac yn cynnwys camau gweithredu allweddol ar gyfer gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy o safon uchel, a gwella'r ddarpariaeth ohono. Gwyddom fod cost ac ansawdd gofal plant yn bryder mawr i nifer o rieni sydd yn y gweithle, neu sy'n dymuno gweithio. Mae gofal plant fforddiadwy o safon dda yn hanfodol er mwyn galluogi rhieni i fynd i mewn i'r gweithle ac i weithio digon o oriau i gynnal eu teuluoedd. Mae llawer o'n rhaglenni yn cefnogi'r plant a'r teuluoedd hynny. Mae rhaglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio i wella blynyddoedd cynnar a gofal plant ac maent yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r hyn y gall plant a'u rhieni ei gyflawni.

Un mater allweddol i fenywod yn y gweithlu yw gwahaniaethau mewn cyflog. Rydym wedi ymrwmo i fynd i'r afael â mater cyflog cyfartal. Mae'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru yn mynnu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru sy'n nodi gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau naill ai bennu amcan cydraddoldeb cyflog ar sail rhyw neu egluro'n gyhoeddus pam nad ydynt wedi gwneud hynny. Rydym i gyd yn cydnabod nad mater i fenywod yn unig yw cyflog cyfartal. Pan fydd merched yn cael cyflog cyfartal, mae incwm eu teulu yn codi, mae'r teulu cyfan yn cael budd ac mae'r gymuned gyfan yn cael budd wedyn.

As Minister with responsibility for welfare reform, I am acutely aware of the impact that welfare changes combined with the recession are having on many women across Wales. The tax and benefit changes introduced by the UK Government disproportionately reduce the incomes of lone-parent households, for instance, and most of those lone parents are women. We are ensuring that evidence on the impact of these changes in the current economic climate, as well as evidence on gender inequality, are informing our policies across the Welsh Government. In times like these, we must recognise that equality issues remain of central importance. They are not peripheral. If anything, they are a more urgent priority than ever before. It is fair to say that we have seen improvements in terms of gender equality. However, as this debate has highlighted here today, there is always more that can be done, and we are committed to taking action, despite the damaging impact of UK Government cuts and policies.

Fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am ddiwygio lles, rwy'n ymwybodol iawn o'r effaith y mae'r newidiadau lles ynghyd â'r dirwasgiad yn ei chael ar lawer o fenywod ledled Cymru. Mae'r newidiadau i drethi a budd-daliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn lleihau'n anghymesur incwm teuluoedd un rhiant, er enghraifft, a menywod yw'r rhan fwyaf o rieni unigol. Rydym yn sicrhau bod y dystiolaeth ar effaith y newidiadau hyn yn yr hinsawdd economaidd bresennol, yn ogystal â thystiolaeth ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiâu, yn llywio ein polisiau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Ar adegau fel hyn, rhaid inni gydnabod bod materion cydraddoldeb yn parhau i fod o bwysigrwydd canolog. Nid ydynt yn ymylol. Os rhywbeth, maent yn flaenoriaeth bwysicach nag erioed o'r blaen. Mae'n deg dweud ein bod wedi gweld gwelliannau o ran cydraddoldeb rhywiol. Fodd bynnag, fel yr amlygodd y ddadl hon yma heddiw, mae rhagor y gellir ei wneud bob amser, ac rydym wedi ymrwymo i gymryd camau, er gwaethaf effaith niweidiol toriadau a pholisiau Llywodraeth y DU.

17:48

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We support the motion as tabled by Jocelyn Davies, and support amendments 1, 2, 3, 4 and 6. I oppose amendment 5, as the Minister for Economy, Science and Transport launched Business Wales Mentoring in October 2012. We are already engaging with a range of businesses and organisations to take it forward. We are not, therefore, looking to replicate the UK Government's scheme. The amendment also calls on the Welsh Government to liaise with the third sector on it, but it completely fails to mention the business community. The Welsh Conservatives really must do better than this, which is this 'for Wales, see England' policy stance of theirs when it comes to tabling amendments.

Rydym yn cefnogi'r cynnig fel y'i cyflwynwyd gan Jocelyn Davies, ac yn cefnogi gwelliannau 1, 2, 3, 4 a 6. Gwrthwynebaf welliant 5, gan fod y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi lansio Mentora Busnes Cymru ym mis Hydref 2012. Rydym eisoes yn ymgysylltu ag amrywiaeth o fusnesau a sefydliadau i'w ddatblygu. Nid ydym, felly, am ddyblygu cynllun Llywodraeth y DU. Mae'r gwelliant hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gysylltu â'r trydydd sector ynglŷn ag ef, ond mae'n methu'n llwyr â sôn am y gymuned fusnes. Yn wir, rhaid i'r Ceidwadwyr Cymreig wneud yn well na hyn, sef eu safbwynt polisi 'ar gyfer Cymru, gweler Lloegr' o ran cyflwyno gwelliannau.

17:49

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nick Ramsay a gododd—

Nick Ramsay a rose—

17:49

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There is no time; we must finish now, Minister.

Nid oes amser; rhaid inni orffen yn awr, Weinidog.

The Welsh Government will continue to look at the evidence presented to us and we will do all that we can to ensure gender equality for women in Wales, now and in the future.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych ar y dystiolaeth a gyflwynir inni a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau cydraddoldeb rhywiol i fenywod yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol.

I very much welcome this debate, and I have enjoyed all the contributions to it. Before I respond to the debate, I will let you know that we will not be supporting any of the amendments. We tabled a motion that we felt everybody could support, and now we see all these self-congratulatory and deliberately divisive amendments, and I think that those of you who tabled them should be ashamed of yourselves. However, I suppose that it was my fault for putting the temptation there.

Croesawaf y ddadl hon yn fawr iawn, ac rwyf wedi mwynhau'r holl gyfraniadau iddi. Cyn imi ymateb i'r ddadl, nodaf na fyddwn yn cefnogi unrhyw un o'r gwelliannau. Cyflwynwyd cynnig gennym yr oeddem yn teimlo y gallai pawb ei gefnogi, a bellach rydym yn gweld yr holl welliannau hunanglodforus a bwriadol ddadleuol hyn, a chredaf y dylai rhai ohonoch a'u cyflwynodd gywilyddio. Fodd bynnag, mae bai arnaf siŵr o fod am am roi'r temtasiwn ichi.

Leanne Wood outlined the report published by Chwarae Teg today, 'A Woman's Place', which demonstrates the damaging effect of stereotypes and how deep-seated they are, and how the need to juggle caring responsibilities and work prevent women from reaching the level they would like to reach at work. She also reminded us of how important childcare is to those who need and want to work. Mohammad Asghar confirmed that he agrees with Leanne Wood and that not enough progress has been made to narrow the pay gap. He also outlined to us what the UK Government is doing to address this. Well, we will judge how successful the UK Government has been in the future when we look once again at the pay gap. He made a very good point that no sensible economy ignores half of its population. I could not agree more.

Peter Black outlined the impact of shared parental leave and its potential to break down stereotypes. He acknowledged the international examples of affordable childcare and the need for it, and the discrimination within the pensions system. His focus was definitely on what the UK Government is doing.

Bethan Jenkins vividly described the appalling sexism that women who we know in the Chamber are still suffering today and the way in which women are judged on their looks, regardless of what they are trying to achieve. We also heard about issues around body image and tackling gender stereotyping and how that should be the focus for this Welsh Government.

Julie Morgan made an excellent contribution and gave us the suggestion of those historical markers and the idea of provoking thoughts in other people. She reminded us, of course, of the disadvantage faced by women in politics and the fact that mechanisms to promote women are still needed, along with the fact that, without them, political parties will certainly be out of step.

Lindsay Whittle focused on the impact of welfare reform and the disproportionate effect that that will have on women. I do not think that his analysis of the actions of the UK Government can be found in the amendments tabled by either the Tories or the Lib Dems; he gave us a very different view indeed and demonstrated the dangers of the welfare changes to women.

Joyce reminded us of her view of how good the Labour Party has been on women's issues, and she also drew our attention to the Fawcett Society's reports and the current plight of women in the public and the private sector workforce. She quite rightly advocated using equality impact assessments and those useful tools that can really show where we are with this.

Cyfeiriodd Leanne Wood at yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Chwarae Teg heddiw, 'Lle'r Fenyw', sy'n dangos effaith niweidiol stereoteipiau a pha mor ddwfn ydynt, a sut mae'r angen i gydbwysu cyfrifoldebau gofalu a gweithio yn atal menywod rhag cyrraedd y lefel yr hoffent ei chyrraedd yn y gwaith. Gwnaeth ein hatgoffa hefyd o bwysigrwydd gofal plant i'r rhai y mae angen iddynt weithio ac sydd am weithio. Cadarnhaodd Mohammad Asghar ei fod yn cytuno â Leanne Wood ac na fu digon o gynnydd i gau'r bwlch cyflog. Amlinellodd hefyd yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud i ymdrin â hyn. Wel, byddwn yn barnu pa mor llwyddiannus yw Llywodraeth y DU yn y dyfodol, pan edrychwn eto ar y bwlch cyflog. Gwnaeth bwynt da iawn nad oes unrhyw economi synhwyrol yn anwybyddu hanner ei phoblogaeth. Cytunaf yn llwyr.

Nododd Peter Black effaith absenoldeb rhiant a rennir a'i botensial i gael gwared ar stereoteipiau. Cydnabu'r enghreifftiau rhyngwladol o ofal plant fforddiadwy a'r angen amdano, a'r gwahaniaethu o fewn y system bensiynau. Roedd ei ffocws yn bendant ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud.

Rhoddodd Bethan Jenkins ddisgrifiad byw o'r rhywiaeth ofnadwy y mae menywod yr ydym yn eu hadnabod yn y Siambr yn dal i'w dioddef heddiw a'r ffordd y mae menywod yn cael eu barnu am eu hymddangosiad, ni waeth beth y maent yn ceisio ei gyflawni. Clywsom hefyd am faterion ynglŷn â delwedd y corff a mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw a sut y dylai hynny fod yn ffocws i Lywodraeth Cymru.

Gwnaeth Julie Morgan gyfraniad rhagorol gan roi'r awgrym o'r marcwyr hanesyddol hynny a'r syniad o ysgogi meddwl pobl eraill. Fe'n hatgoffwyd, wrth gwrs, am yr anfantais a wynebir gan fenywod ym myd gwleidyddiaeth a'r ffaith bod angen dulliau o hyrwyddo menywod o hyd, ynghyd â'r ffaith y bydd pleidiau gwleidyddol yn sicr o fod yn anghydnaws â chymdeithas hebdynt.

Canolbwyntiodd Lindsay Whittle ar effaith diwygio lles a'r effaith anghymesur a gaiff hynny ar fenywod. Ni chredaf fod ei ddadansoddiad o gamau gweithredu Llywodraeth y DU i'w weld yn y gwelliannau a gyflwynwyd gan naill ai'r Torïaid na'r Democratiaid Rhyddfrydol; rhoddodd inni farn wahanol iawn yn wir gan ddangos peryglon y newidiadau lles i fenywod.

Gwnaeth Joyce ein hatgoffa am ei barn ynghylch pa mor dda fu'r Blaid Lafur o ran materion menywod, a thynnodd ein sylw hefyd at adroddiadau Cymdeithas Fawcett a sefyllfa anodd bresennol menywod yng ngweithlu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yr oedd yn iawn o blaid defnyddio asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac offer defnyddiol y rhai sy'n gallu wir yn dangos lle'r ydym yn â hyn.

Suzy Davies focused on the pay gap and the glass ceiling, and I am pleased to hear that she is not convinced that women are to blame for their own poor choices in the job market. I do not disagree with her point on encouraging entrepreneurship in women, but it is not the only solution to women's disadvantages. She did remind us of Mrs Thatcher's qualities—thank you for that, Suzy. The point she made is that she was disliked for qualities of determination and single-mindedness, which are qualities that we would admire in a man. I will not say any more on that.

Canolbwyntiodd Suzy Davies ar y bwlch cyflog a'r nenfwd gwydr, ac rwy'n falch o glywed nad oedd yn argyhoeddedig mai merched sydd ar fai am eu dewisiadau gwael eu hunain yn y farchnad swyddi. Nid wyf yn anghytuno â'i phwynt ar annog entrepreneuriaeth ymhlith menywod, ond nid dyma'r unig ateb i anfanteision menywod. Gwnaeth ein hatgoffa am briodweddau Mrs Thatcher—diolch ichi am hynny, Suzy. Y pwynt a wnaeth yw ei bod yn cael ei chasáu am fod yn benderfynol ac yn unplyg, sef priodweddau y byddem yn eu hedmygu mewn dyn. Ni ddywedaf ragor am hynny.

17:54

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister outlined the Government's aspirations in this area and the value of mentors. He acknowledged the way in which stereotyping influences women and praised the work of Laura McAllister and the idea of having women in high-profile roles. He has accepted our motion, so I look forward to seeing the Welsh Government's long-term strategy.

Amlinellodd y Gweinidog ddyheadau'r Llywodraeth yn y maes hwn a gwerth mentoriaid. Cydnabu'r ffordd y mae stereoteipio yn dylanwadu ar fenywod a chanmolodd waith Laura McAllister a'r syniad o benodi menywod i swyddi proffil uchel. Mae wedi derbyn ein cynnig, felly edrychaf ymlaen at weld strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:54

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wanted specifically to address the part of our motion relating to gender stereotyping, because I think that we all agree that, at its core, this is every bit as much to do with attitudes as it is to do with policy. However, we need a radical approach to crush those stereotypes, and that must start with the way that we talk about gender. I notice that one of the Tory amendments called it 'sex' rather than 'gender'. We should try to say 'gender', or people might be confused about what you are trying to say. Often, so-called 'women's issues' or the term 'gender' itself imply division and suggest that empowerment is in the hands of one group and not the other. From the outset, even with the limited powers of the Assembly, we should—

Hoffwn yn benodol ymdrin â'r rhan o'n cynnig sy'n ymwneud â stereoteipio ar sail rhyw, oherwydd credaf fod pawb yn cytuno bod hyn, yn y bôn, yn ymwneud lawn cymaint ag agweddau ag y mae'n ymwneud â pholisi. Fodd bynnag, mae angen inni fabwysiadu ffordd radical o ddileu'r stereoteipiau hynny, a rhaid i hynny ddechrau gyda'r ffordd yr ydym yn sôn am rywedd. Sylwaf fod un o welliannau'r Torïaid wedi cyfeirio at 'rhyw' yn hytrach na 'rhywedd'. Dylem geisio dweud 'rhywedd', neu gallai pobl gael eu drysu am yr hyn yr ydych yn ceisio ei ddweud. Yn aml, mae 'materion menywod' fel y'u gelwir neu'r term 'rhywedd' ei hun yn awgrymu gwahanu a bod grym yn nwylo un grŵp ac nid y llall. O'r cychwyn cyntaf, hyd yn oed gyda phwerau cyfyngedig y Cynulliad, dylem—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On that point, we did mean 'gender'. [Laughter.] It does not quite read right.

O ran y pwynt hwnnw, 'rhywedd' yr oeddem yn ei olygu. [Chwerthin.] Nid yw'n darllen yn hollol iawn.

No, it does not quite read right, and I am glad that you have set the record straight on that. I do not really know what to say in response to that, Nick. [Laughter.]

Na, nid yw'n darllen yn hollol iawn, ac rwy'n falch eich bod wedi cywiro hynny ar lafar. Ni wn beth i'w ddweud mewn ymateb i hynny, Nick. [Chwerthin.]

We should approach gender issues from both genders and both genders must be at the very centre of our efforts. Therefore, in a practical sense, of course, this means involving men and boys in the great gender debate in the school, the workplace and in our social circles. The stereotypes that still sadly exist need to be eliminated on both sides. It means the boys knowing that sharing the domestic and caring role in the family context is just as much an expectation on them as it is on girls. It is about normalising to them that women are in positions of influence, power and success. Before we even contemplate the gender pay gap, we must address the gender expectation gap, which is much more to do with educating boys as well as empowering girls.

Dylem ymdrin â materion rhywedd o safbwynt y ddau ryw a rhaid i'r ddau ryw fod wrth wraidd ein hymdrechion. Felly, mewn ffordd ymarferol, wrth gwrs, mae hyn yn golygu cynnwys dynion a bechgyn yn y ddaol fawr ar y rhywiau yn yr ysgol, yn y gweithle ac yn ein cylchoedd cymdeithasol. Mae angen i'r stereoteipiau sy'n dal i fodoli yn anffodus ar y ddwy ochr gael eu dileu. Mae'n golygu bod y bechgyn yn gwybod bod rhannu gwaith y cartref a gwaith gofalu yn y cyd-destun teuluol yn gymaint o ddisgwyliad arnynt ag y mae ar ferched. Mae'n ymwneud â normaleiddio i'r ffaith i fechgyn fod menywod yn dal swyddi sy'n golygu dylanwad, pŵer a llwyddiant. Cyn inni hyd yn oed ystyried y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, rhaid inni fynd i'r afael â'r bwlch disgwyliad ar sail rhyw, sy'n ymwneud llawer mwy ag addysgu bechgyn yn ogystal â grymuso merched.

I commend the 'A Woman's Place' report launched today, which I am sure will contribute to our collective knowledge on this issue.

Cymeradwyaf yr adroddiad 'Lle'r Fenyw' a lansiwyd heddiw, ac rwy'n siŵr y bydd yn cyfrannu at ein gwybodaeth gyfunol am y mater hwn.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We need to engage and intervene early with boys if we hope to reverse the trends that occur in later life. We have debated in the Chamber on many occasions that girls are outperforming boys in school, as some people have said this afternoon. However, when they get to the workplace, the pay gap emerges at the expense of women.

Mae angen inni ymgysylltu ac ymyrryd ar gam cynnar o ran bechgyn os ydym am wrthdroi'r tueddiadau sy'n digwydd yn ddiweddarach mewn bywyd. Rydym wedi trafod yn y Siambr ar sawl achlysur bod merched yn perfformio'n well na bechgyn yn yr ysgol, fel y dywedodd rhai pobl y prynhawn yma. Fodd bynnag, pan fyddant yn cyrraedd y gweithle, mae'r bwlch cyflog yn dod i'r amlwg ar draul menywod.

I mentioned earlier that the Assembly's powers in this field are limited, and I expect that some parties here can justify why those restrictions should remain, although I cannot see it. However, some academics say that we should work on work/family reconciliation policies. Peter touched on this when he talked about shared parental leave, so that you strengthen the man's ties to the home and the woman's attachment to work. That is something that we should certainly explore. When was a man ever asked if he is going back to work after the baby is born? No man has ever been asked that. We ought to ponder on that; perhaps that could be one of those markers that you mentioned—the man who was asked, 'Are you returning to work after the baby's born?' So, I think that the Assembly has influence in this area, although not all those levers are quite here. However, I look forward to the day when we have all the tools that we require to eradicate gender inequality from the society that we live in.

Soniais yn gynharach fod pwerau'r Cynulliad yn y maes hwn yn gyfyngedig, ac mae'n debyg y gall rhai pleidiau yma gyfiawnhau pam y dylai'r cyfyngiadau hynny barhau, er nad wyf yn cyd-weld â hynny. Fodd bynnag, mae rhai academyddion yn dweud y dylem weithio ar bolisiau sy'n cysoni gwaith a'r teulu. Cyfeiriodd Peter at hyn pan soniodd am gyfnod absenoldeb rhiant a rennir, fel eich bod yn cryfhau cysylltiadau dynion â'r cartref ac ymlyniad menywod at fyd gwaith. Mae hynny'n rhywbeth y dylem yn sicr ei ystyried. A ofynnwyd erioed i ddyn a yw'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl i'r baban gael ei eni? Nid oes neb erioed wedi gofyn y cwestiwn hwnnw i ddyn. Dylem roi ystyriaeth i hynny; efallai y gallai hynny fod yn un o'r marcwyr hynny a grybwyllwyd gennychn—y dyn y gofynnwyd iddo, 'A ydych yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl i'r baban gael ei eni?' Felly, credaf fod gan y Cynulliad ddylanwad yn y maes hwn, er nad oes ganddo bob un o'r pwerau hynny eto. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at y dydd pan fydd gennym yr holl adnoddau sydd eu hangen arnom i ddileu anghydraddoldeb rhywiol yn y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynneg NDM5212.](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer all voting until voting time. Voting time now follows. Before I proceed with the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see not.

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5212.](#)

Y cynneg yw y dylid derbyn y cynneg heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio. Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi fynd ymlaen gyda'r bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

[Canlyniad y bleidlais ar gynneg NDM5213.](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

[Result of the vote on motion NDM5213.](#)

Voting deferred until voting time.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Derbyniwyd y cynneg: O blaid 39, Yn erbyn 5, Ymatal 6.

Motion agreed: For 39, Against 5, Abstain 6.

Dadl Fer: Cefnu ar ein Brodyr— Asesu Cefnogaeth i Anhwylder Straen wedi Trawma yng Nghymru

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Derbyniwyd y cynneg: O blaid 36, Yn erbyn 14, Ymatal 0.

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

Short Debate: Abandoned Brothers—Assessing support for PTSD in Wales

Motion agreed: For 36, Against 14, Abstain 0.

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny yn gyflym ac yn dawel?

I confirm that I would like to offer one minute to Mark Isherwood in this debate. It is a great pleasure to introduce my first short debate to the National Assembly for Wales. I have chosen to look at the question of support for armed services veterans with post-traumatic stress disorder. I note that many of the issues that I want to raise today also apply to emergency service veterans. It is important that their needs are also properly addressed in any systems that we establish.

Wales has a very proud history in Britain's armed forces. The string of memorials that are dotted across our landscape show to what extent our towns and villages provided more than their fair share of men and women to serve in both the world wars. Right through from Agincourt to the Falklands conflict, Welsh men and women have been at the front of the queue to serve our country and to protect our freedoms. We must always remember that.

I believe that there is a moral contract between our society and those who risk their lives to protect it. I am not the only one who thinks so. Back in 1903, Theodore Roosevelt said,

'A man who is good enough to shed his blood for his country is good enough to be given a square deal afterward'.

Who could disagree with that principle? There is a duty on us to make sure that those who are injured—be it mentally or physically—because they chose to serve us, are properly supported and cared for when they return to their communities.

Not long after I first became an Assembly Member, I met a constituent who was a veteran with post-traumatic stress disorder and who wanted support with a casework issue. We spoke at length about his experiences, his story and how post-traumatic stress disorder had shattered every aspect of his life, and it appalled me. I have subsequently had the privilege of meeting with many other individuals and I want to share some of their experiences with you today.

If you really want to understand how post-traumatic stress disorder affects people, I encourage you to come along to the media briefing room after this debate, where I will be showing a short film entitled 'Abandoned Brothers', which was made by a group of veterans who wanted to highlight their own experiences and speak their own minds to the world. They were brave enough to put on a theatre production at the Chapter arts centre in Cardiff and brave enough to record that so that people on YouTube or people in places like this have an opportunity to understand how they feel.

I will go back to the core of the subject. What is post-traumatic stress disorder? The definition given on the NHS website is:

'an anxiety disorder caused by very stressful, frightening or distressing events'.

Cadarnhaf yr hoffwn gynnig munud i Mark Isherwood yn y ddatl hon. Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno fy nadl fer gyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rwyf wedi dewis edrych ar gwestiwn cefnogaeth i gyn-filwyr y lluoedd arfog ag anhwylder straen wedi trawma. Sylwaf fod llawer o'r materion yr wyf am eu codi heddiw yn berthnasol i gyn-swyddogion y gwasanaethau brys hefyd. Mae'n bwysig bod eu hanghenion hwythau hefyd yn cael sylw priodol mewn unrhyw systemau a sefydlwn.

Mae gan Gymru hanes balch iawn yn lluoedd arfog Prydain. Mae'r gyfres o gofebau yn ein tirwedd yn dangos i ba raddau y rhoddodd ein trefi a'n pentrefi fwy na'u cyfran deg o ddynion a merched i wasanaethu yn y ddau ryfel byd. O Agincourt i wrthdaro Ynysoedd y Falklands, mae dynion a merched o Gymru wedi bod ar flaen y gad i wasanaethu ein gwlad ac i ddiogelu ein rhyddid. Rhaid inni gofio hynny bob amser.

Credaf fod cytundeb moesol rhwng ein cymdeithas ni a'r rhai sy'n peryglu eu bywydau i'w diogelu. Nid myfi yw'r unig un sy'n credu hynny. Yn ôl yn 1903, dywedodd Theodore Roosevelt,

Mae dyn sy'n ddigon da i golli ei waed dros ei wlad yn ddigon da i gael ei drin yn deg wedi hynny.

Pwy allai anghytuno â'r egwyddor honno? Mae dyletswydd arnom i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n cael eu hanafu—boed yn feddyliol neu'n gorfforol—am eu bod yn dewis rhoi gwasanaeth drosom, yn cael cymorth a gofal priodol pan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau.

